



Llywodraeth Cymru

Tuag at Ddyfodol Diwasttraff Cymru'n Un: Cenedl Un Blaned

Rhaglen Atal Gwastraff Cymru

Rhagfyr 2013

Rhagair gan y Gweinidog



Mae effeithiau ariannol, cymdeithasol ac amgylcheddol cynhyrchu gwastraff yn her enfawr, ac yng Nghymru rydym wedi cymryd camau mawr i wella'r ffordd rydym yn rheoli ein gwastraff. Ond rhan o'r ateb yn unig yw hyn. Daw'r manteision mwyaf drwy leihau swm y gwastraff rydym yn ei gynhyrchu drwy ein gweithgarwch bob dydd.

Mae Tuag at Ddyfodol Diwastraff, y strategaeth wastraff i Gymru, yn nodi polisïau a thargedau lefel uchel Llywodraeth Cymru ar gyfer rheoli gwastraff yng Nghymru. Mae'r Rhaglen Atal Gwastraff hon yn ategu Tuag at Ddyfodol Diwastraff drwy ddisgrifio'r canlyniadau, y polisïau, y targedau a'r rhaglen waith amlinellol i fynd i'r afael ag atal gwastraff gan fusnesau a chartrefi. Mae hefyd yn cyflawni gofyniad yr UE i Aelod-wladwriaethau ddatblygu rhaglenni atal gwastraff.

Bydd gweithredu'r rhaglen hon yn helpu Llywodraeth Cymru i gyflawni dwy flaenoriaeth allweddol – trechu tlodi, a thwf a swyddi cynaliadwy – yn ogystal â diogelu'r amgylchedd a chyfrannu tuag at Gymru gynaliadwy.

Byddwn yn helpu i drechu tlodi drwy ddarparu nwyddau cost isel o ansawdd uchel i bobl mewn angen yn ein cymunedau, drwy gamau ar ailddefnyddio, adnewyddu ac ailweithgynhyrchu. Byddwn yn cynyddu swm y bwyd dros ben sydd ar gael i bobl ei fwyta. Bydd hyn yn adeiladu ar lwyddiant mentrau megis FareShare Cymru, sydd wedi aildosbarthu'r hyn sy'n cyfateb i tua miliwn o brydau bwyd ers 2010. Mae rheoli adnoddau cynaliadwy hefyd yn cynnig cyfleoedd i greu swyddi a chyfleoedd hyfforddi i bobl nad ydynt mewn cyflogaeth, a byddwn yn gweithio gyda busnesau i fanteisio i'r eithaf ar y potensial hwn.

Nid yn unig y mae twf gwyrdd yn diogelu ein hamgylchedd, ond mae ganddo'r potensial hefyd i greu cyfoeth yng Nghymru. Mae'n creu swyddi newydd, cyfleoedd masnachol ac yn arbed arian i fusnesau. Mae twf gwyrdd yn un o'r ysgogwyr allweddol ar gyfer ein gweledigaeth am ddyfodol cynaliadwy Cymru. Drwy ein gwaith ar eco-arloesi ac ecoddylunio, byddwn yn annog ein busnesau i ddatblygu cynnyrch a gwasanaethau cynaliadwy, defnyddio adnoddau deunyddiau'n effeithlon a buddsoddi mewn swyddi cynaliadwy o ansawdd uchel.

Ar adeg pan mae llawer o bobl yn ei chael yn anodd yn ariannol, ceir llawer o gyfleoedd i leihau gwastraff ac arbed arian. Er enghraifft, mae'r cartref cyffredin yn taflu gwerth £480 o fwyd bob blwyddyn. Mae hyn yn gyfwerth â £600 miliwn y flwyddyn i Gymru gyfan. Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i gyllido mentrau Hoffi Bwyd Casáu Gwastraff cenedlaethol a lleol, sy'n cynnig syniadau ac awgrymiadau defnyddiol i leihau gwastraff bwyd ac arbed arian i deuluoedd.

Rydym yn aml yn ansicr ynglŷn â sut i ofalu am ein heiddo a'i drwsio, a phan fyddwn wedi gorffen gyda phethau rydym yn eu taflu i'r bin yn hytrach na meddwl am ddewisiadau eraill. Drwy ddatblygu ein seilwaith trwsio ac ailddefnyddio, a chodi proffil y cyfleoedd hyn, ein nod yw gwneud trwsio ac ailddefnyddio yn ddewis cyntaf naturiol ar gyfer nwyddau, dodrefn/celfi a dillad diffygiol neu ddiangen.

Un o amcanion allweddol y rhaglen hon yw torri'r cysylltiad rhwng cynhyrchu gwastraff a thwf economaidd. Mae economi ffyniannus gyda lefelau uchel o gyflogaeth yn allweddol i les pobl Cymru ond rhaid i ni hefyd sicrhau cyflenwad iach a helaeth o adnoddau naturiol. Nid yw'r rhain yn nodau anghyson – mae arbedion ariannol enfawr i'w gwneud drwy gamau i atal gwastraff a bydd Llywodraeth Cymru yn cynorthwyo busnesau a dinasyddion i fanteisio i'r eithaf ar yr arbedion hyn.

Mae Llywodraeth Cymru wedi nodi rhai sectorau â blaenoriaeth sy'n cynhyrchu gwastraff a chanddo effaith amgylcheddol uchel, ac sy'n dangos y potensial i leihau swm y gwastraff maent yn ei gynhyrchu. Mae deall y blaenoriaethau hyn wedi llywio'r rhaglen i sicrhau'r enillion ariannol, cymdeithasol ac amgylcheddol gorau posibl ar ein buddsoddiad.

Mae gan y sector adeiladu a dymchwel, ac eraill sy'n ymwneud â'r amgylchedd adeiledig, rôl allweddol i'w chwarae o ran lleihau gwastraff. Bydd y Rhaglen Atal Gwastraff yn mynd i'r afael â chwe maes allweddol a nodwyd wrth ddatblygu Cynllun y Sector Adeiladu a Dymchwel.

Mae busnesau'n gwybod yr heriau i atal gwastraff, a sut y gall Llywodraeth Cymru ddarparu cymorth i wneud i hyn ddigwydd. Gwnaethom ddefnyddio'r cyfnod ymgynghori i siarad ag amrywiaeth o gynrychiolwyr y sector i ddeall sut y gallwn eu cynorthwyo ag atal gwastraff, a datblygu rhaglen ar gyfer gweithredu. Byddwn yn defnyddio'r wybodaeth hon i sicrhau ein bod yn gweithio gyda'r busnesau cywir yn y ffordd gywir.

Mae Llywodraeth Cymru yn ymrwymedig i arwain drwy esiampl drwy ei gweithrediadau ei hun a hefyd drwy ei harferion caffael, a byddwn yn annog y sector cyhoeddus ehangach yng Nghymru i ddangos arweinyddiaeth hefyd. Byddwn yn annog y busnesau sy'n gweithio gyda ni i ddangos eu bod yn atal gwastraff, a byddwn yn ei gwneud yn hawdd i'n staff a'r dinasyddion sy'n defnyddio ein gwasanaethau i wneud hynny.



Alun Davies AC
Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd

Crynodeb

Y Rheswm dros y Rhaglen hon

Mae Llywodraeth Cymru yn ymateb i'r sefyllfa economaidd anodd sy'n wynebu pobl a busnesau yng Nghymru. Rydym yn cynorthwyo busnesau i wella cynhyrchiant a defnyddio adnoddau'n gynaliadwy, i fod yn arloesol a chael mantais gystadleuol, a diogelu yn erbyn prisiau nwyddau sy'n codi. Rydym hefyd yn cyfathrebu manteision atal gwastraff i bobl Cymru, gan helpu i leihau tlodi drwy wastraffu llai a defnyddio'r bwyd a'r nwyddau eraill rydym yn eu prynu yn fwy effeithiol. Mae'r ddogfen hon yn disgrifio'r hyn rydym yn ei wneud i gyflawni'r ymrwymiad hwn.

Mae'r rhaglen atal gwastraff yn ategu 'Tuag at Ddyfodol Diwastraff', y strategaeth wastraff i Gymru, drwy ddisgrifio'r canlyniadau, y polisiâu, y targedau a'r rhaglen waith i fynd i'r afael ag atal gwastraff yng Nghymru. Mae Cyfarwydddeb Fframwaith Gwastraff yr UE yn ei gwneud yn ofynnol i Aelod-wladwriaethau ddatblygu rhaglenni atal gwastraff ac yn mandadu rhywfaint o'i gwmpas a'i gynnwys. Un o'r amcanion allweddol yw torri'r cysylltiad rhwng cynhyrchu gwastraff a thwf economaidd.

Beth yw'r Prif Faterion?

Rydym yn colli arian ac yn defnyddio adnoddau gwerthfawr drwy daflu gormod i ffwrdd.

Yn 2011/12, cynhyrchwyd 1.36 miliwn tonn o wastraff o gartrefi. Yn 2007, cynhyrchodd busnesau yn y sectorau diwydiannol 1.9 miliwn tonn, a chynhyrchodd y rhai yn y sectorau masnachol 1.7 miliwn tonn. Nodwyd bod swm y gwastraff adeiladu a dymchwel a reolwyd i ffwrdd o'r safle cynhyrchu yn 5.31 miliwn tonn yn 2005/06.

Mae'r cartref cyffredin yng Nghymru yn gwastraffu gwerth tua £480 o fwyd bob blwyddyn; mae dillad heb eu gwerthu sy'n cael eu gwaredu gan fanwerthwyr werth tua £27,000 fesul tonn; mae sgip a gynhyrchir ar safle adeiladu'n cynnwys gwerth tua £1,300 o gynnyrch ar gyfartaledd.

Mae nifer o fentrau atal gwastraff eisoes yn mynd rhagddynt yng Nghymru, a cheir llawer o gyfleoedd i wneud mwy drwy newid ein hymddygiad.

Amlinelliad o'r Rhaglen.

Bydd y Rhaglen Atal Gwastraff yn sicrhau bod deiliaid tai a busnesau yng Nghymru yn gallu lleihau:

- Swm y gwastraff, gan gynnwys drwy aildddefnyddio cynnyrch neu ymestyn hyd oes cynnyrch.
- Effeithiau andwyol y gwastraff a gynhyrchir ar yr amgylchedd ac ar iechyd pobl.
- Y sylweddau niweidiol mewn deunyddiau a chynnyrch.

Prif fantais y rhaglen yw y bydd aelwydydd a busnesau'n gallu lleihau gwastraff, ac arbed arian ar yr un pryd.

Mae model newid ymddygiad y '4E' yn cael ei ddatblygu, i sicrhau bod y canlyniadau'n gyson ag ymrwymiad Llywodraeth Cymru i ddatblygu cynaliadwy.

Mae targedau atal gwastraff wedi'u datblygu ar gyfer y rhaglen. Nid ydynt yn statudol ond maent yn dargedau dangosol y gallwn ni weithio gyda'n gilydd i'w cyflawni.

Rhaglen ar gyfer Gwastraff o Gartrefi

Disgrifir y targedau a'r blaenoriaethau a nodwyd ar gyfer gwastraff o gartrefi yma.

- Mae targed atal gwastraff wedi'i bennu ar gyfer gwastraff o gartrefi fel a ganlyn:
 - o Lleihad o 1.2 y cant bob blwyddyn tan 2050 yn seiliedig ar linell sylfaen 2006/7.
- Caiff camau gweithredu eu targedu at fwyd, papur, cerdyn, a phlastig (deunydd pacio yn bennaf), dillad a nwyddau traul (gan gynnwys offer trydanol ac electronig a nwyddau sy'n cynnwys sylweddau peryglus).

Gellir atal gwastraff o gartrefi ar bwyntiau gwahanol yn y gadwyn gyflenwi. Mae'r rhaglen ar gyfer gwastraff o gartrefi yn ystyried camau 'ochr y galw' o ran dewisiadau prynu, defnydd yn y cartref a gwaredu a chasglu.

Mae'r rhaglen fel a ganlyn:

- Rhaglen ymgysylltu â defnyddwyr.
- Adolygu cynlluniau gwobrwyo aelwydydd.
- Sicrhau bod y gwasanaethau gorau posibl yn cael eu darparu i ddeiliaid tai.

Caiff camau sy'n ystyried 'ochr gyflenwi' (sy'n effeithio ar wastraff o gartrefi) dylunio cynnyrch, gweithgynhyrchu, dosbarthu a manwerthu eu hystyried yn y rhaglen ar gyfer gwastraff diwydiannol a masnachol.

(Caiff aildddefnyddio gwastraff o bob sector ei ystyried ar wahân).

Y Rhaglen ar gyfer Gwastraff Diwydiannol a Masnachol

Disgrifir y targedau a'r blaenoriaethau a nodwyd ar gyfer gwastraff diwydiannol a masnachol yma.

- Y targed ar gyfer gwastraff diwydiannol yw lleihad o 1.4 y cant bob blwyddyn tan 2050 yn seiliedig ar linell sylfaen 2006/7.
- Y targed ar gyfer gwastraff masnachol yw lleihad o 1.2 y cant bob blwyddyn tan 2050 yn seiliedig ar linell sylfaen 2006/7.

Cynigiwyd y rhain yn Tuag at Ddyfodol Diwastraff, ac maent wedi bod yn destun ymgynghoriad cyhoeddus.

Dyma ein meysydd â blaenoriaeth ar gyfer gweithredu:

- Gweithio gyda manwerthwyr mawr a'u cadwyni cyflenwi.
- Hyrwyddo Eco-arloesi yn y sector gweithgynhyrchu yng Nghymru.
- Y sector cyhoeddus fel patrwm i'w ddilyn.

Dyma ein sectorau busnes â blaenoriaeth:

- Y sector gweithgynhyrchu bwyd.
- Gwasanaethau llety a bwyd.
- Diwydiant a ganiateir.
- Busnesau Bach a Chanolig, ac yn enwedig gwasanaethau a leolir mewn swyddfeydd, bwyd a llety, a manwerthwyr a chyfanwerthwyr bach.

Y Rhaglen ar gyfer Gwastraff Adeiladu a Dymchwel

Disgrifir y targedau a'r blaenoriaethau a nodwyd ar gyfer gwastraff adeiladu a dymchwel yma.

- Y targed atal gwastraff ar gyfer gwastraff adeiladu a dymchwel yw lleihad o 1.4 y cant bob blwyddyn tan 2050 yn seiliedig ar linell sylfaen 2006/7.
- Y deunyddiau blaenoriaeth yw pren; plastig; deunydd inswleiddio a gypswm; gwastraff peryglus (pridd wedi'i halogi yn bennaf); metelau; concrit, briciau, teils a cerameg, sylweddau bitwminaidd.
- Nodwyd y camau allweddol canlynol yng nghylch bywyd cynnyrch adeiladu ac adeiladau, a bydd y rhaglen yn canolbwyntio ar y rhain:
 - o Dylunio adeiladau a phrosiectau adeiladu.
 - o Dylunio cynnyrch adeiladu.
 - o Difrod i gynnyrch adeiladu sy'n cael eu cludo.
 - o Adeiladwyr yn archebu gormod.
 - o Defnyddio cynnyrch dros ben a gynhyrchwyd ar y safle.
 - o Dymchwel ac adnewyddu adeiladau.

Mae prosiectau yn cynnwys:

- Dylunio sy'n atal gwastraff.
- Addysg a chyfarwyddyd.
- Dylunio ar gyfer Dadadeiladu (D4D).
- Annog y defnydd o beirianeg gwerth ar brosiectau adeiladu mawr Prosiectau adeiladu cynaliadwy.
- Ecoddylunio o fewn prosiectau adeiladu.
- Atebion dylunio ar gyfer cynnyrch adeiladu.
- Cymorth Llywodraeth Cymru i fusnesau bach a chanolig ailddefnyddio deunyddiau dros ben.
- Seilwaith i gynorthwyo ailddefnyddio deunyddiau dros ben er budd y gymuned.
- Lleihau'r 'ffactor gwastraff'.
- Caffael sy'n ymwneud ag adeiladu yn fwy gwyrdd.

Rhaglen Ailddefnyddio a Thrwsio i Gymru

Mae rhaglen ailddefnyddio a thrwsio yn cael ei datblygu a fydd yn cynnwys:

- Ymgyrch gyfathrebu.
- Mesurau i annog casgliadau ar wahân ar gyfer Cyfarpar Trydanol ac Electronig Gwastraff (WEEE) mewn cyfleusterau casglu dynodedig a gweithio gyda chyfleusterau trin awdurdodedig a chymeradwy (AATFs) i annog mwy o drwsio, ailddefnyddio ac ailwerthu yn eu cyfleusterau.
- Rôl caffael gwyrdd.
- Rhwydwaith Ailddefnyddio, i sefydlu'r seilwaith ar gyfer rhwydwaith ailddefnyddio gan gynnwys warysau a rennir, sefydlu llinell ffôn, cyfathrebu cyhoeddus.
- Safonau ar gyfer ailddefnyddio, i alluogi sefydliadau ailddefnyddio i gynnig cynnyrch wedi'u haildefnyddio a fu'n destun proses sicrhau ansawdd.

Y Camau Nesaf

Bydd Llywodraeth Cymru yn cyflwyno adroddiad i'r Comisiwn Ewropeaidd ei bod wedi llunio rhaglen atal gwastraff yn unol â deddfwriaeth yr UE.

Caiff prosiectau gweithredu ac unrhyw dargedau a chynlluniau monitro cysylltiedig eu datblygu.

Er mwyn monitro cynnydd yn erbyn targedau, asesu dichonoldeb ein prosiectau gweithredu, sicrhau ein bod yn gwireddu manteision, a gwerthuso ein perfformiad, mae angen i ni gael gafael ar ddata a thystiolaeth briodol. Rydym yn llunio Strategaeth Data a Thystiolaeth i amlinellu ein gofynion a nodi ffynonellau addas, a chynllun ar gyfer coladu a dadansoddi'r data a thystiolaeth arall yn brydlon ac yn effeithiol i ategu datblygu a chyflawni polisi.

Bydd y mesurau perfformiad ar gyfer pob prosiect hefyd yn cael eu monitro i sicrhau ein bod yn cael gwerth am arian yn ein prosiectau. Caiff adroddiadau cynnydd blynyddol eu cyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru.

Cynnwys

Rhagair gan y Gweinidog.....	i
Crynodeb.....	iii
Cynnwys.....	vii
1 Cefndir.....	1
1.1 Gweledigaeth, Cerrig Milltir ac Amcanion.....	1
1.1.1 Gweledigaeth.....	1
1.1.2 Cerrig milltir	2
1.1.3 Amcanion.....	3
1.2 Cyd-destun	4
1.3 Cwmpas, egwyddorion allweddol a diffiniadau	5
1.4 Fframwaith y Polisi.....	7
1.5 Esblygiad y rhaglen hon	9
1.6 Fframwaith cysyniadol	10
2 Gwastraff o gartrefi.....	12
2.1 Asesu'r sefyllfa.....	12
2.1.1 Symiau a mathau o wastraff o gartrefi.....	12
2.1.2 Manteision atal gwastraff.....	13
2.1.3 Polisiâu a thargedau.....	14
2.2 Rhaglen waith.....	14
2.2.1 Rhaglen cynnwys defnyddwyr a chartrefi.....	16
2.2.2 Gwasanaethau a ddarperir i gartrefi.....	19
2.3 Monitro Cynnydd.....	19
2.3.1 Cynnydd yn erbyn y targed cenedlaethol	19
2.3.2 Dangosyddion cynnydd strategol	19
2.3.3 Monitro cynnydd prosiectau gweithredu	20
3 Sectorau Diwydiannol a Masnachol	21
3.1 Asesu'r sefyllfa.....	21
3.1.1 Symiau a mathau o wastraff diwydiannol a masnachol.....	21
3.1.2 Manteision atal gwastraff.....	23
3.1.3 Targedau ar gyfer atal gwastraff.....	25
3.1.4 Cymorth i fusnesau gan Lywodraeth Cymru	25
3.2 Blaenoriaethau.....	27
3.2.1 Sectorau Busnes â Blaenoriaeth	27
3.2.2 Blaenoriaethau Trawsbynciol ar gyfer Gweithredu	27
3.3 Rhaglen waith.....	27
3.3.1 Y Sector Gweithgynhyrchu Bwydydd	29
3.3.2 Y Sector Gwasanaethau Llety a Bwyd	29
3.3.3 Busnesau Bach a Chanolig	31
3.3.4 Sectorau Diwydiant a Ganiateir	31
3.3.5 Y Sector Cyhoeddus.....	32
3.3.6 Gweithio gyda manwerthwyr mawr a'u cyflenwyr	33
3.4 Hyrwyddo Eco-arloesi yn sector gweithgynhyrchu Cymru.....	39
3.5 Monitro Cynnydd.....	40
3.5.1 Cynnydd yn erbyn y targed cenedlaethol	40
3.5.2 Dangosyddion cynnydd strategol	40
3.5.3 Monitro cynnydd prosiectau gweithredu unigol	41
4 Gwastraff adeiladu a dymchwel.....	42
4.1 Asesu'r sefyllfa.....	42
4.1.1 Symiau a mathau o wastraff adeiladu a gwastraff dymchwel.....	42
4.1.2 Manteision Atal Gwastraff.....	44

4.1.3	Polisiâu a thargedau ar gyfer atal gwastraff adeiladu a dymchwel	44
4.1.4	Mentrau presennol ar atal gwastraff	44
4.2	Blaenoriaethau a rhaglen waith	46
4.2.1	Meysydd blaenoriaeth ar gyfer gweithredu.....	46
4.2.2	Rhaglen waith.....	47
4.3	Monitro Cynnydd.....	54
4.3.1	Cynnydd yn erbyn y targed cenedlaethol	54
4.3.2	Dangosyddion cynnydd strategol	54
4.3.3	Monitro cynnydd prosiectau gweithredu unigol	54
5	Ailddefnyddio	55
5.1	Cefndir	55
5.2	Rhaglen trwsio ac ailddefnyddio yng Nghymru.....	56
5.2.1	Eitemau trydanol.....	56
5.2.2	Dodrefn.....	56
5.2.3	Dillad.....	57
5.2.4	Mesurau cyffredinol	57
6	Y Camau Nesaf	58
6.1	Prosiectau gweithredu	58
6.2	Cynllun Data a Thystiolaeth.....	58
6.3	Monitro Cynnydd.....	58
6.4	Cyflwyno adroddiad Comisiwn Ewropeaidd.....	58
Atodiad A	Effaith yr economi, gweithgarwch busnes ac ysgogwyr demograffig ar y gwastraff a gynhyrchir	59
A.1	Gwastraff Cartref	59
A.2	Gwastraff Diwydiannol a Masnachol.....	59
A.3	Gwastraff Adeiladu a Dymchwel.....	60
Atodiad B	Gwerthuso mesurau ar gyfer y Rhaglen Atal Gwastraff	61
B.1	Mesurau ar gyfer Gwastraff o Gartrefi	61
B.2	Mesurau ar gyfer Gwastraff Diwydiannol a Masnachol	61
B.3	Mesurau ar gyfer Gwastraff Adeiladu a Dymchwel.....	63
Atodiad C	Fframwaith Polisi a Mentrau ar Lefel Ewropeaidd.....	65
Atodiad Ch	Rhestr termau.....	69

1 Cefndir

Mae'r adran hon yn disgrifio gweledigaeth ac amcanion y rhaglen a'r cyd-destun a'r fframwaith polisi ar ei chyfer. Mae hefyd yn esbonio'r cwmpas, ac yn diffinio'r mentrau a gwmpesir gan y Rhaglen Atal Gwastraff.

1.1 *Gweledigaeth, Cerrig Milltir ac Amcanion*

Mae'r weledigaeth a'r cerrig milltir canlynol a ddatblygwyd ar gyfer Tuag at Ddyfodol Diwastraff¹ wedi'u hadlewyrchu yn y cynlluniau sector ategol. Mae amcanion penodol ar gyfer atal gwastraff wedi'u datblygu ar gyfer y rhaglen hon, a byddant yn rhoi'r fframwaith ar gyfer gweithredu prosiectau.

1.1.1 Gweledigaeth

Gweledigaeth Llywodraeth Cymru yw i Gymru fod yn gymdeithas ffyniannus, deg a chyfiawn sy'n mwynhau amgylchedd cynaliadwy.

Amgylchedd cynaliadwy

Byddwn yn lleihau effaith gwastraff yng Nghymru fel ei bod o fewn ein cyfyngiadau amgylcheddol drwy ganolbwyntio ar leihau ôl troed ecolegol gwastraff i lefelau 'Cenedl Un Blaned' erbyn 2050. Bydd yr ymagwedd hon yn lleihau effaith newid yn yr hinsawdd oherwydd gweithgarwch gwastraff, cyflawni defnydd a chynhyrchu cynaliadwy, cynnal ein heconomi a rheoli a chadw adnoddau'r blaned.

Cymdeithas ffyniannus

Bydd ein gweithredoedd ar effeithlonrwydd adnoddau a rheoli gwastraff yn ategu datblygu cymdeithas ffyniannus sy'n:

- Darparu mwy o swyddi 'gwyrdd' yn y diwydiant gwastraff a rheoli adnoddau ar draws amrywiaeth o lefelau sgiliau yng Nghymru a chynyddu nifer y swyddi hyfedr, gwerth uchel.
- Yn gadarn yn erbyn gofynion a fydd yn cystadlu yn erbyn ei gilydd yn y dyfodol gan gynnwys costau cynyddol a diogelwch adnoddau sylweddol byd-eang, arbed arian a chynnal neu gynyddu elw drwy reoli adnoddau'n fwy effeithlon.

Cymdeithas deg a chyfiawn

Bydd cynlluniau a rhaglenni'r sector yn gweithredu'r targedau, y camau a'r polisiâu yn Tuag at Ddyfodol Diwastraff. Gall dinasyddion, drwy gamau gweithredu ar atal gwastraff, ailddefnyddio ac ailgylchu:

- Cyrraedd eu potensial.
- Cyfoethogi eu cymunedau.
- Cyfrannu tuag at les Cymru.
- Gwellu eu hamgylchedd lleol.
- Mynd ati i wellu ansawdd eu bywyd.

¹ Tuag at Ddyfodol Diwastraff, Llywodraeth Cymru (2010)

Bydd cyfle cyfartal i bob dinesydd yng Nghymru gyfrannu at atal gwastraff, ailddefnyddio ac ailgylchu lle bynnag y maent yn byw, beth bynnag yw eu hiechyd a'u gallu, eu symudedd neu eu hamgylchiadau personol.

1.1.2 Cerrig milltir

2025 Tuag at Ddyfodol Diwastraff

Erbyn 2025, bydd gostyngiad sylweddol yn y gwastraff (27 y cant), a byddwn yn rheoli unrhyw wastraff a gynhyrchir mewn ffordd sy'n manteisio i'r eithaf ar ein hadnoddau gwerthfawr. Mae hyn yn golygu sicrhau cymaint o ailgylchu â phosibl a lleihau'r swm o wastraff gweddillol a gynhyrchir, a chyflawni mor agos â phosibl at ddim tirlenwi o gwbl.

Mae hwn yn gam canolradd tuag at ein targed o gyflawni sefyllfa ddiwastraff a 'byw o fewn ein cyfyngiadau amgylcheddol' erbyn 2050². Mae angen hyn oherwydd bydd lleihau effaith gwastraff yng Nghymru i lefelau 'Cenedl Un Blaned' yn golygu ei bod yn ofynnol sicrhau newidiadau mawr yn y ffordd y mae cynnyrch a gwasanaethau'n cael eu dylunio, a'r camau y mae defnyddwyr a busnesau yn eu cymryd.

Atal gwastraff - Mae angen i sgil-gynhyrchion gwastraff leihau'n sylweddol ar draws pob sector er mwyn cyflawni nod Cenedl Un Blaned ar gyfer 2050. Byddwn yn symud o gymdeithas sy'n canolbwyntio ar gynnyrch i gymdeithas sy'n canolbwyntio ar wasanaeth lle bydd cynnyrch ar brydles/yn cael eu rhentu a chanolfannau trwsio yn bethau cwbl arferol. Bydd dinasyddion yn cael eu grymuso i 'brynu yn ddoethach' a byddant yn gyfrifol am ganlyniadau eu pryniadau, gan osgoi cynhyrchu gwastraff, ac ailddefnyddio cynnyrch gymaint â phosibl. Bydd ailddefnyddio eitemau diangen yn cael ei annog. Cyn belled ag y bo modd, bydd eitemau sy'n cael eu gwaredu fel gwastraff yn cael eu 'paratoi i'w hailddefnyddio' a byddant yn parhau i fod yn adnodd a chael eu hailddefnyddio gan eraill. Bydd manwerthwyr yn gwerthu cynnyrch sy'n cynhyrchu llai o wastraff a bydd hyd oes cynnyrch yn cael ei gynyddu.

2050 Cyflawni dyfodol diwastraff

Erbyn 2050, byddwn wedi lleihau effaith gwastraff yng Nghymru i'r hyn sydd o fewn ein cyfyngiadau amgylcheddol a byddwn yn cynhyrchu tua 65 y cant yn llai o wastraff nag yn 2007. Bydd gwastraff gweddillol wedi cael ei ddileu a bydd unrhyw wastraff yn cael ei ailgylchu. Golyga hyn y bydd ôl troed ecolegol gwastraff yng Nghymru ar lefelau Cenedl un Blaned. Fe'i cyflawnir drwy barhau a gwella ein hymdrechion presennol ar y canlynol:

2 Cyfyngiadau Amgylcheddol – 'Yn ôl ein Gweledigaeth bydd Cymru Gynaliadwy yn: byw o fewn ei chyfyngiadau amgylcheddol, gan ddefnyddio dim ond ei chyfran deg o adnoddau'r ddaear i sicrhau ein bod yn lleihau'n hól troed ecolegol yn unol â chyfartaledd yr adnoddau sydd ar gael ar draws y byd, a bod yn gryf yn wyneb effeithiau'r newid yn yr hinsawdd' (Ffynhonnell: Cymru'n Un: Cenedl Un Blaned: Cynllun datblygu cynaliadwy newydd i Gymru).

- **Cyflawni lefelau gwastraff Cenedl Un Blaned – ‘Byw o fewn ein cyfyngiadau amgylcheddol’** - Gwneir mwy o ymdrech i herio gwastraff ar bob cam o'i gynhyrchu. Bydd yr holl gynnyrch yn defnyddio cyn lleied o ddeunydd â phosibl, gyda'r rhan fwyaf ohono yn dod o ddeunyddiau ailgylchu, gan ddefnyddio cyn lleied o adnoddau crai â phosibl. Bydd adnoddau'n cael eu gwerthfawrogi gymaint fel na fyddant yn cael eu gwastraffu.
- **Ceisio dirwyn gwastraff gweddilliol i ben a chyflawni ‘dyfodol diwastraff’ drwy sicrhau bod yr holl wastraff yn cael ei aildddefnyddio neu ei ailgylchu** - Bydd unrhyw wastraff a gynhyrchir yn cael ei aildddefnyddio, ei ailgylchu, ei gompostio (ar gyfer gwastraff gwyrdd) neu ei dreulio'n anaerobig (ar gyfer gwastraff bwyd). Bydd yr holl gynnyrch a deunydd pacio'n cael eu cynllunio i'w datgymalu a'u haildddefnyddio neu eu hailgylchu, a bydd y gwasanaethau casglu a'r cyfleusterau i ailgylchu'r holl ddeunyddiau yn eu lle. Bydd yr holl weithrediadau ailgylchu'n rhai ‘dolen gaeedig’, neu'n defnyddio ‘uwchgylchu’. Cyn belled ag y bo modd, bydd deunyddiau ailgylchu'n cael eu defnyddio'n uniongyrchol mewn prosesau gweithgynhyrchu yng Nghymru. Mae hyn yn golygu y bydd llawer llai o angen am gyfleusterau trin gwastraff gweddilliol megis ynni o weithfeydd gwastraff gyda'r nifer a/neu'r gallu ac adnoddau gofynnol yn lleihau'n raddol o 2025 tan 2050.

1.1.3 Amcanion

1.1.3.1 Datgysylltu cynhyrchu gwastraff oddi wrth dwf economaidd

Prif amcan y Rhaglen Atal Gwastraff fydd datgysylltu twf economaidd oddi wrth effeithiau amgylcheddol cynhyrchu gwastraff.

Mae gan Lywodraeth Cymru hefyd yr amcan o alluogi cartrefi a busnesau i leihau gwastraff, ac arbed arian ar yr un pryd.


“Mae datgysylltu twf economaidd oddi wrth yr effeithiau amgylcheddol sy'n gysylltiedig â chynhyrchu gwastraff yn un o amcanion allweddol Cyfarwydddeb Fframwaith Gwastraff ddiwygiedig yr UE (Cyfarwydddeb 2008/98/EC). Nid yw sefydlogi cynhyrchu gwastraff yn ddigon bellach, rhaid i dwf gwastraff yn yr UE gael ei wrthdroi yn awr.”

Preparing a Waste Prevention Programme. Guidance Document. Y Comisiwn Ewropeaidd (2012).

Mae'r Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (OECD) yn gosod datgysylltu fel a ganlyn: “Mae'r term “datgysylltu” wedi'i ddefnyddio'n aml i gyfeirio at dorri'r cysylltiad rhwng yr “elfennau amgylcheddol gwael” a'r “elfennau economaidd da.” Yn arbennig, mae'n cyfeirio at “gyfraddau twf cymharol pwysau ar yr amgylchedd a newidyn sy'n berthnasol yn economaidd y mae ganddo gysylltiad achosol ag ef.”

Mae Ffigur 1 yn dangos y cysyniad o ddatgysylltu drwy ddisgrifio cysylltiadau amrywiol rhwng dangosydd economaidd (gwariant defnydd terfynol) a chynhyrchu gwastraff ar gyfer gwastraff o gartrefi.

Ffigur 1 Enghreifftiau o'r berthynas rhwng gwariant defnydd terfynol a chynhyrchu gwastraff ar gyfer gwastraff o gartrefi



Ffynhonnell: Bio Intelligence Service

Polisi Llywodraeth Cymru yw y dylai effaith amgylcheddol gwastraff gyrraedd lefelau cenedl un blaned erbyn 2050, ac y gellir cyflawni hyn drwy leihau'r gwastraff a gynhyrchir wedi'i ategu gan gyfraddau ailgylchu uchel ar draws yr holl ffrydiau gwastraff.

Mae Llywodraeth Cymru wedi mynd ati i ddefnyddio'r targedau lleihau absoliwt ar gyfer pob prif ffrwd wastraff (o gartrefi, masnachol, diwydiannol, adeiladu a dymchwel) fel y disgrifir yn Tuag at Ddyfodol Diwastraff. Drwy wneud hynny, mae bron yn anochel y bydd datgysylltu, neu ddatgysylltu cymharol, yn digwydd. Yr unig sefyllfa lle na fyddai datgysylltu'n digwydd fyddai pe bai'r economi'n crebachu ar gyfradd yn gyfwerth â'r lleihad mewn gwastraff neu'n fwy na hynny. Mae gan Lywodraeth Cymru bolisiâu yn eu lle i annog twf a swyddi sydd wedi'u cynllunio i leihau'r tebygolrwydd y byddai'r economi'n crebachu. Mae'n amhosibl ynysu ein busnesau'n llwyr oddi wrth yr hinsawdd economaidd fyd-eang, ond bydd y rhaglen hon yn creu cyfleoedd i fusnesau ddiogelu adnoddau naturiol, lleihau costau a chyflwyno atebion arloesol i'r farchnad.

1.2 Cyd-destun

Mae gan wastraff oblygiadau amgylcheddol, cymdeithasol ac ariannol ac er bod technolegau trin gwastraff wedi dod yn gynyddol soffistigedig, mae patrymau defnydd byd-eang cynyddol yn rhoi pwysau ar ein hecosystemau a'n seilwaith gwastraff. Mae gwastraff yn cynnwys adnoddau y mae gennym symiau cyfyngedig ohonynt, neu y mae'r cyflenwad ohonynt o dan straen oherwydd prinder neu ddiffyg sicrwydd cyflenwad, ac mae canfyddiad newydd o adnoddau'n allweddol i fynd i'r afael â phroblem gwastraff.

Mae atal gwastraff yn effeithio ar amrywiaeth o bartïon â diddordeb, ac mae amrywiaeth o bartïon â diddordeb yn effeithio ar atal gwastraff. Bydd dim ond yn cael ei gyflawni drwy newidiadau yn agwedd ac ymddygiad cartrefi a busnesau ac ar batrymau newydd mewn prosesau diwydiannol a dylunio cynnyrch neu wasanaethau.

1.3 Cwmpas, egwyddorion allweddol a diffiniadau

Mae'r rhaglen hon wedi'i chynllunio i fodloni gofynion y Gyfarwydddeb Fframwaith Gwastraff a'r canlyniadau datblygu cynaliadwy a ddisgrifir yn Tuag at Ddyfodol Diwastraff. Adlewyrchir hyn yn y cwmpas a'r egwyddorion allweddol a restrir isod.


- Mae'r rhaglen yn canolbwyntio ar y ffrydiau gwastraff canlynol:
 - o Gwastraff o gartrefi.
 - o Diwydiannol a Masnachol (busnesau a'r sector cyhoeddus).
 - o Adeiladu a Dymchwel (gwastraff o'r amgylchedd adeiledig).
- Mae targedau atal gwastraff yn cael eu gosod ar gyfer pob un o'r ffrydiau hyn.
- Bydd y rhaglen waith yn cael ei thargedu, gan ganolbwyntio ar y deunyddiau sydd â'r effaith amgylcheddol uchaf (deunyddiau blaenoriaeth) ac ar y sectorau lle ceir y cyfle mwyaf i atal gwastraff.
- Dangosyddion cenedlaethol i ddangos yr ymgynghorwyd ar 'ddatgysylltu', a'u diwygio gyda chymorth grŵp llywio'r rhaglen. Cyflwynir y fersiynau terfynol yn y ddogfen hon, ynghyd â'r targedau atal gwastraff lefel uchel a gynigiwyd gyntaf yn Tuag at Ddyfodol Diwastraff.
- Mae'r Rhaglen Atal Gwastraff yn cwmpasu mesurau lefel uchel, ond caiff ei hategu gan gyfres o brosiectau gweithredu (gweler Ffigur 2). Bydd pob prosiect neu ffrwd waith yn cael ei ategu gan dargedau a dangosyddion cynnydd addas. Bydd y rhain yn adlewyrchu natur y gweithredu, gan gynnwys ei bwyslais ar ddeunyddiau gwastraff penodol neu sectorau economaidd.
- Mae canlyniadau Datblygu Cynaliadwy wedi'u hystyried yn ystod camau casglu tystiolaeth a datblygu'r rhaglen. Maent hefyd yn ofynion allweddol o ran datblygu'r prosiectau gweithredu.

Mae'r Gyfarwydddeb Fframwaith Gwastraff yn disgrifio sut y gall Aelod-wladwriaethau fynd i'r afael ag ailddefnyddio a thrwsio (eitem 11) ac ymestyn cyfrifoldeb cynhyrchwyr (erthygl 8) i gyflawni atal gwastraff. Eir i'r afael â'r rhain yn y rhaglen fel a ganlyn:

- Bydd cyfres o brosiectau cyflawni gan gwmpasu ailddefnyddio, atgyweirio a pharatoi ar gyfer ailddefnyddio'n cael eu datblygu fel prosiectau gweithredu i'r rhaglen hon. (Nid yw paratoi ar gyfer ailddefnyddio yn weithgarwch atal gwastraff, ond ceir gorgyffwrdd sylweddol o ran cyflawni ailddefnyddio uniongyrchol a pharatoi ar gyfer gweithgarwch ailddefnyddio, ac mae'r manteision amgylcheddol yn debyg. Felly maent wedi'u hystyried gyda'i gilydd at ddibenion y prosiect gweithredu).
- Archwilir cyfrifoldeb estynedig gwirfoddol y cynhyrchydd lle y bo'n briodol i ddechrau, yn enwedig mewn trafodaethau gyda manwerthwyr yng

Nghymru. Nid oes bwriad i ystyried cyfrifoldeb estynedig gorfodol y cynhyrchydd yn y tymor byr tan i effaith mesurau gwirfoddol gael ei harchwilio.

Ffigur 2 Cynnwys y Rhaglen Atal Gwastraff a phrosiectau gweithredu a'r berthynas rhyngddynt



Mae'r Gyfarwydddeb Fframwaith Gwastraff yn cynnwys diffiniadau a ddefnyddir gan yr holl Aelod-wladwriaethau i sicrhau cysondeb o ran dealltwriaeth. Mae'r diffiniadau canlynol yn berthnasol i'r rhaglen hon.

Gwastraff: “mae gwastraff yn golygu unrhyw sylwedd neu wrthrych y mae'r deiliad yn ei waredu, yn bwriadu ei waredu neu y mae'n ofynnol iddo ei waredu”.

Atal: “mae atal yn golygu mesurau a gymerir cyn i sylwedd, deunydd neu gynnyrch fynd yn wastraff, sy'n lleihau:

- (a) swm y gwastraff, gan gynnwys drwy ailddefnyddio cynnyrch neu ymestyn hyd oes cynnyrch.
- (b) effeithiau andwyol y gwastraff a gynhyrchir ar yr amgylchedd ac ar iechyd pobl; neu.
- (c) y sylweddau niweidiol mewn deunyddiau a chynnyrch”.

Ailddefnyddio: “mae ailddefnyddio'n golygu unrhyw weithrediad lle mae cynnyrch neu gydrannau nad ydynt yn wastraff yn cael eu defnyddio eto at yr un diben y cawsant eu creu ar ei gyfer”.

Paratoi ar gyfer Ailddefnyddio: mae “paratoi ar gyfer ailddefnyddio” yn golygu gweithrediadau adfer i wirio, glanhau neu drwsio, lle mae cynnyrch neu gydrannau cynnyrch sydd wedi mynd yn wastraff yn cael eu paratoi er mwyn iddynt allu cael eu hailddefnyddio heb unrhyw ragbrosesu arall.

1.4 Fframwaith y Polisi

Mae Strategaethau a Mentrau canlynol yr UE yn berthnasol i'r rhaglen hon; fe'u disgrifir yn Atodiad C.

- Strategaeth Datblygu Cynaliadwy yr UE.
- Y Strategaeth Thematig ar Atal Gwastraff ac Ailgylchu.
- Y Seithfed Rhaglen Gweithredu Amgylcheddol (7EAP).
- Cynllun Gweithredu ar Bolisi Diwydiannol Cynaliadwy – Defnyddio a Chynhyrchu Cynaliadwy.
- Rhaglen Mapio ar gyfer Ewrop sy'n Effeithlon o ran Adnoddau.
- Marchnad Sengl ar gyfer y Fenter Cynnyrch Gwyrdd.
- Ecolabel yr UE.
- Mae Cofrestru, Gwerthuso, ac Awdurdodi Cemegion a Chyfyngu arnynt (REACH) – lle bydd gan gynnyrch yn y dyfodol lai o ddeunyddiau peryglus ynddynt – yn ysgogydd allweddol i leihau gwastraff peryglus o gartrefi o'r cychwyn.


Y Gyfarwydddeb Fframwaith Gwastraff

Mae'r Gyfarwydddeb Fframwaith Gwastraff yn darparu fframwaith cyfreithiol i holl ddeddfwriaeth gwastraff yr UE. Fe'i sefydlwyd ym 1975, ac mae wedi'i diweddarau'n rheolaidd gyda'r diwygiad diweddaraf yn 2008, gan geisio lleoli'r UE fel 'cymdeithas ailgylchu' gyda nodau eang "i osgoi cynhyrchu gwastraff a defnyddio gwastraff fel adnodd"³.

Mae Erthygl 4 y Gyfarwydddeb Fframwaith Gwastraff yn cyflwyno'r hierarchaeth gwastraff, fel y dangosir yn Ffigur 3, sy'n rhestru opsiynau rheoli gwastraff yn nhrefn eu heffaith amgylcheddol. Mae atal gwastraff ar frig yr hierarchaeth ac mae'n cynrychioli'r defnydd mwyaf effeithlon a chynaliadwy o adnoddau. Mae gan aildefnyddio, lle y bydd cynnyrch yn cael ei ddefnyddio eto at yr un diben ag y cafodd ei greu ar ei gyfer yn wreiddiol, rôl bwysig i'w chwarae am ei fod yn cadw cynnyrch yn yr economi gynhyrchiol am gyfnod hwy.

3 Erthygl 28, y Gyfarwydddeb Fframwaith Gwastraff 2008, Senedd Ewrop

Ffigur 3 Hierarchaeth Gwastraff yr UE



Ffynhonnell: Y Comisiwn Ewropeaidd [Cyfarwyddiaeth Gyffredinol yr Amgylchedd]

Mae'r gofynion allweddol canlynol i Aelod-wladwriaethau mewn perthynas ag atal gwastraff wedi'u disgrifio yn Erthyglau 11 a 29 i 33 y Gyfarwydddeb Fframwaith Gwastraff ac fe'u cwmpesir gan y rhaglen waith hon:

- Sefydlu rhaglenni atal gwastraff erbyn 12 Rhagfyr 2013.
- Nodi amcanion atal gwastraff.
- Disgrifio mesurau atal gwastraff presennol.
- Gwerthuso defnyddioldeb yr enghreifftiau o fesurau a nodir yn Atodiad IV neu fesurau priodol eraill.
- Penderfynu ar feincnodau ansoddol neu feintiol penodol priodol ar gyfer mesurau atal gwastraff.
- Cymryd camau, fel y bo'n briodol, i hyrwyddo ailddefnyddio cynnyrch a pharatoi ar gyfer gweithgarwch ailddefnyddio.
- Cynnwys rhanddeiliaid ac awdurdodau perthnasol a'r cyhoedd wrth ddatblygu'r rhaglenni atal gwastraff, a rhoi mynediad iddynt ar ôl eu datblygu.
- Hysbysu'r Comisiwn Ewropeaidd am y rhaglen, ar ôl ei mabwysiadu, ac am unrhyw ddiwygiadau sylweddol i'r rhaglen.
- Adolygu (a diwygio yn ôl yr angen) rhaglenni atal gwastraff o leiaf bob chwe blynedd.

Mae'r Comisiwn Ewropeaidd yn bwriadu cyflwyno adroddiad ar atal gwastraff erbyn diwedd 2014. Bydd yn cynnig mesurau, os ydynt yn briodol, gan gynnwys atal gwastraff ac amcanion o ran datgysylltu. Bydd angen i'r rhain gael eu cyflawni erbyn 2020. Bydd diwygiadau i'r rhaglen hon yn y dyfodol yn ystyried unrhyw ddatblygiadau yn Ewrop yn y dyfodol.

1.5 Esblygiad y rhaglen hon

Mae'r ymgynghoriad hwn wedi cael ei ddatblygu drwy:

Asesu'r sefyllfa bresennol, ac egluro'r mater

Defnyddiwyd data a gwybodaeth am gynhyrchu gwastraff, sectorau busnes a'u gweithgareddau, ystadegau economaidd a demograffig i asesu'r sefyllfa bresennol yng Nghymru o ran y gwastraff rydym yn ei gynhyrchu a'r rhesymau dros ei gynhyrchu.

Gwerthuso mesurau polisi amrywiol

Comisiynodd Llywodraeth Cymru rywfaint o waith i werthuso mesurau amrywiol y gellir eu defnyddio i fynd i'r afael â'r rhwystrau i atal gwastraff.

Defnyddio profiad eraill

Mae grŵp llywio wedi bwydo ei arbenigedd i ddatblygiad yr ymgynghoriad hwn a bydd yn parhau i wneud hynny hyd at y rhaglen waith derfynol. Rydym hefyd wedi defnyddio safbwyntiau a barn a gafwyd yn ystod yr ymgynghoriad ar gynlluniau sector. Bwriadwn ddefnyddio'r ymgynghoriad cyhoeddus hwn, ynghyd â gweithdai pwrpasol i randdeiliaid, er mwyn cyfeirio ein rhaglen derfynol.

Cynnal Arfarniad o Gynaliadwyedd

Rydym wedi ymrwmo i gynnal Arfarniad o Gynaliadwyedd ar ein cynlluniau gwastraff a'n rhaglen. Mae hyn wedi'i gynnal yn annibynnol ar ein rhan gyda'r nod o dynnu sylw at unrhyw effeithiau penodol sy'n gysylltiedig â'r mesurau rydym yn eu cynnig, ac i awgrymu ffyrdd o gyfyngu ar unrhyw effeithiau andwyol.

Cynnal Ymgynghoriad Cyhoeddus

Cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus 12 wythnos rhwng 28 Mawrth a 20 Mehefin 2013. Disgrifiwyd ein blaenoriaethau ar gyfer gweithredu ac amlinellwyd ein cynigion ar gyfer mynd i'r afael ag atal gwastraff. Cyhoeddwyd yr ymgynghoriad ar wefan gyhoeddus Llywodraeth Cymru a gwahoddwyd sylwadau gan unrhyw barti â diddordeb.

Cynnal Gweithdai Ymgysylltu â Busnes

Cynhaliwyd cyfres o weithdai ymgysylltu ar y cyd â'r ymgynghoriad cyhoeddus. Rhoddodd y rhain gyfle i fusnesau roi ein barn i ni ar weithredu ein cynigion yn effeithiol, a bydd eu sylwadau'n helpu i lywio'r gwaith o gyflawni ein prosiectau gweithredu.

Ymateb i sylwadau a chwblhau'r rhaglen

Ystyriwyd yr holl ymatebion i'r ymgynghoriad wrth baratoi'r rhaglen hon. Rydym wedi cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion a Datganiad Ôl-fabwysiadu ar gyfer yr Arfarniad o Gynaliadwyedd ochr yn ochr â'r ddogfen rhaglen hon.

1.6 Fframwaith cysyniadol

Mae model newid ymddygiad y '4E' yn cael ei ddatblygu, i sicrhau bod y canlyniadau'n gyson ag ymrwymiad Llywodraeth Cymru i ddatblygu cynaliadwy, fel y dangosir yn Ffigur 4. Pan y'i cymhwysir i atal gwastraff, gellir disgrifio'r model 4E fel a ganlyn:


Cynnwys – mesurau i gynnwys cartrefi/defnyddwyr yn uniongyrchol mewn newidiadau ymddygiad gwirfoddol, er enghraifft drwy raglenni cyfathrebu neu weithgarwch i ymgysylltu â'r gymuned. Mewn busnes, gall mesurau gynnwys: addysgu'r gweithlu drwy drafodaethau a sesiynau ymwybyddiaeth a chynnwys rhanddeiliaid yn y gadwyn gyflenwi i alluogi gwneud penderfyniadau mwy craff o ran cynnyrch.

Galluogi – mesurau a gweithgarwch gan randdeiliaid, sy'n darparu gwasanaethau sy'n helpu defnyddwyr i atal neu leihau gwastraff. Yn arbennig, mae hyn yn golygu cynhyrchwyr, manwerthwyr, sefydliadau trwsio ac ailddefnyddio o'r trydydd sector, y sector cyhoeddus a'r sector preifat. Mae hyn yn cynnwys cyflunio gwasanaethau gwastraff a ddarperir yn uniongyrchol i'r cyhoedd. Mae hefyd yn cynnwys defnyddio syniadau arloesol cynaliadwy o ran defnydd a chynhyrchu (megis gwydnwch cynnyrch), yn ogystal ag isadeileddau i alluogi cynnyrch i gael ail fywyd neu fywyd hir. Ar gyfer busnesau, gall y gweithgarwch olygu: ei gwneud yn ofynnol i ddylunwyr nodi cyfleoedd i atal gwastraff drwy ddylunio cynnyrch/prosiectau, ymyriadau i leihau aneffeithlonrwydd gweithredol megis dosbarthu i safleoedd mewn amser addas i leihau niwed a gwastraff o ran deunyddiau adeiladwaith.

Annog – yn gyffredinol mesurau a chymhellion polisi, a gweithgarwch awdurdodau lleol. Mae hyn yn cynnwys mentrau ariannol a mentrau eraill i leihau gwastraff yn y cartref, neu newid defnydd i gynnyrch ag ôl troed ecolegol is. Ar gyfer busnesau gall hyn olygu cydnabod a chymeradwyo llwyddiant megis rhoi gwybod am gyflawniad yn erbyn targedau lleihau gwastraff yn ystod adolygiadau chwarterol a rhannu arfer da rhwng crefftau.

Enghreifftio – monitro effeithiau a rhannu arfer gorau, gan gynnwys prosiectau arddangos ac arwain drwy esiamp. Mae caffael ac arfer llywodraeth wedi'i gynnwys yma. Gall busnesau gynnal adolygiadau ar ôl cwblhau ar brosiectau i nodi meysydd ar gyfer gwella a rhesymau dros gynhyrchu gwastraff yn ystod oes y prosiect, a rhannu arfer gorau ar draws cadwyni cyflenwi.

Ffigur 4 Y model 4E



Ffynhonnell: Ymgynghoriad ar y cynigion ar gyfer y Bil Datblygu Cynaliadwy, Llywodraeth Cymru (2012)

2 Gwastraff o gartrefi


Mae'r adran hon yn disgrifio swm a math y gwastraff o gartrefi a gynhyrchir yng Nghymru, a'r polisiâu a'r targedau sydd yn eu lle i fynd i'r afael ag ef. Yna mae'n disgrifio'r rhaglen waith amlinellol arfaethedig. Mae'n esbonio sut y mae'r rhaglen yn cael ei datblygu ac i gloi mae'n amlinellu'r dangosyddion arfaethedig, y monitro a'r broses o gyflwyno adroddiadau ar gynnydd.

2.1 Asesu'r sefyllfa

2.1.1 Symiau a mathau o wastraff o gartrefi

Yn 2011/12, cynhyrchwyd 1.36 miliwn tonnelli o wastraff o gartrefi. Nodir amcangyfrif o'i gyfansoddiad ⁴ yn Ffigur 5 isod:

Ffigur 5: Cyfansoddiad gwastraff o gartrefi yng Nghymru



Ffynhonnell data: Llif Data Gwastraff a Chyfansoddiad Gwastraff Trefol yng Nghymru. WRAP (2010)

⁴ Amcangyfrifir y cyfansoddiad o ddadansoddiad ffisegol o wastraff gweddillol a gynhaliwyd yn 2009 a data ar wastraff wedi'i ailgylchu a nodwyd ar WasteDataFlow. Mae arall/amrywiol yn cynnwys deunyddiau cymysg yn ogystal ag eitemau eraill sy'n codi mewn symiau bach. Mae organig arall yn cynnwys bwyd cymysg a gwastraff gardd a deunyddiau organig eraill. WEEE = Cyfarpar Trydanol ac Electronig Gwastraff.

Mae bron 40 y cant o'r gwastraff cyffredinol o gartrefi yn wastraff bwyd a gwastraff papur a cherdyn; mae'r ffracsiynau hyn yn cyfrannu dros hanner miliwn o dunelli. Mae gwastraff bwyd a phapur wedi'u nodi gan y Comisiwn Ewropeaidd fel deunyddiau blaenoriaeth i atal gwastraff.

Mae'r rhan fwyaf o wastraff bwyd yn cael ei gynhyrchu o ganlyniad i ddefnyddwyr yn prynu bwyd ac yna'n peidio â'i ddefnyddio, gyda swm llai o lawer yn cael ei gynhyrchu o fwyd a goginir neu a baratoir ond heb ei fwyta. Yn bennaf, mae'r math o fwyd sy'n cael ei waredu yn fwyd sy'n dal yn ei ddeunydd pacio, ffrwythau a llysiau amrwd a chig a physgod amrwd.

Mae deunydd pacio bwyd o bapur a cherdyn, megis bocsys grawnfwyd a chartonau diodydd, hefyd yn cyfrannu'n sylweddol at gyfanswm y papur a'r cherdyn yn y ffrwd wastraff. Mae llawer o'r deunydd pacio hwn yn angenrheidiol i ddiogelu'r bwyd y mae'n ei gynnwys a sicrhau ei fod yn cael ei gludo mewn cyflwr da; mae deunydd pacio hefyd yn cael ei ddefnyddio i ddarparu gwybodaeth am y nwyddau i ddefnyddwyr. Y prif ffynonellau eraill o bapur a cherdyn yw deunydd pacio arall (gan gynnwys o fanwerthwyr archebu drwy'r post), papurau newydd, cylchgronau ac eitemau wedi'u postio.

Mae gwastraff deunydd pacio arall, sy'n cynnwys gwydr, plastig a metel, dillad a thecstilau eraill, a nwyddau traul yn cyfrannu'n sylweddol hefyd.

Defnyddiwyd effaith amgylcheddol⁵ cynnyrch a'u deunyddiau gwastraff canlyniadol i nodi'r gwastraff hwnnw a ddylai fod yn destun yr ymdrechion mwyaf i atal gwastraff. Disgrifiwyd y rhain yn Tuag at Ddyfodol Diwastraff. Ar gyfer gwastraff cartref, dyma'r gwastraff effaith uchel:

- Gwastraff bwyd.
- Plastig (deunydd pacio yw'r rhan fwyaf o hwn).
- Papur (yn bennaf deunydd pacio, papurau newydd a chylchgronau, neu bost).
- Cyfarpar Trydanol ac Electronig Gwastraff (WEEE), tecstilau (dillad ac eitemau nad ydynt yn ddillad), dodrefn/celfi a gwastraff peryglus.
- Cewynnau a gwastraff clinigol (er mai prin yw'r posibilrwydd o leihau'r rhain).

2.1.2 Manteision atal gwastraff

Gallai dinasyddion Cymru elwa ar arbedion ariannol sylweddol drwy gymryd camau i newid arferion prynu a lleihau'r gwastraff a gynhyrchir.

⁵ Effaith Ôl-troed Ecolegol Strategaeth Gwastraff Cymru, Arup (2009). Defnyddiwyd yr Ôl-troed Ecolegol i benderfynu ar y blaenoriaethu hyn, ond byddai olrhain ôl-troed carbon yn cyflawni canlyniadau tebyg.

Ar gyfartaledd, mae gwastraffu bwyd⁶ yn costio £480 y flwyddyn i gartref, gan godi i £680 y flwyddyn i gartrefi â phlant⁷. Pan fyddwn yn edrych ar Gymru gyfan, mae deiliaid tai yn cynhyrchu 400,000⁸ tonnau o wastraff bwyd bob blwyddyn, gyda gwerth ariannol o £600 miliwn y flwyddyn.

Mae gan aelwydydd hefyd gyfleoedd eraill i gael budd ariannol o gyflenwi a phrynu eitemau ail-law. Nododd WRAP⁹ fod llawer o gartrefi yn storio eitemau diangen gartref. Er enghraifft, mae 60 y cant o gartrefi Cymru yn storio dillad ac esgidiau diangen i'w gwaredu neu eu hailddefnyddio yn ddiweddarach, a gallai'r dillad hyn feddu ar werth ailwerthu o dros £9,000 fesul tonnau¹⁰. Mae WRAP hefyd yn amcangyfrif bod cartrefi Cymru yn gwaredu 6,000 tonnau o eitemau trydanol sy'n gweithio, gyda gwerth ailwerthu o bron £15 miliwn¹¹.

2.1.3 Polisiâu a thargedau

Mae'r strategaeth wastraff i Gymru "Tuag at Ddyfodol Diwastraff" yn sefydlu'r amcanion cyffredinol ar gyfer atal gwastraff. Ymhelaethir ymhellach ar hyn yn y Cynllun Sector Trefol (MSP), sy'n disgrifio camau amlinellol i Lywodraeth Cymru, Awdurdodau Lleol a phartïon eraill â diddordeb o ran atal gwastraff.

Mae'r targed atal gwastraff cenedlaethol ar gyfer gwastraff cartref wedi'i bennu fel a ganlyn:

Lleihad o 1.2 y cant bob blwyddyn tan 2050 yn seiliedig ar linell sylfaen 2006/7.

Mae hyn yn gyfwerth â 18,869 tonnau y flwyddyn o wastraff cartref.

2.2 Rhaglen waith

Gellir atal gwastraff cartref ar bwyntiau gwahanol yn y gadwyn gyflenwi. Mae Ffigur 6 yn disgrifio'r rhain ynghyd â'r camau gweithredu ymarferol y gellir eu cymryd a'r actorion allweddol sy'n dylanwadu ar y camau gweithredu hynny.

Yn adran 2, mae'r rhaglen amlinellol ar gyfer gwastraff cartref yn ystyried gweithredoedd 'ochr y galw' o ran dewisiadau prynu, defnydd yn y cartref a gwaredu a chasglu.

Adran 3: Mae gwastraff Diwydiannol a Masnachol yn ystyried 'ochr gyflenwi' camau gweithredu dylunio, gweithgynhyrchu, dosbarthu a manwerthu.

Mae ailddefnyddio yn cael ei ystyried yn adran 5.

6 Mae'r ffigur yma yn cynrychioli'r bwyd a oedd yn dal yn fwytadwy pan gafodd ei daflu i ffwrdd.

7 *The facts about food waste*, WRAP (2012)


8 *Hoffi Bwyd Casáu Gwastraff*, WRAP (2009)

9 *Evaluation of Recycling, Re-use and Repair (3R's) Consumer Behaviours*, WRAP (2012)

10 *Valuing Our Clothes*. WRAP (2012)

11 *Realising the Reuse Value of Household WEEE*. WRAP (2012). Canlyniadau wedi'u haddasu i Gymru yn seiliedig ar boblogaeth.

Ffigur 6 Fframwaith o bwyntiau ymyrryd i atal gwastraff o gartrefi



Ffynhonnell: Brook Lyndhurst (2012)

Dangosir y rhaglen amlinellol a'r amserlen ddangosol ar gyfer camau gweithredu 'ochr y galw' yn nhabl 1.

Tabl 1 Mesurau amlinellol ac amserlen ddangosol ar gyfer y rhaglen

	2013	2014	2015	2016	2017	2018 - 2025	2025 - 2050
Annog - rhaglen i gynnwys defnyddwyr / cartrefi							
Ymgyrchoedd gwastraff bwyd		A					
Ymgyrchoedd lleol sylfaenol		A					
Ymgyrchoedd aildefnyddio	D	D					
Marchnata cymdeithasol yn y gymuned: Ymgyrchoedd defnydd cynaliadwy	D				A		
Gwobrwyon cartref	D	D					
Ymgrych gwastraff peryglus o gartrefi	D	D					

	2013	2014	2015	2016	2017	2018 - 2025	2025 - 2050
Galluogi - gwasanaethau a ddarperir i ddeiliaid tai							
Gwneud y defnydd gorau o ddarparu gwasanaethau i atal gwastraff							

Allwedd

Gweithredu		Adolygu	A
Dichonoldeb	D	Peilot	

2.2.1 Rhaglen cynnwys defnyddwyr a chartrefi

Bydd ymgyrchoedd a rhaglenni defnyddwyr yn cael eu gweithredu yn y tymor byr i gynnig enillion cyflym posibl ac i roi hwb i'r newid diwylliant ehangach a fydd yn ofynnol i gyflawni atal gwastraff.

Mae ymgyrch gyfathrebu well i atal gwastraff yn cael ei datblygu. Bydd yn canolbwyntio ar ddau faes allweddol:

- Gweithgarwch cyfathrebu i roi hwb i newid diwylliant eang sy'n arwain at weld cynnyrch a deunyddiau mewn goleuni newydd – fel adnoddau gwerthfawr ac nid gwastraff. Bydd yr ymgyrch hon yn dynodi'r cyfeiriad teithio cyffredinol, tuag at ddyfodol diwastraff a chymdeithas sy'n defnyddio adnoddau'n effeithlon, a hefyd yn cefnogi swyddi a lles yng Nghymru.
- Bydd 'cynnyrch' yn ganolog o ran llywio'r newid diwylliant hwn. Mae hyn yn cynnwys prynu, defnyddio ac aildddefnyddio nwyddau defnyddwyr, yn ogystal ag atal gwastraff bwyd. Bydd camau gweithredu gwahanol yn briodol ar lefelau gwahanol – bydd rhai yn galw am gamau gweithredu strategol gan Lywodraeth Cymru (a'i phartneriaid), bydd eraill yn cael eu cyflawni'n lleol.

Bydd yr ymgyrch yn canolbwyntio ar y ffyrddau gwaith canlynol i atal gwastraff.

- Bwyd** – gwella ymgyrch bresennol Hoffi Bwyd Casáu Gwastraff i gyd-fynd â negeseuon eraill ar fwyd, megis bwyta'n iach. Hyd yma mae hyn yn golygu:
 - Mae ap symudol Hoffi Bwyd Casáu Gwastraff wedi'i lansio yn Gymraeg a Saesneg.
 - Arddangosiadau coginio mewn 22 o awdurdodau lleol wedi'u cynllunio i rannu negeseuon 'Hoffi Bwyd, Casáu Gwastraff'.
 - Cynnal arddangosiad gan gogyddion mewn digwyddiad i Fyfirwyr y Glas i hyrwyddo sut y gall Hoffi Bwyd Casáu Gwastraff arbed arian drwy fod yn gall gyda'u bwyd dros ben.
 - Cynorthwyo Awdurdodau Lleol i hyrwyddo Hoffi Bwyd Casáu Gwastraff drwy roi pecynnau addewid iddynt i'w dosbarthu ym mhob rhan o'u ALL.

- **Defnyddio yn well – ‘dwlu ar bethau’ (dillad ac esgidiau a chyfarpar electronig).** Ailfeddwl am bryniadau – ystyried cyn prynu, gofal wrth ddefnyddio, a throsglwyddo yn lle taflu i'r bin. Mae gwaith yn y maes hwn yn cynnwys:
 - o Llywodraeth Cymru yn datblygu prosiect peilot yn seiliedig ar y neges “byddwch yn garedig i'ch dillad” i annog pobl i ddefnyddio'u peiriannau golchi ar dymheredd is. Bydd hyn yn fwy effeithlon o ran ynni ac o ganlyniad bydd llai o adnoddau'n cael eu gwastraffu oherwydd bydd dillad yn para'n hirach. Byddwn yn gwerthuso a ellir datblygu'r prosiect hwn fel ei fod hefyd yn cwmparu prynu mwy ystyriol ac ailddefnyddio dillad.
 - o Negeseuon tymhorol e.e. annog pobl i bobi eu danteithion eu hunain i'w rhoi i ffrindiau a theulu dros y Pasg yn hytrach na phrynu wyau Pasg sy'n cynnwys llawer o ddeunydd pacio.
- **Oes hwy i gynnyrch – bwrw iddi.** Cael mwy o werth oes o gynnyrch drwy fuddsoddiadau bach o ran arian ac amser. Mae hyn yn cynnwys:
 - o Hyrwyddo'r defnydd a'r ddealltwriaeth o ecolabeli.
 - o Darparu gwybodaeth am ddeunydd pacio angenrheidiol i'r cyhoedd, sy'n atal gwastraff yn uwch i fyny'r gadwyn gyflenwi ac os bydd yn cael ei ddefnyddio'n gywir gartref bydd yn ymestyn oes cynnyrch.
- **Ymgyrchoedd sylfaenol – compostio, cewynnau go iawn a dweud na i bost sothach.** Mae hyn yn cynnwys:
 - o Hyrwyddo lleihau gwastraff drwy hysbysu pobl am sut y gallant leihau post sothach.
 - o Darparu gwybodaeth am sut i gompostio gartref i'r 22 o awdurdodau lleol yng Nghymru er mwyn iddynt ei lledaenu i'w trigolion.
 - o Ymgrych llai manwl, gwybodaeth yn unig am gewynnau go iawn.
- **Ailddefnyddio a thrwsio (gweler adran 5).**
- **Gwastraff peryglus o gartrefi** - datblygu ymgyrch gwastraff peryglus o gartrefi. Mae hyn yn golygu llunio astudiaeth dichonoldeb a threialu'r argymhellion cyn sefydlu ymgyrch genedlaethol. Mae'r ymgyrch yn debygol o ganolbwyntio ar:
 - o Dewisiadau prynu - Hyrwyddo dewisiadau eraill y gallir eu hailddefnyddio e.e. batris. Annog newid ymddygiad o ran prynu dewis y gallir ei ailddefnyddio.
 - o Dewisiadau prynu - Ymwybyddiaeth o ddewisiadau amgen llai peryglus e.e. paent seiliedig ar ddŵr yn hytrach na phaent seiliedig ar hydoddyn a hyrwyddo hyn. Annog newid ymddygiad o ran prynu dewis llai peryglus.
 - o Dewisiadau prynu - Cynllunio a phrynu'r hyn sydd ei angen, osgoi prynu gormod o eitemau sydd â nodweddion peryglus.
 - o Defnyddio cynnyrch - Defnyddio'r holl gynnyrch (wedi'i gysylltu'n gryf â chynllunio prynu).

- o Gwaredu cynnyrch - Cael gwared ar unrhyw wastraff peryglus o gartrefi yn gywir, arweiniad, ymwybyddiaeth a newid ymddygiad. Darganfod a oes unrhyw gyfleoedd i weithio gyda Dŵr Cymru ar addysgu'r cyhoedd ar waredu gwastraff peryglus o gartrefi yn ddiogel (er enghraifft gallai eu hymgyrch 'Stop Cyn Creu Bloc' <http://www.dwrcymru.com/cy-GB/My-Wastewater/Lets-Stop-the-Block.aspx> sy'n canolbwyntio ar frasterau, olewau a saim gael ei hehangu i gwmpasu gwaredu gwastraff peryglus o gartrefi yn ddiogel). Hyrwyddo dewisiadau eraill yn lle gwaredu megis prosiectau aildddefnyddio paent yn y gymuned.
- Ochr yn ochr â'r dewisiadau atal gwastraff hyn bwriedir cyflwyno rhaglen Marchnata Cymdeithasol yn y Gymuned i ategu prosiectau atal gwastraff lleol a phrosiectau ymddygiad ailgylchu. Mae marchnata cymdeithasol yn y gymuned yn ddewis arall i ymgyrchoedd sy'n ddwys o ran gwybodaeth. Dangoswyd ei fod yn effeithiol o ran sicrhau newid ymddygiad. Mae'r ymagwedd hon yn cynnwys nodi rhwystrau i ymddygiad cynaliadwy, dylunio strategaeth sy'n defnyddio dulliau newid ymddygiad, treialu'r strategaeth gyda rhan fach o gymuned, ac yn olaf gwerthuso effaith rhaglen ar ôl iddi gael ei gweithredu ar draws cymuned. Mae Llywodraeth Cymru yn ystyried datblygu prosiect tebyg i Marchnata Cymdeithasol yn y Gymuned drwy weithio gyda manwerthwyr i hybu dewisiadau siopa mwy cynaliadwy.

Archwilir ymhellach i gymhellion ariannol i gartrefi yn y tymor canolig, yn enwedig o ran gwobrwyon. Ymhlith yr opsiynau gellid cael ymyriadau tynnu i ddenu pobl i newid. Er enghraifft gellid cynnwys dysgu o gynlluniau peilot Defra i wobrwyo a chydabod cynlluniau yn Lloegr, a fydd yn cyflwyno adroddiad yn 2013/14, ac adeiladu ar y cynlluniau hyn.

Nid oes unrhyw gynlluniau i gyflwyno taliadau newydd i gasglu gwastraff cartref wrth i'r cynnydd diweddar ar ailgylchu gael ei gynnal. Yn yr un modd, nid oes cynlluniau i gyflwyno taliadau i annog atal gwastraff wrth i'r cynnydd barhau yn y maes hwn.

Roedd Cynllun Gweithredu Cyntaf Strategaeth Amgylcheddol 2006 wedi ymrwymo Llywodraeth Cymru i bennu cwmpas dymunoldeb ac ymarferoldeb codi tâl am gasglu a rheoli mathau eraill o wastraff cartref na all Awdurdodau Lleol godi tâl amdanynt ar hyn o bryd, yn enwedig y gyfran weddilliol. Gwnaed y gwaith cwmpasu hwn a chyhoeddwyd y canlyniadau fel rhan o'r dystiolaeth a ategodd ddatblygu'r ymgynghoriad drafft o Tuag at Ddyfodol Diwastraff. Mae gan Awdurdodau Lleol bwerau eisoes o dan Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990 a'r Rheoliadau Gwastraff a Reolir 1992, i godi tâl am gasglu gwastraff swmpus a gwastraff gardd o gartrefi, a chasglu a rheoli gwastraff o eiddo masnachol.

Ein nod yw creu cymdeithas ailgylchu wirioneddol gynhwysfawr lle gall pawb ailgylchu lle bynnag y maent – gartref, yn y gwaith, wrth hamddena neu ar hyd y lle. Hyd yma, mae'r cyhoedd wedi ymateb yn wych, gan gyflawni'r targedau ailgylchu gwastraff trefol o 52 y cant ar gyfer 2003-04, 2006-07, 2009-10 a 2012-13. Hefyd, mae lefelau gwastraff o gartrefi wedi lleihau dros y

blynyddoedd diwethaf, hyd yn oed cyn ystyried effeithiau'r dirwasgiad. Tra bo'r cynnydd hwn yn cael ei gynnal nid oes angen dechrau codi ffioedd.

2.2.2 Gwasanaethau a ddarperir i gartrefi

Mae'r Rhaglen Newid Gydweithredol yn rhoi cyfle i bob awdurdod lleol yng Nghymru gael budd o gymorth ychwanegol i ddatblygu a chyflawni cynllun busnes manwl ar gyfer eu gwasanaethau casglu gwastraff. Mae'r cynlluniau hyn yn nodi sut y bydd pob awdurdod yn cyflawni amcanion a chanlyniadau Tuag at Ddyfodol Diwastraff a gofynion y Gyfarwydddeb Fframwaith Gwastraff. Nid oes a wnelo'r ymagwedd hon â'r ffordd y bydd awdurdodau'n cyflawni'r targedau uwch ac ailgylchu o safon yn unig. Mae hefyd yn ategu'r broses weithredol o rannu syniadau da ac arferion gan arwain at well effeithlonrwydd o ran lleihau costau a pherfformiad. Bydd hefyd yn cynorthwyo awdurdodau lleol i symud tuag at wasanaethau rheoli gwastraff mwy cynaliadwy, gan gynnwys chwarae eu rhan i helpu i gyflawni targedau atal gwastraff a pharatoi i aildddefnyddio.

Mae gan awdurdodau lleol hefyd rôl i'w chwarae o ran lleihau effaith gwastraff peryglus cartrefi drwy sicrhau bod gan bob safle amwynder dinesig gyfleusterau derbyn ar gyfer eitemau megis olew mwynol a phlaladdwyr.

2.3 Monitro Cynnydd

2.3.1 Cynnydd yn erbyn y targed cenedlaethol

Mae'r targed atal gwastraff yn lleihad absoliwt o 1.2 y cant o linell sylfaen 2007 bob blwyddyn tan 2050.

Mae data ar gyfer y targed hwn yn cael eu cofnodi gan awdurdodau lleol ar y system adrodd WasteDataFlow¹². Bydd cynnydd yn erbyn y targed yn cael ei gofnodi'n flynyddol drwy'r adroddiad monitro blynyddol a gyhoeddir – mae hwn yn adroddiad cynnydd yn erbyn Tuag at Ddyfodol Diwastraff a chynlluniau a rhaglenni cysylltiedig y sector.


2.3.2 Dangosyddion cynnydd strategol

Cynigir y dangosyddion canlynol, a ddefnyddir i fonitro cynnydd yn strategol, gan gynnwys monitro yn erbyn yr amcan o ddatgysylltu cynhyrchu gwastraff oddi wrth dwf economaidd. Maent wedi'u dewis am eu bod yn ddangosyddion da ac mae'r data yn hawdd i'w coladu'n rheolaidd.

- Gwastraff cartref a gynhyrchir fesul uned o wariant cartref.
- Gwastraff a gynhyrchir fesul cartref.

¹² <http://www.wastedataflow.org/>

Ffigur 7 Newidiadau i Wastraff Cartrefi a Gwariant Cartrefi yng Nghymru



Ffynhonnell data: Llif Data Gwastraff a'r Swyddfa Ystadegau Gwladol

2.3.3 Monitro cynnydd prosiectau gweithredu

Mae newid i'r ddarpariaeth gwasanaethau, gan gynnwys cyfathrebu cysylltiedig, yn cael ei gyflawni drwy'r Rhaglen Newid Gydweithredol. Mae'r Rhaglen Newid Gydweithredol yn cwmpasu amrywiaeth eang o weithgarwch gan gynnwys atal gwastraff, ailddefnyddio ac ailgylchu. Bydd prosiectau unigol sy'n ymwneud ag atal ac ailddefnyddio gwastraff yn cael eu monitro a'u gwerthuso ar wahân drwy'r rhaglen.

Mae'r ymgyrch cynnwys i atal ac ailddefnyddio gwastraff yn cael ei chyflawni drwy'r Ymgyrch Cyfathrebu Gwastraff. Mae'r Ymgyrch Cyfathrebu Gwastraff yn cwmpasu amrywiaeth eang o weithgarwch gan gynnwys atal gwastraff, ailddefnyddio ac ailgylchu a sicrhau bod y gymuned yn defnyddio cyfleusterau trin gweddilliol. Bydd prosiectau unigol sy'n ymwneud ag atal ac ailddefnyddio gwastraff yn cael eu monitro a'u gwerthuso ar wahân drwy raglen yr ymgyrch.

Mae trefniadau hefyd yn eu lle i ddatblygu targedau a dangosyddion addas i brosiectau eraill a ddatblygwyd yn ystod cam gweithredu'r rhaglen hon fel y bo'n briodol.

Byddwn yn cyflwyno adroddiad ar ganlyniadau lefel uchel o'r rhaglen hon yn adroddiad cynnydd blynyddol Tuag at Ddyfodol Diwastraff.

3 Sectorau Diwydiannol a Masnachol

Mae'r adran hon yn disgrifio swm a math y gwastraff diwydiannol a masnachol a gynhyrchir yng Nghymru, a manteision atal gwastraff i fusnesau. Yna mae'n disgrifio'r targedau sy'n berthnasol i'r sector hwn, mesurau cymorth busnes presennol, ein sectorau â blaenoriaeth a meysydd ar gyfer gweithredu a rhaglen waith amlinellol, a sut y bydd yn cael ei monitro. Mae'r rhaglen waith amlinellol yn cynnwys camau gweithredu y gall busnesau eu cymryd i ddylanwadu ar y gwastraff cartref a gynhyrchir.

3.1 Asesu'r sefyllfa

3.1.1 Symiau a mathau o wastraff diwydiannol a masnachol

Defnyddiwyd tua 3.6 miliwn tonnell o wastraff diwydiannol a masnachol yn 2007 (dyddiad arolwg gwastraff diwydiannol a masnachol diwethaf Cymru). Cynhyrchwyd 1.9 miliwn tonnell gan ddiwydiant a 1.7 miliwn tonnell gan fasnach.

Defnyddiwyd effaith amgylcheddol¹³ cynnyrch a'u deunyddiau gwastraff canlyniadol i nodi'r gwastraff hwnnw a ddylai fod yn destun yr ymdrechion mwyaf i atal gwastraff. O safbwynt gwastraff diwydiannol a masnachol, dyma'r gwastraff effaith uchel:

- Bwyd a deunydd pydradwy.
- Papur a cherdyn.
- Gwastraff cemegol.

Yn ogystal â'r deunyddiau hyn, mae gwerth ariannol cynhenid ynghlwm wrth gynhyrchu rhai cynnyrch. Maent hefyd yn cael effaith wreiddio uchel fesul uned, ac mae rhai hefyd yn cynnwys deunyddiau sydd o dan bwysau cyflenwi yn sgîl prinder neu ddiogelwch cyflenwad. Dyma'r cynnyrch:

- Dillad a thecstilau nad ydynt yn ddillad.
- Cyfarpar trydanol ac electronig.
- Dodrefn/Celfi.


¹³ Effaith Ôl-troed Ecolegol Strategaeth Gwastraff Cymru, Arup (2009). Defnyddiwyd yr Ôl-troed Ecolegol i benderfynu ar y blaenoriaethu hyn, ond byddai olrhain ôl-troed carbon yn cyflawni canlyniadau tebyg.

Gwastraff diwydiannol

Mae gwastraff mwynau, gwastraff anifeiliaid a llysiau, gwastraff nad yw'n fetel¹⁴ a gwastraff metel yn cyfrif am 78 y cant o'r gwastraff sy'n deillio o sectorau diwydiannol (Ffigur 8). Mae'r rhan fwyaf o'r gwastraff yn deillio fel ffracsiynau ar wahân, gyda 14 y cant yn unig yn deillio fel gwastraff cymysg.

Mae math a swm y gwastraff diwydiannol a gynhyrchir yng Nghymru yn amrywiol iawn ac yn cael ei ddylanwadu'n drwm gan y math o sector dan sylw.

Ffigur 8: Cyfansoddiad gwastraff diwydiannol a gynhyrchwyd yng Nghymru (2007)




Ffynhonnell: Arolwg Gwastraff Diwydiannol a Masnachol yng Nghymru 2007, Asiantaeth yr Amgylchedd

¹⁴ Mae gwastraff nad yw'n fetel yn cynnwys gwydr, plastig, papur a chardbord, tecstilau, rwber, pren a gwastraff sy'n cynnwys PCBs.

Gwastraff masnachol

Roedd 51 y cant o'r gwastraff a ddeilliodd o fasnach yn 2007 yn wastraff cymysg, sy'n cynnwys adnoddau gwerthfawr y gellir eu hailgylchu. Roedd 33 y cant o'r gwastraff yn wastraff nad yw'n fetel, gyda'r 15 y cant arall yn cynnwys symiau bach o'r holl fathau eraill o wastraff. Dangosir cyfansoddiad y mathau o wastraff a gynhyrchir gan sectorau busnes masnachol yng Nghymru yn Ffigur 9.

Ffigur 9: Cyfansoddiad gwastraff masnachol a gynhyrchwyd yng Nghymru (2007)



Ffynhonnell: Arolwg Gwastraff Diwydiannol a Masnachol yng Nghymru 2007, Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru (2009)

Disgrifir effaith gweithgarwch economaidd a busnes ar gynhyrchu gwastraff, a gweithgarwch economaidd diweddar yng Nghymru, yn Atodiad A.

3.1.2 Manteision atal gwastraff

Mae manteision llawn atal gwastraff yn aml yn enfawr, yn seiliedig ar arbed y buddsoddiad cynhenid mewn costau deunyddiau crai, llafur, cynhyrchu a dosbarthu sy'n ofynnol i sicrhau bod cynnyrch yn cyrraedd y pwynt yn y gadwyn gyflenwi lle gwneir y penderfyniad i beidio â'i werthu ond yn hytrach ei drin fel gwastraff. Mae gwastraff yn aml yn cael ei weld fel cost cymharol fach a dibwys i fusnesau oherwydd ystyrir y gost uniongyrchol am reoli/gwaredu gwastraff yn unig ac nid y ffactorau cynhenid eraill hyn, sy'n filoedd o bunnoedd fesul tunnell.

Rhoddodd WRAP yr amcangyfrifon cost canlynol i Lywodraeth Cymru o ran arbedion i fusnesau yn y gadwyn gyflenwi, ac i fanwerthwyr, drwy osgoi gwastraff am ddetholiad o gynnyrch (gweler Tabl 2).

Tabl 2 Arbedion Cost atal gwastraff am amrywiaeth o fathau o gynnyrch

Math o Gynnyrch	Arbedion cost atal gwastraff (£ / tunnell)	
	Cadwyn Gyflenwi	Manwerthwr
Bwyd	1,200	2,727
Cynnyrch Trydanol ac Electronig	4,800 – 7,100	11,000 – 13,000
Dodrefn	2,900	5,000
Dillad	-	27,000

Ffynhonnell: WRAP

Mae'r canlynol yn grynodedb o adolygiad o'r dystiolaeth ar atal gwastraff busnes, a gyhoeddwyd yn Waste Management & Research¹⁵.

Nododd adroddiad a gyhoeddwyd gan WRAP yn 2010 ar bosibilrwydd arbed deunyddiau drwy effeithlonrwydd adnoddau¹⁶ gyfleoedd amrywiol ar gyfer arbedion effeithlonrwydd adnoddau dim cost a chost isel. Defnyddiwyd hyn i nodi cyfanswm y budd ariannol i fusnesau'r DU yn sgîl effeithlonrwydd anoddau yw £23 biliwn y flwyddyn; mae £17 biliwn o ganlyniad i atal gwastraff, gydag £1 biliwn o ganlyniad i ailgylchu a dargyfeirio o safleoedd tirlenwi¹⁷. Mae dadansoddi pellach yn dangos y gellid priodoli 70 y cant o'r arbedion gwastraff tymor byrrach hyn i lai o fewnbynnu deunyddiau i brosesau cynhyrchu a thrwy ddylunio cynnyrch ysgafnach a mwy darbodus. Er y daw 80 y cant o bedwar sector diwydiannol yn unig - cemegion a mwynau nad ydynt yn fetelaidd, gweithgynhyrchu metel, pŵer a chyfleustodau, ac adeiladu. Roedd arbedion tymor hwy wedi cynyddu cyfanswm yr arbedion i £55 biliwn y flwyddyn, yr oedd £40 biliwn ohono o ganlyniad i wastraff. Mae'r buddsoddiadau tymor hwy hyn yn ddrutach, ond gall y manteision fod gryn dipyn yn fwy na'r buddsoddiad sy'n ofynnol.

Mae sawl adroddiad o bwys ar fanteision byd-eang effeithlonrwydd adnoddau neu 'economi gylchol' wedi'u cyhoeddi'n ddiweddar¹⁸, gydag amcangyfrifon o arbediad byd-eang o \$3 triliwn neu fwy erbyn 2030¹⁹ ac arbedion o \$600 biliwn y flwyddyn ar draws yr UE erbyn 2025²⁰.

15 *Business Waste Prevention: a review of the evidence*. Wilson et al (2012). Waste Management & Research.

16 *Securing the Future: The Role of Resource Efficiency*. WRAP (2010)

17 *The Further Business Benefits of Resource Efficiency*, DEFRA (2010)

18 *A Global Redesign. Shaping the Circular Economy*. Preston F (2012). Chatham House briefing paper.

19 *Resource Revolution: meeting the world's energy, materials, food and water needs*. McKinsey (2011).

20 *Towards the Circular Economy -Economic and business rationale for an accelerated transition*. Ellen MacArthur Foundation (2012). www.thecirculareconomy.org

3.1.3 Targedau ar gyfer atal gwastraff

Sefydlodd Tuag at Ddyfodol Diwastraff yr amcanion cyffredinol ar gyfer atal gwastraff a rheoli gwastraff yn gynaliadwy. Mae'n gosod y nod o gyflawni "byw un blaned" erbyn 2050, ac mae'r cyflymder teithio sy'n ofynnol i gyrraedd yno wedi'i nodi drwy dargedau atal gwastraff ac ailgylchu ar gyfer pob ffrwd wastraff. Cynigiwyd y targedau isod yn Tuag at Ddyfodol Diwastraff, ac yn dilyn ymgynghori maent wedi'u mabwysiadu ar gyfer y rhaglen hon fel targedau anstatudol Cymru gyfan.

Y targed ar gyfer gwastraff diwydiannol yw lleihad o 1.4 y cant bob blwyddyn tan 2050 yn seiliedig ar linell sylfaen 2006/7.

Y targed ar gyfer gwastraff masnachol yw lleihad o 1.2 y cant bob blwyddyn tan 2050 yn seiliedig ar linell sylfaen 2006/7.

3.1.4 Cymorth i fusnesau gan Lywodraeth Cymru

Mae Adran yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth yn cynorthwyo busnesau ar effeithlonrwydd adnoddau, materion amgylcheddol ac arferion busnes cynaliadwy. Mae yna hefyd nifer o raglenni a ariennir gan Ewrop sy'n gweithredu yng Nghymru, megis Talebau Arloesedd, ASTUTE, Sefydliad Dylunio Cynaliadwy, a Rhwydwaith WISE. Maent yn cynnig cymorth i fusnesau bach a chanolig ymgorffori effeithlonrwydd adnoddau ac atal gwastraff i'w harferion busnes.

Mae'r Rhaglen Adnewyddu Economaidd yn nodi'r rôl y gall Llywodraeth Cymru ei chwarae o ran darparu'r amodau a'r fframwaith gorau i alluogi'r sector preifat i dyfu a ffynnu.

Mae naw sector allweddol wedi'u nodi ar gyfer cymorth.

- Diwydiannau creadigol.
- Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh).
- Ynni a'r Amgylchedd.
- Deunyddiau a gweithgynhyrchu uwch.
- Gwyddorau Bywyd.
- Gwasanaethau Ariannol a Phroffesiynol.
- Bwyd a Ffermio.
- Adeiladu.
- Twristiaeth.

Mae cwmnïau unigol hefyd wedi'u nodi am eu bod yn economaidd bwysig i'w cymunedau, neu am eu bod yn allweddol i gadwyni cyflenwi yng Nghymru. Maent yn cael eu dosbarthu fel Cwmnïau Angori ac o Bwys Rhanbarthol (RICs).

Swyddi, cyfoeth a thwf yw blaenoriaethau hollbwysig Adran yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth. Mae'r rhain yn cael eu hannog drwy:

- Adeiladu ar y berthynas sydd gan Lywodraeth Cymru â'r gymuned fusnes a'n partneriaid cymdeithasol i greu'r fframwaith a'r amodau hyblyg sydd eu hangen i gwmnïau a busnesau ffynnu a thyfu;
- Cynorthwyo cwmnïau sy'n perfformio'n uchel, o safon yn y rhannau hynny o'r economi a all greu cyflogaeth, cyfoeth a Chymru gynaliadwy;
- Disgwyl i unrhyw fusnes sy'n ceisio cymorth gan Lywodraeth Cymru, gan gynnwys contractau caffael cyhoeddus, ymrwymo i'n hegwyddorion o gyfrifoldeb cymdeithasol corfforaethol, gydag ymrwymiad i ddatblygu cynaliadwy, hyfforddiant ac arferion cyflogaeth da;
- Creu cysylltiadau cryf gyda'n cwmnïau o bwys rhanbarthol a'n cwmnïau angori a datblygu perthnasoedd strategol, cyd-gynhaliol gyda'r cwmnïau allweddol hyn, gan eu hymgorffori yn economi Cymru drwy ddatblygu cysylltiadau agos gyda'n sefydliadau addysg bellach ac uwch a sicrhau cymaint o gyfleoedd â phosibl o ran cyflenwi.

Mae Adran yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth yn darparu'r gwasanaethau canlynol i helpu busnesau:

- Gwasanaeth Busnes Cymru (bydd rhwydwaith o un ar ddeg o swyddfeydd ledled y wlad yn cael eu darparu drwy gonsortïwm sy'n cynnwys Busnes mewn Ffocws, Centre for Business, Antur Teifi a Menter a Busnes).
- Ardaloedd Menter Cymru.
- Cronfa Twf Economaidd Cymru.
- Cymorth i ddechrau busnes.
- Mentora busnes, cyngor ac arweiniad drwy'r Siop Un Stop (mentora busnes a gwefan Busnes Cymru).
- Entrepreneuriaeth a busnes cyfrifol - rhaglen Cyfrifoldeb Cymdeithasol Corfforaethol gyda Chwmnïau Angori a Chwmnïau o Bwys Rhanbarthol (a nodwyd drwy'r rhaglen adnewyddu).
- Rhaglen Arloesi ar gyfer Busnes.
- Academia ar gyfer Busnes (A4B).
- SMART Cymru.
- Noddi Partneriaethau Trosglwyddo Gwybodaeth a reolir gan y Bwrdd Strategaeth Technoleg.
- Cymorth i gyfranogi mewn rhaglenni cyllido a gynhelir gan e.e. y Bwrdd Strategaeth Technoleg.

Gellir defnyddio nifer o'r gwasanaethau hyn i sicrhau atal gwastraff neu effeithlonrwydd adnoddau, a gwireddu'r manteision ariannol ac amgylcheddol cysylltiedig. Er enghraifft, gall busnes ddefnyddio'r rhaglen Academia ar gyfer Busnes i gael arbenigedd neu gynnal ymchwil i well effeithlonrwydd cynhyrchu. Gall busnes bach ddefnyddio Busnes Cymru i gael cymorth a chyngor ar atal gwastraff. Gall y Rhaglen Arloesi ar gyfer Busnes helpu busnes sy'n ceisio ehangu a chyrraedd marchnadoedd newydd drwy eco-arloesi.

3.2 Blaenoriaethau

Mae Llywodraeth Cymru wedi nodi *sectorau â blaenoriaeth a meysydd â blaenoriaeth ar gyfer gweithredu mewn perthynas â'r rhaglen*. Mae'r rhain yn seiliedig ar y deunyddiau effaith uchel a'r cynnyrch a nodwyd yn ein hadolygiad o'r dystiolaeth a'r sectorau sydd â'r potensial mwyaf i atal gwastraff, naill ai'n uniongyrchol drwy ei weithrediadau ei hun neu drwy ddylanwad dros fusnesau a sectorau eraill.

3.2.1 Sectorau Busnes â Blaenoriaeth

Dyma ein sectorau busnes â blaenoriaeth:

- Y sector gweithgynhyrchu bwyd.
- Gwasanaethau llety a bwyd.
- Busnesau bach a chanolig, ac yn enwedig gwasanaethau a leolir mewn swyddfeydd, bwyd a llety, a manwerthwyr bach a chyfanwerthwyr.
- Sectorau diwydiant a ganiateir: Gweithgynhyrchu metel sylfaenol a chynnyrch metel; Gweithgynhyrchu papur a chynnyrch papur; Gweithgynhyrchu cemegion, cynnyrch cemegol, cynhyrchion fferyllol.

3.2.2 Blaenoriaethau Trawsbynciol ar gyfer Gweithredu

Mae ein blaenoriaethau trawsbynciol ar gyfer gweithredu fel a ganlyn:

- Y sector cyhoeddus fel patrwm i'w ddilyn.
- Gweithio gyda manwerthwyr mawr a'u cadwyni cyflenwi.
- Hyrwyddo Eco-arloesi yn y sector gweithgynhyrchu yng Nghymru.

3.3 Rhaglen waith

Tabl 3 Mesurau amlinellol ac amserlen ddangosol ar gyfer y rhaglen

	2013	2014	2015	2016	2017	2018 - 2025
Y sector gweithgynhyrchu bwyd						
Opsionau sy'n cael eu hystyried	D					
Cytundeb Gwirfoddol Gwasanaeth Lletygarwch a Bwyd				A		
Rhaglen grant sector Gwasanaeth Lletygarwch a Bwyd				A		
Sector Gwasanaethau Llety a Bwyd						
Opsionau sy'n cael eu hystyried	D					
Cytundeb Gwirfoddol Gwasanaeth Lletygarwch a Bwyd				A		
Rhaglen grant sector Gwasanaeth Lletygarwch a Bwyd				A		

	2013	2014	2015	2016	2017	2018 - 2025
Busnesau bach a chanolig						
Opsiynau sy'n cael eu hystyried i wella'r rhaglen gymorth i wasanaethau a leolir mewn swyddfeydd	D					
Opsiynau sy'n cael eu hystyried i wella'r rhaglen gymorth i fanwerthwyr a chyfanwerthwyr	D					
Opsiynau sy'n cael eu hystyried i wella'r rhaglen gymorth i'r sector llety a gwasanaethau bwyd	D					
Y Sector Diwydiant a Ganiateir						
Opsiynau sy'n cael eu hystyried i weithgynhyrchu metel sylfaenol a chynnyrch metel	D					
Opsiynau sy'n cael eu hystyried i weithgynhyrchu papur a chynnyrch papur	D					
Opsiynau sy'n cael eu hystyried i weithgynhyrchu cemegion, cynnyrch cemegol, cynhyrchion fferyllol.	D					
Y Sector Cyhoeddus						
Cynllun y Sector Cyhoeddus	D					
Manwerthwyr Mawr						
Opsiynau sy'n cael eu hystyried	D					
Ymrwymiad Courtauld				A		
Arloesedd deunydd pacio a manwerthu cynnyrch nad yw'n fwyd						
Y Fforwm Cynaliadwyedd Cynnyrch						
Cynnyrch y Cartref a'r Gweithle						
Modelau Busnes Effeithlonrwydd o ran Adnoddau a Darparu Gwasanaethau						
Dillad sy'n Effeithlon o ran Adnoddau						
Rheoliadau Llywodraeth Cymru i godi tâl am fagiau siopa						

	2013	2014	2015	2016	2017	2018 - 2025
Eco-arloesi a Gweithgynhyrchu Cymru						
Opsionau sy'n cael eu hystyried	D					

Allwedd

Gweithredu		Adolygu	A
Dichonoldeb	D	Peilot	

3.3.1 Y Sector Gweithgynhyrchu Bwydydd

Mae'r sector gweithgynhyrchu bwydydd yn flaenoriaeth am ei fod yn cynhyrchu bron y cyfan o wastraff bwyd – gwastraff â blaenoriaeth - o ddiwydiant. Mae hefyd yn cyfrannu'n sylweddol at achosion o gemegion a phapur a cherdyn, ac yn cynhyrchu chwarter o'r holl wastraff diwydiannol yn ôl tunelledd. Mae tua 80 y cant o'r gwastraff yn codi o gwmnïau â dros 250 o gyflogeion. Mae gwaith gan WRAP²¹ yn awgrymu bod lleihad gwastraff tua 10 – 15 y cant yn bosibl drwy wneud newidiadau cymharol syml, cost isel mewn cyfleusterau gweithgynhyrchu bwyd. Mae'r arbedion cost canlyniadol tua £1,200 fesul tonnell o wastraff sy'n cael ei atal.

Datblygir rhaglen estynedig gyda'r sector hwn yng Nghymru, gan adeiladu ar y gwaith presennol i ymestyn y cwrpas y tu hwnt i fwyd a'i ddeunydd pacio cysylltiedig i ymgorffori'r holl ddeunyddiau â blaenoriaeth, megis cemegion a phapur a cherdyn nad yw'n ddeunydd pacio. Bydd hefyd yn cynyddu'r amrywiaeth o ymyriadau a'u heffaith gysylltiedig. Amcangyfrifir bod tua 37 y cant o'r gwastraff bwyd yn cael ei gynhyrchu gan fusnesau sy'n gweithredu gyda mantais trwydded amgylcheddol, ac mae'r rheoliadau yn ei gwneud yn ofynnol i'r holl weithredwyr leihau'r gwastraff a gynhyrchir a defnyddio adnoddau'n effeithlon. Byddwn yn adeiladu ar waith blaenorol a gynhaliwyd gydag Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru (Cyfoeth Naturiol Cymru bellach) gyda'r bwriad o sicrhau bod y system mor effeithiol â phosibl.

Mae opsiynau i ddatblygu'r gwaith hwn yn cael eu hystyried ar hyn o bryd.

3.3.2 Y Sector Gwasanaethau Llety a Bwyd

Mae'r sector gwasanaethau llety a bwyd yn flaenoriaeth oherwydd dyma'r sector cynhyrchu gwastraff masnachol mwyaf ond un yng Nghymru o ran cyfanswm y tunelledd, ac mae ei gyfraniad at wastraff bwyd sydd â ffynhonnell ar wahân a deunyddiau â blaenoriaeth yn y gyfran gymysg yn uchel iawn. Ceir cryn botensial i leihau gwastraff yn y sector, ac mae Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda busnesau yn y sector oherwydd ei bwysigrwydd economaidd yng Nghymru. Mae budd ariannol pob tonnell o wastraff bwyd sy'n cael ei atal gan y sector lletygarwch tua £1,800. Daw mwyafrif helaeth y gwastraff a gynhyrchir gan y sector hwn o fusnesau bach a chanolig, a bydd ein rhaglen waith yn adlewyrchu'r proffil cynhyrchu gwastraff hwn.

²¹ Waste arisings in the supply of food and drink to households in the UK (2010) WRAP

Ein rhaglen bresennol yn y sector hwn yw'r Cytundeb Gwirfoddol o fewn y Gwasanaethau Lletygarwch a Bwyd a arweinir gan WRAP a gweithgarwch ategol. Amcan y cytundeb yw atal gwastraff bwyd a deunydd pacio rhag deillio o'r sector Gwasanaethau Lletygarwch a Bwyd. Lle bydd gwastraff yn deillio, yr amcan yw cynyddu cyfraddau ailgylchu ac adfer, ac felly lleihau'r gwastraff sy'n cael ei anfon i safleoedd tirlenwi. Yng Nghymru ceir camau gweithredol ategol penodol gan gynnwys rhaglenni grant a gynhelir gan WRAP megis Ailgylchu ar hyd y lle a rhaglen grant y Sector Gwasanaethau Bwyd.

Tabl 4 Targedau Cytundeb Gwasanaethau Lletygarwch a Bwyd

	Targedau	Esboniad Pellach
Targed atal	Lleihau gwastraff bwyd a deunydd pacio cysylltiedig 5 y cant erbyn diwedd 2015.	Bydd hyn yn erbyn llinell sylfaen 2012 ac yn cael ei fesur yn ôl allyriadau CO ₂ .
Targed rheoli gwastraff	Cynyddu'r gyfradd gyffredinol o wastraff bwyd a deunydd pacio sy'n cael ei ailgylchu, ei anfon i'w dreulio anaerobig neu ei gompostio o leiaf 70 y cant erbyn diwedd 2015.	

Bydd y Cytundeb Gwasanaethau Lletygarwch a Bwyd yn rhedeg tan ddiwedd 2015, a nod WRAP yw sicrhau bod busnesau Cymru'n cael budd drwy gyfranogi a chymorth ar lawr gwlad. Bydd busnesau'n elwa'n ariannol drwy gyfranogi yn y cytundeb, drwy wireddu arbedion cost drwy atal gwastraff bwyd, sicrhau'r deunydd pacio gorau posibl ac ailgylchu mwy. Bydd hyn yn helpu i wrthbwyso chwyddiant a ragwelir mewn pris bwyd - amcangyfrifir bod hyn ar 5-10 y cant ar gyfer y sector hwn dros y flwyddyn nesaf - ac felly'n cadw'r sector yn gystadleuol a diogelu swyddi.

Targedau'r Cytundeb ar draws y sector yw lleihad o 5 y cant mewn effaith carbon drwy atal gwastraff, a chynyddu cyfraddau ailgylchu i 70 y cant (gweler Tabl 4). Bydd gweithgarwch yn y rhaglen yn canolbwyntio ar dri maes:

1. Gweithio gyda llofnodwyr mawr i'r Cytundeb, lle y gellir sicrhau llwyddiannau mawr. Bydd y gweithgarwch hwn yn canolbwyntio ar gymorth un wrth un wedi'i deilwra a fydd yn ymgorffori'r targedau mewn cynlluniau busnes ac yn datblygu arfer da y gellir ei rannu.
2. Gweithio gyda llofnodwyr llai sy'n cynhyrchu symiau bach o wastraff ar eu pennau eu hunain ond sydd ag effaith uchel gyda'i gilydd (daw tua hanner o'r gwastraff a gynhyrchir yn y sector o fusnesau sydd â llai na 10 o gyflogaion). Mae Llywodraeth Cymru yn cysylltu â chyrff twristiaeth i ddatblygu cymorth i fusnesau bach a chanolig yn y sector. Byddwn yn annog mabwysiadu arfer da heb yr angen i fesur a chyflwyno adroddiadau.
3. Gweithio gydag adrannau llywodraeth i annog eu hymrwymiad fel cefnogwyr i'r Cytundeb.

3.3.3 Busnesau Bach a Chanolig

Rydym wedi blaenoriaethu gwasanaethau a leolir mewn swyddfeydd, bwyd a llety, a manwerthwyr a chyfanwerthwyr bach yn ein cymorth i fusnesau bach a chanolig oherwydd:

- Nid yw gwasanaethau a leolir mewn swyddfeydd yn cynrychioli sector unigol, ond yn hytrach y gweithgarwch swyddfa a gynhelir mewn llawer o sectorau gwasanaeth a swyddogaethau sector cyhoeddus ac i raddau llai mewn sectorau eraill yn y diwydiant. Mae'r rhan fwyaf o'r sectorau gwasanaeth yn cynhyrchu symiau bach o wastraff yn unigol, ond mae ganddynt botensial da i leihau'r gwastraff y maent yn ei gynhyrchu a chydai gilydd gallant gyfrannu swm rhesymol o wastraff i'r ffrwd wastraff fasnachol. Caiff ymagwedd thematig ei mabwysiadu at leihau papur a gwastraff swyddfa nodweddiadol arall (megis dodrefn swyddfa, offer TG, gorchuddion llawr a gorchuddion ffenestri) er mwyn cychwyn arfer gorau.
- Mae manwerthwyr a chyfanwerthwyr yn bwysig oherwydd nhw yw'r cysylltiad rhwng cyflenwyr neu weithgynhyrchwyr a defnyddwyr. Mae busnesau bach yn aml yn darparu cyflogaeth leol ac maent yn allweddol i gadw ein cymunedau'n fywiog. Oherwydd bod busnesau bach yn aml yn brin o amser, staff ac adnoddau ariannol; mae angen cymorth wedi'i dargedu arnynt i wneud newidiadau syml sy'n arwain at fanteision ystyrlon.
- Fel y nodwyd yn 3.2.2 uchod mae'r sector gwasanaethau llety a bwyd yn flaenoriaeth oherwydd dyma'r sector cynhyrchu gwastraff masnachol mwyaf ond un yng Nghymru o ran cyfanswm y tunelledd, ac mae ei gyfraniad at wastraff bwyd sydd â ffynhonnell ar wahân a deunyddiau blaenoriaeth yn y gyfran gymysg yn uchel iawn. Mae rhesymau eraill dros weithio gyda'r sector hwn yn cynnwys:
 - o Potensial sylweddol i leihau yn y sector.
 - o Ei bwysigrwydd economaidd yng Nghymru.
 - o Manteision ariannol sylweddol i fusnes (e.e. £1,800 fesul tunnell o wastraff bwyd).

Mae Llywodraeth Cymru yn gwerthuso opsiynau amrywiol i wella ein rhaglen o gymorth i fusnesau bach a chanolig. Mae hyn yn bwysig, ac yn enwedig i'r sectorau â blaenoriaeth a amlinellwyd uchod - busnesau manwerthu a chyfanwerthu bach, sectorau gwasanaethau llety a bwyd - ond gellid ei ddefnyddio'n fwy eang.

3.3.4 Sectorau Diwydiant a Ganiateir

Mae'r sectorau diwydiant a drafodir yn yr adran hon yn gweithredu gyda budd Trwydded Amgylcheddol, sy'n nodi amodau gan gynnwys y gofyniad am gynllun lleihau gwastraff. Mae diwydiant a ganiateir yn flaenoriaeth am ei fod yn cynhyrchu symiau mawr o wastraff, ac mae rhywfaint ohonynt yn anodd i'w rheoli neu'n beryglus i'r amgylchedd.

O safbwynt atal gwastraff, mae'r diwydiannau y mae gennym ddiddordeb ynddynt fel a ganlyn:

- Gweithgynhyrchu metel sylfaenol a chynnyrch metel.
- Gweithgynhyrchu papur a chynnyrch papur.
- Gweithgynhyrchu cemegion, cynnyrch cemegol, cynhyrchion fferyllol.

Mae nifer o fusnesau gweithgynhyrchu bwyd hefyd yn gweithredu yn y system drwyddedu, ond maent wedi'u cynnwys ar wahân o dan y Sector Gweithgynhyrchu Bwyd uchod (adran 3.3.1).

Nid yw'n hysbys beth yw gwir raddau'r effeithlonrwydd adnoddau ar draws ehangder y gweithgarwch a gwmpesir gan y sectorau hyn. Mae'r materion cost a chyflenwi sy'n ymwneud â rhai deunyddiau porthiant, ynghyd â gwerth uchel y cynnyrch, wedi hybu effeithlonrwydd proses i raddau.

Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda diwydiant, arbenigwyr effeithlonrwydd proses a Cyfoeth Naturiol Cymru i ddeall yn well i ba raddau mae diwydiant wedi sicrhau bod ei brosesau mor effeithiol â phosibl. Bydd gwastraff peryglus yn cael ei gynnwys yn y gwaith hwn. Bydd hefyd yn adolygu rôl y rheoleiddiwr o ran monitro perfformiad diwydiant a ganiateir. Bydd y gwaith hwn yn rhan o gynllun tystiolaeth gwastraff, sy'n cael ei ddatblygu i gynorthwyo datblygu a chyflawni polisi.

3.3.5 Y Sector Cyhoeddus

Mae'r sector cyhoeddus yn gyflogwr sylweddol yng Nghymru, ac mae hefyd yn caffael nwyddau a gwasanaethau o fusnesau ac unigolion yn y sector preifat. Felly gall weithredu fel patrwm i'w ddilyn o ran ei arferion gwaith a'i weithgarwch caffael. Un o fanteision eraill gwella effeithlonrwydd adnoddau deunyddiau y sector addysg yw cynnwys plant ac oedolion ifanc i ymgorffori ymddygiad cynaliadwy ar oedran cynnar.

Datblygu cynaliadwy yw egwyddor drefnu ganolog Llywodraeth Cymru, ac mae cynigion yn ymgynghoriad Bil Cenedlaethau'r Dyfodol i gyflwyno'r ymagwedd hon ar draws y cyrff sector cyhoeddus hynny y mae eu cylch gwaith neu eu swyddogaethau yn cael yr effaith fwyaf ar les economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol Cymru, a'r rhai hynny sydd â'r swyddogaethau polisi strategol a chynllunio corfforaethol. Byddai mesurau atal gwastraff ac effeithlonrwydd adnoddau a fabwysiedir gan sefydliadau'r sector cyhoeddus yn dangos eu hymrwymiad i gynaliadwyedd amgylcheddol, a byddai'n anfon neges glir i'r gweithlu a chyflenwyr bod eu rhwymedigaethau o ran datblygu cynaliadwy yn cael eu cymryd o ddifrif.

Yng Nghymru mae caffael cyhoeddus yn cyfrif am tua 10 y cant o'r CMC, felly gallai chwarae rhan sylweddol wrth annog atal gwastraff a gweithredu fel ysgogydd o ran manteisio ar gynnyrch sy'n effeithlon o ran adnoddau ac ecoddyllunio.

Mae caffael cyhoeddus gwyrdd a'r defnydd o safonau prynu a chymalau'r Llywodraeth mewn contractau sector cyhoeddus i annog atal gwastraff yn cael ei weld fel mesur allweddol o gynhyrchu newid allanol. Mewn astudiaeth ddiweddar²² nodwyd bod defnyddio caffael ar gyfer newid allanol yn ysgogwr allweddol i atal gwastraff ac un sy'n cynnig y potensial mwyaf pan fydd un neu fwy o sefydliadau (megis awdurdod lleol) yn defnyddio strategaeth gyffredin.

Ym mis Rhagfyr 2012, cyhoeddodd Jane Hutt AC, y Gweinidog Cyllid, 'Datganiad Polisi Caffael Cymru' sy'n nodi'r arferion caffael a'r camau penodol y mae angen i bob sefydliad sector cyhoeddus yng Nghymru eu cymryd. Er y dylai penderfyniadau'n ymwneud â chaffael fod yn seiliedig ar ansawdd/cost/risg, nodwyd y dylai sefydliadau sector cyhoeddus ystyried yr effeithiau hirdymor hefyd. Drwy wneud hyn, byddent yn cefnogi'r egwyddorion y bydd Bil Cenedlaethau'r Dyfodol yn seiliedig arnynt.

Mae Gwerth Cymru wedi datblygu pecyn cymorth o hyfforddiant ac adnoddau, megis y Fframwaith Asesu Caffael Cynaliadwy (SPAG), a byddant yn parhau i weithio'n agos gyda'r sefydliadau hyn a'r Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol i Gymru (ar ôl ei sefydlu) i godi ymwybyddiaeth o'r angen am ymagwedd fwy cynaliadwy at gaffael cyhoeddus.

Bydd Llywodraeth Cymru yn adeiladu ar y gwaith hwn i sicrhau bod holl sefydliadau'r sector cyhoeddus yng Nghymru mewn sefyllfa i gyflwyno cymalau effeithlonrwydd adnoddau ac atal gwastraff yn eu contractau, a bydd yn arwain drwy esiampl yn ei gweithgarwch caffael ei hun.

Bydd dogfen ar wahân – Cynllun y Sector Cyhoeddus - yn datblygu'r camau gweithredu hyn ac ar hyn o bryd mae'n cael ei lunio ar ei ffurf ddrafft ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus.

3.3.6 Gweithio gyda manwerthwyr mawr a'u cyflenwyr

Mae manwerthwyr a chyfanwerthwyr yn darparu cyswllt hanfodol rhwng y busnesau sy'n gweithgynhyrchu nwyddau a'r defnyddiwr. Gall eu meini prawf ar gyfer prynu cynnyrch gael eu defnyddio i ddylanwadu ar y tyfwr, y gweithgynhyrchwyr, y proseswyr a'r dosbarthwyr sy'n eu cyflenwi. Maent hefyd yn cynhyrchu symiau mawr o wastraff o'u gweithrediadau eu hunain, gan gynnwys mathau o wastraff â blaenoriaeth.

Ceir cyfle sylweddol i leihau effaith, ac mae WRAP wedi amcangyfrif gwerth ariannol atal gwastraff ar gam y manwerthwr yng nghylch bywyd nifer o gynnyrch. Mae'r gwerthoedd yn amrywio o £2,727 fesul tonnell o wastraff bwyd i £27,000 fesul tonnell o ddillad.

²² *Business Waste Prevention Evidence Review*. Oakdene Hollins (2010)

Mae gan fanwerthwyr a chyfanwerthwyr rôl i'w chwarae o ran:

- Gwella effaith amgylcheddol eu portffolio cynnyrch drwy ddylanwadu ar dyfwr, proseswyr, dylunwyr, gweithgynhyrchwyr a dosbarthwyr yng Nghymru ac yn rhyngwladol drwy eco-ddylunio, modelau busnes sy'n effeithlon o ran adnoddau, caffael gwyrdd a chadwyni cyflenwi gwyrdd.
- Lleihau'r gwastraff a gynhyrchir drwy eu gweithgarwch eu hunain.
- Cefnogi mentrau cenedlaethol a lleol megis cynlluniau aildosbarthu bwyd.
- Darparu gwybodaeth glir i ddefnyddwyr am berfformiad amgylcheddol eu cynnyrch.
- Darparu gwybodaeth a chanllawiau ar gamau ymarferol y gall defnyddwyr eu cymryd i leihau effaith eu cynnyrch wrth eu defnyddio ac ar ddiwedd eu hoes.

Mae cynnyrch ag effaith amgylcheddol uchel yn cynnwys bwyd, dillad a thecstilau eraill, dodrefn y cartref a'r gweithle, cemegion, ac offer trydanol ac electronig.

Ar hyn o bryd ceir llawer o weithgarwch yn y maes hwn, a ddisgrifir isod. Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn datblygu opsiynau ar sut y gellir gwella'r gweithgarwch hwn ymhellach.

3.3.6.1 Ymrwymiad Courtauld

Mae Ymrwymiad Courtauld yn gytundeb gwirfoddol rhwng Llywodraethau'r DU a sectorau manwerthu, groser a gweithgynhyrchu Prydain, ac mae'n cael ei reoli gan WRAP. Nod yr Ymrwymiad yw atal gwastraff bwyd a deunydd pacio, ac mae WRAP yn gweithio gyda llofnodwyr diwydiant i gytuno ar gamau sy'n cyfrannu tuag at gyflawni targedau ar y cyd a'u gweithredu.

Roedd Cam 1 a 2 yn llwyddiannus o ran lleihau deunydd pacio, gwastraff cartref a gwastraff cadwyn gyflenwi. Gwnaeth camau gweithredu ledled y DU yn ystod Cam 1 arwain at atal 1.2 tunnell o wastraff bwyd a deunydd pacio. Mae canlyniadau dros dro ar gyfer Cam 2 yn dangos lleihad o 8.2 y cant yn effaith garbon deunydd pacio mewn dwy flynedd, a lleihad o 8.8 y cant o ran gwastraff cynnyrch a deunydd pacio yn y gadwyn gyflenwi.

Yn dilyn trafodaeth gyda diwydiant, penderfynwyd y byddai Ymrwymiad Courtauld yn cael ei ymestyn i gam arall - Courtauld 3.

Courtauld 3

Bydd Ymrwymiad Courtauld 3 yn rhedeg am dair blynedd o 2013 i 2015 gyda thargedau'n cael eu mesur yn erbyn llinell sylfaen 2012. Dangosir y targedau yn Nhabl 5.

Tabl 5 Targedau Courtauld 3 (2013-15)

Teitl	Targed	Esboniad pellach
Targed bwyd a diod cartrefi	Lleihau gwastraff bwyd a diod o gartrefi 5 y cant erbyn 2015 o linell sylfaen 2012. Gan ystyried dylanwadau allanol, mae'r targed hwn yn lleihad o 9 y cant o'i gymharu â newidiadau a ragwelir mewn gwerthiannau bwyd a diod.	Gan ystyried dylanwadau allanol, mae'r targed hwn yn lleihad o 9 y cant o'i gymharu â newidiadau a ragwelir mewn gwerthiannau bwyd a diod.
Targed gweithgynhyrchu a manwerthu	Lleihau gwastraff cynhwysion, cynnyrch a deunydd pacio traddodiadol groser yn y gadwyn gyflenwi groser 3 y cant erbyn 2015, o linell sylfaen 2012.	Gan ystyried dylanwadau allanol, mae'r targed hwn yn lleihad o 8 y cant o'i gymharu â chynnyrch a gwerthiannau a ragwelir.
Targed deunydd pacio	Gwella dylunio deunydd pacio drwy'r gadwyn gyflenwi i sicrhau cymaint o gynnwys wedi'i ailgylchu â phosibl fel y bo'n briodol, gwella ailgylchadwyedd a chyflawni diogelwch cynnyrch i leihau gwastraff bwyd, tra'n sicrhau nad oes cynnydd yn effaith carbon deunydd pacio erbyn 2015, o linell sylfaen 2012.	Gan ystyried dylanwadau allanol, mae'r targed hwn yn lleihad carbon o 3 y cant o'i gymharu â gwerthiannau a ragwelir.

3.3.6.2 Arloesedd deunydd pacio a manwerthu cynnyrch nad yw'n fwyd

Mae plastigion, papur a cherdyn wedi'u nodi fel ffrydiau gwastraff â blaenoriaeth o gartrefi. Roedd llawer o'r gwastraff hwn yn ddeunydd pacio yn wreiddiol, ac felly mae lleihau effaith deunydd pacio yn flaenoriaeth. Mae deunydd pacio gormodol yn aml yn cael ei ddyfynnu fel pryder i'r cyhoedd, a bydd pwyslais parhaus ar sicrhau'r deunydd pacio gorau posibl drwy gamau yn y gadwyn gyflenwi. Dylid canolbwyntio ar y pwysoliad cywir, sy'n golygu dylunio deunydd pacio sy'n defnyddio cyn lleied o ddeunydd â phosibl ond sy'n cynnal cyfanrwydd y cynnyrch y mae'n ei gynnwys.

Bydd gwaith hefyd yn cael ei estyn i nwyddau traul nad ydynt yn fwyd, ac i ddeunydd pacio eilaidd a thrydyddol a ddefnyddir i gludo a storio nwyddau. Eir i'r afael hefyd â'r gwastraff deunydd pacio a gynhyrchir gan siopa ar-lein, sydd wedi cynyddu'n sylweddol dros y blynyddoedd diwethaf.

Mae'r hyn a ddysgwyd oddi wrth y sector bwyd yn cael ei ddatblygu gan WRAP mewn cynnyrch nad yw'n fwyd.

3.3.6.3 Y Fforwm Cynaliadwyedd Cynnyrch

Mae'r Fforwm Cynaliadwyedd Cynnyrch yn rhoi llwyfan i WRAP, Llywodraeth Cymru a gweinyddiaethau eraill yn y DU, busnesau a phartïon eraill â diddordeb i:

- Ddarparu'r dystiolaeth, y data a'r dulliau sy'n helpu busnesau a llywodraethau i flaenoriaethu eu gwaith i leihau effaith amgylcheddol cynnyrch bob dydd.
- Helpu busnesau i gydweithio i feintïoli, lleihau a chyfathrebu effeithiau amgylcheddol y cynnyrch y maent yn eu gwneud a/neu yn eu gwerthu.
- Profi dichonoldeb defnyddio'r corff hwn o waith i fod yn sail i unrhyw gytundebau neu weithredoedd gwirfoddol yn y dyfodol ac offerynnau polisi eraill fel y cytunwyd arnynt â Llywodraethau'r DU.

Ar hyn o bryd mae'r fforwm yn canolbwyntio ar effeithiau amgylcheddol cylch bywyd nwyddau groser a chynnyrch gwella'r cartref, ac mae'n gweithredu fel canolfan wybodaeth i gynorthwyo rhaglenni eraill.

Mae prosiectau braenaru yn cael eu datblygu yng Nghymru.

3.3.6.4 Cynnyrch y Cartref a'r Gweithle

Diben y rhaglen WRAP hon yw gwneud effeithlonrwydd yn rhan annatod o fanyleb a dosbarthiad cynnyrch. Mae'n canolbwyntio ar Gynnyrch y Cartref a'r Gweithle sy'n cynnig y potensial mwyaf ar gyfer lleihau o ran eu heffeithiau adnoddau, yn enwedig cyfarpar trydanol ac electronig (EEE) a dodrefn.

Mae'r amcan hwn yn cael ei gyflawni drwy:

- Dystiolaeth ar gyfer blaenoriaethu camau gweithredu a chonsensws ymhlith partïon â diddordeb drwy'r Fforwm Cynaliadwyedd Cynnyrch.
- Cynnwys cadwyni cyflenwi Cymru i leihau difrod i gynnyrch a chynyddu oes cynnyrch drwy ledaenu gwybodaeth ac ymgysylltu wedi'i dargedu.

Bydd y rhaglen yn adeiladu ar lwyddiant Ymrwymiad y Sector Gwella Cartrefi, gyda'i dargedau cysylltiedig:

- Lleihau deunydd pacio 15 y cant erbyn diwedd 2012*.
- Lleihau gwastraff sy'n cael ei anfon i'w dirlenwi o'u gweithrediadau 50 y cant erbyn diwedd 2012*.
- Helpu defnyddwyr i ailgylchu mwy.

*mesurwyd yn erbyn llinell sylfaen 2007.

Daeth yr ymrwymiad hwn i ben yn 2012, a chyhoeddir y canlyniadau gan WRAP maes o law.

Wrth symud ymlaen yng Nghymru, mae'r rhaglen waith yn cynnwys gweithio gyda phrif fanwerthwyr cynnyrch trydanol yng Nghymru sydd â'r potensial mwyaf ar gyfer lleihau effeithiau oes gyfan (e.e. nwyddau gwyn). Bydd y busnesau hyn yn cael eu hannog a'u cynorthwyo i gymryd camau i leihau effeithiau, er enghraifft drwy gynyddu gwarantau oes, cynlluniau cyfnewid ar gyfer nwyddau a ddefnyddiwyd, a manylebau dylunio diwygiedig. Gallai'r gwaith gyda chynnyrch trydanol hefyd arwain at dreialu modelau busnes (gan ddefnyddio cymorth Ardal Rhaglen WRAP ar Fodelau Busnes Newydd) fel y trafodir yn yr adran ganlynol (Cyfarpar Trydanol ac Electronig Cynaliadwy a Modelau Busnes Newydd).

3.3.6.5 Cyfarpar Trydanol ac Electronig Cynaliadwy a Modelau Busnes Newydd

Bydd y rhaglen hon gan WRAP yn dangos yr achos am fodelau busnes amgen gan ganolbwyntio ar gynnyrch effaith uchel, gan gynnwys cynnyrch trydanol ac electronig, dillad a dodrefn, a'r gwasanaethau sy'n eu defnyddio. Mae'r rhaglen hon yn canolbwyntio ar dri maes.

1. Modelau busnes amgen yn y sector manwerthu – gan ganolbwyntio'n benodol ar gynnyrch trydanol a dillad. Cynhwysir modelau'n seiliedig ar estyn oes cynnyrch, derbyn cynnyrch yn ôl i'w ailwerthu, a darparu gwasanaethau.
2. Modelau busnes amgen yn sector gwasanaeth busnes i fusnes Rheoli Cyfleusterau - gan ganolbwyntio'n benodol ar reoli asedau symudol yn effeithlon (megis cynnyrch trydanol, dodrefn a darnau sbâr).
3. Newidiadau mewn arfer caffael cleientiaid o ran gwasanaethau Rheoli Cyfleusterau (gan gynnwys arlwyio), yn enwedig drwy sefydliadau enghreifftiol yn y sector cyhoeddus.

3.3.6.6 Dillad Cynaliadwy

Bydd y rhaglen WRAP hon yn sicrhau bod effeithlonrwydd anoddau'n rhan annatod o'r broses fanylebu ar gyfer dillad erbyn 2015, lleihau'r ôl troed carbon, gwastraff a dŵr ar draws cylch bywyd dillad. Bydd yn annog busnesau i wthio am ymddygiad sy'n gynhenid effeithlon o ran adnoddau fel rhan o'u proses o roi negeseuon i ddefnyddwyr.

Bydd hyn yn cael ei gyflawni drwy gyhoeddi data ac adnoddau, rhoi canllawiau i fanwerthwyr, dylunwyr a phrynwyr, a hwyluso camau gweithredu ar y cyd ar draws y sector yn y DU gan gynnwys y prif chwaraewyr yng Nghymru. Mae'r Cynllun Gweithredu Dillad Cynaliadwy yn dod â diwydiant, llywodraeth a'r trydydd sector ynghyd i leihau'r defnydd o adnoddau a datblygu targedau ar draws y sector.

3.3.6.7 Rheoliadau Llywodraeth Cymru i godi tâl am fagiau siopa

Ers 1 Hydref 2011, bu isafswm tâl o 5c ar bob bag siopa untro yng Nghymru. Cyflwynwyd y tâl hwn i leihau'n sylweddol nifer y bagiau siopa a ddefnyddir yng Nghymru. Mae'n effeithio ar yr holl fanwerthwyr yng Nghymru, nid dim ond y rhai sy'n gwerthu bwydydd.

Yng Nghymru yn ystod 2009 aeth defnyddwyr ag amcangyfrif o 350 miliwn o fagiau siopa adref o'r prif archfarchnadoedd yn unig. Mae hyn yn 273 o fagiau fesul cartref, ac nid yw'n cynnwys y bagiau a ddefnyddiwyd yn siopau'r stryd fawr a siopau llai. Roedd y bagiau fel arfer dim ond yn cael eu defnyddio unwaith i siopa, a olygai eu bod yn cael eu gwastraffu ac y gallent ddod yn broblem sbwriel.

Mae WRAP wedi nodi bod y cyflenwad o fagiau siopa yng Nghymru rhwng 2010 a 2012 wedi lleihau cymaint ag 81 y cant yn y sector archfarchnadoedd. Mae canfyddiadau WRAP wedi'u hategu ymhellach gan ymchwil newydd a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru ym mis Gorffennaf 2013, a ystyriodd y defnydd a'r aildddefnydd o fagiau siopa yng Nghymru a'r Alban. Mae'r adroddiad yn nodi nad yw defnyddwyr yng Nghymru bellach yn hoffi defnyddio bagiau siopa untro a bod y defnydd o fagiau am oes a bagiau eraill y gallir eu haildddefnyddio yn dod yn ail natur. Mae'r astudiaeth yn nodi bod y llwyddiant mewn archfarchnadoedd yn bennaf ond mae'n cydnabod bod cynnydd gwirioneddol yn cael ei wneud ar y stryd fawr ac mewn siopau annibynnol bach.

Mae'r tâl hefyd wedi arwain at fwy o arian i elusennau a sefydliadau nid er elw am fod Llywodraeth Cymru wedi gofyn i fanwerthwyr drosglwyddo'r elw o'r tâl 5c i achosion amgylcheddol neu achosion da. Ers cyflwyno'r tâl dros sampl o fanwerthwyr mae cofnodion yn dangos bod £4 miliwn wedi'i chlustnodi neu ei rhoi i achosion da yng Nghymru.

3.4 Hyrwyddo Eco-arloesi yn sector gweithgynhyrchu Cymru

Mae Llywodraeth Cymru yn cynnig datblygu menter i wella eco-arloesi mewn busnesau gweithgynhyrchu yng Nghymru.

O ran cynnyrch newydd neu well, mae ecoddylunio yn golygu 'newid y ffordd y mae cynnyrch wedi'u dylunio i: lleihau swm a math y deunydd mewn cynnyrch (gan gynnwys natur beryglus); gwella hirhoedledd; a dylunio ar gyfer ailddefnyddio, didoli ac ailgylchu.

Mae eco-arloesi wedi'i ddiffinio yn Adroddiad Methodolegol 2012 yr Arsyllfa Eco-arloesi fel 'cyflwyno cynnyrch newydd neu wedi'i wella (nwyddau neu wasanaeth), proses, newid sefydliadol neu ateb marchnata sy'n lleihau'r defnydd o adnoddau naturiol (gan gynnwys deunyddiau, ynni, dŵr a thir) ac yn lleihau rhyddhau sylweddau niweidiol ar draws y cylch bywyd cyfan'. Mae'r Rhaglen Atal Gwastraff yn ystyried opsiynau sy'n lleihau'r defnydd o adnoddau *deunyddiau* naturiol, gan gynnwys modelau busnes newydd sy'n lleihau'r defnydd o nwyddau drwy brydlesu, paratoi nwyddau mwy gwydn a galluogi trwsio ac ailddefnyddio.

Er bod ecoddylunio ac eco-arloesi wedi'u cysylltu'n agos, maent yn wahanol. Mae ecoddylunio yn awgrymu ystyried holl effeithiau amgylcheddol cynnyrch o gam cyntaf dylunio. Yn arbennig, mae hyn yn osgoi cynllunio cynnyrch heb ei gydgyssylltu (er enghraifft, ni ddylai dileu sylwedd gwenwynig arwain at ddefnyddio mwy o ynni, a allai, at ei gilydd, gael effaith negyddol ar yr amgylchedd).

Bydd hyn yn cynnwys:

- Targedu sectorau a busnesau lle ceir mwy o botensial am enillion effeithlonrwydd adnoddau drwy eco-arloesi.
- Ymyriadau fesul cam yn ôl lle mae busnesau o ran eu 'taith arloesedd'.

Gallai'r cyflawni fod naill ai drwy:

- Wella cymhwyster o fewn yr hyn a gynigir gan Adran Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth Llywodraeth Cymru ar hyn o bryd, megis talebau arloesedd, Rhwydweithiau Trosglwyddo Gwybodaeth a chyllid Datblygu Ymchwil ac Arloesedd.
- Datblygu rhaglenni newydd.

Bydd y fenter yn blaenoriaethu busnesau ym meysydd y tair Her Fawr, a nodwyd yn *Gwyddoniaeth i Gymru*: Gwyddorau bywyd ac iechyd, Carbon isel, ynni a'r amgylchedd, a pheirianeg a deunyddiau uwch, ond ni fydd yn eithrio prosiectau eco-arloesi gwyb mewn unrhyw sector.

Mae'r 3 sector hyn hefyd wedi'u targedu yn *Arloesi Cymru* fel meysydd lle y bydd ymyriadau mawr penodol. Mae *Arloesi Cymru* yn benodol yn cyfeirio at eco-arloesi fel rhan o'r diffiniad ehangach o arloesedd yr hoffai Llywodraeth Cymru ei fabwysiadu wrth symud ymlaen.

Oherwydd bod y fenter yn blaenoriaethu meysydd Her Fawr Cymru, bydd yn cyd-fynd ag ymagwedd Arbenigo Craff y Comisiwn Ewropeaidd y mae Llywodraeth Cymru wedi'i mabwysiadu bellach, ac sy'n bwysig wrth fanteisio ar Gronfeydd Strwythurol yr UE.

Yn olaf, mae meysydd targed y fenter yn gorgyffwrdd yn sylweddol â heriau cymdeithasol yr UE a amlinellir yn *Horizon 2020*, y Fframwaith Cyffredin newydd ar gyfer Ymchwil ac Arloesedd 2014-2020.

3.5 Monitro Cynnydd

3.5.1 Cynnydd yn erbyn y targed cenedlaethol

Mae'r targed atal gwastraff ar gyfer gwastraff diwydiannol yn lleihad absoliwt o 1.4 y cant o linell sylfaen 2007 bob blwyddyn tan 2050.

Ar gyfer gwastraff masnachol, mae'r targed yn lleihad absoliwt o 1.2 y cant o linell sylfaen 2007 bob blwyddyn tan 2050.

Nid yw'r rhain yn dargedau statudol sy'n cael eu gosod yn erbyn unrhyw sector diwydiant na busnes, ond maent yn dargedau dangosol i ni eu cyflawni gyda'n gilydd.

Ar hyn o bryd, mae data ar gyfer y targedau hyn yn cael eu casglu drwy arolygon cynhyrchu gwastraff achlysurol, a chafwyd yr un diweddaraf yn 2007. Mae strategaeth ddata'n cael ei datblygu sy'n asesu'r ffordd o gasglu data gwastraff yn y tymor byr, y tymor canolig a'r hirdymor. Mae arolwg o wastraff busnes a gynhyrchwyd yn 2012 yn mynd rhagddo a bydd yn adrodd ar ddechrau 2014.

3.5.2 Dangosyddion cynnydd strategol

Cynigir y dangosyddion canlynol, a ddefnyddir i fonitro cynnydd yn strategol, yn enwedig yn erbyn yr amcan o ddatgysylltu cynhyrchu gwastraff oddi wrth dwf economaidd.

- Cynhyrchu gwastraff diwydiannol a masnachol yn erbyn Gwerth Ychwanegol Crynswth (GYC).

3.5.3 Monitro cynnydd prosiectau gweithredu unigol

Ar hyn o bryd mae diffyg tystiolaeth gynhwysfawr ar effeithiolrwydd mesurau atal gwastraff, felly drwy fonitro ein prosiectau gweithredu a nodwyd uchod, ni fyddwn ond yn gallu asesu cynnydd yn fewnol ond byddwn hefyd yn gallu cyfrannu at y sail dystiolaeth sy'n eiddo i'r cyhoedd.

Ochr yn ochr â datblygu pob prosiect gweithredu bydd cynllun monitro, targed neu ddangosydd(ion) cysylltiedig fel y bo'n briodol. Bydd Llywodraeth Cymru yn coladu allbynnau o'r cynlluniau monitro ac yn adrodd ar gynnydd yn ei adroddiad cynnydd blynyddol ar Tuag at Ddyfodol Diwastraff, a gwerthuso ac adolygu'n achlysurol yr effaith a'r gwerth am arian.

4 Gwastraff adeiladu a dymchwel

Mae'r adran hon yn disgrifio swm a math y gwastraff adeiladu a dymchwel a gynhyrchir yng Nghymru, manteision ariannol atal gwastraff, polisiâu a thargedau, a mentrau sydd yn eu lle i atal gwastraff. Mae'n amlinellu'r meysydd â blaenoriaeth ar gyfer gweithredu, ac yn disgrifio'r rhaglen waith gan gynnwys amserlen ddangosol. Yn olaf mae'n amlinellu'r dangosyddion, y gwaith monitro a'r gwaith adrodd cysylltiedig ar gynnydd.

4.1 Asesu'r sefyllfa

4.1.1 Symiau a mathau o wastraff adeiladu a gwastraff dymchwel

Daw'r data diweddaraf ar gyfer gwastraff adeiladu a dymchwel a gynhyrchwyd yng Nghymru o arolwg a gynhaliwyd gan Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru ar ran Llywodraeth Cymru, ac mae'n adlewyrchu'r gwastraff a gynhyrchwyd yn 2005/06. Ffynhonnell y data hyn oedd arolwg o fusnesau'n ymwneud â pheirianeg sifil, adeiladu, dymchwel ac adeiladu cyffredinol. Cynhaliwyd yr arolwg cyn i'r Comisiwn Ewropeaidd gyhoeddi ei ddiwygiad i'r Gyfarwyddeb Fframwaith Gwastraff. Rhoddodd y Gyfarwyddeb ddiffiniadau o wastraff, ac esboniodd fod rhai deunyddiau y tu allan i'r diffiniad o wastraff. Mae'r data wedi'u hail-gyfrifo i gyd-fynd â diffiniadau'r Gyfarwyddeb.

Amcangyfrifir mai cyfanswm y gwastraff adeiladu a dymchwel a ddeilliodd yng Nghymru yn 2005-06 oedd 9.4 miliwn tonnell.


Dangosir cyfansoddiad gwastraff sy'n deillio o'r sector adeiladu a dymchwel yn Ffigur 10. Mae agregau²³ (5.9 miliwn tonnell), megis concrit a briciau, a phriddoedd (2.2 miliwn tonnell) yn cyfrif am 85 y cant o'r gwastraff sy'n deillio o'r sector. Mae'r 15 y cant sy'n weddill yn cynnwys cymysgedd o blastig, pren, gwydr, metelau, gwastraff peryglus, deunydd inswleiddio a gypswm, papur a chardbord, gwastraff cyfarpar trydanol ac electronig, cerbydau diwedd oes a batris, gwastraff bioddiraddiadwy a chyffredinol o safleoedd.

Ailddefnyddiwyd 4.1 miliwn tonnell o wastraff adeiladu a dymchwel ar safleoedd a rheolwyd 5.3 miliwn tonnell i ffwrdd o safleoedd cynhyrchu.

Mae Llywodraeth Cymru wedi comisiynu arolwg newydd a gynhelir yn 2013, a bydd yn penderfynu ar swm a math y gwastraff diwydiannol, masnachol a gwastraff adeiladu a dymchwel a gynhyrchwyd yng Nghymru yn 2012. Bydd hyn yn diweddarau ein sail dystiolaeth ac yn ein helpu i roi canolbwynt i gamau yn y dyfodol.

²³ Diffiniodd yr arolwg y term agreg fel a ganlyn: Deunyddiau a ddefnyddir wrth adeiladu. Fel arfer yn cynnwys dau fath: 1) ffynonellau o agregau gwreiddiol megis tywod, graean, graean, cerrig mâl, slag, neu 2) wastraff a gynhyrchwyd gan y sector adeiladu a dymchwel sy'n cael ei ailgylchu neu ei aildefnyddio. Gelwir y rhain yn agregau eilaidd, h.y. concrit mâl. Mae'r Grŵp Gwastraff yn cynnwys concrit (EWC 17 01 01), briciau (EWC 17 01 02), teils a cerameg (EWC 17 01 03), cymysgeddau o'r uchod (EWC 17 01 07) a chymysgeddau bitwminaidd (EWC 17 03 02).

Ffigur 10 – Cyfansoddiad y gwastraff sy'n codi o'r sector Adeiladu a Dymchwel yng Nghymru (2005-06)



Ffynhonnell data: Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru

Defnyddiwyd effaith amgylcheddol²⁴ cynnyrch a'u deunyddiau gwastraff canlyniadol i nodi'r gwastraff hwnnw a ddylai fod yn destun yr ymdrechion mwyaf i atal gwastraff. Ar gyfer gwastraff adeiladu a dymchwel, dyma'r gwastraff effaith uchel:

- Pren.
- Plastig.
- Deunydd inswleiddio a gypswm.
- Gwastraff peryglus (pridd wedi'i halogi yn bennaf).
- Metelau.
- Concrit, briciau, teils a cerameg, sylweddau bitwminaidd²⁵.

Gweler Atodiad A am ddisgrifiad o weithgarwch economaidd a busnes yn y sector adeiladu.

²⁴ Effaith Ôl -troed Ecolegol Strategaeth Gwastraff Cymru, Arup (2009). Defnyddiwyd yr Ôl troed Ecolegol i benderfynu ar y blaenoriaethu hyn, ond byddai olrhain ôl-troed carbon yn cyflawni canlyniadau tebyg.

²⁵Yn yr arolwg adeiladu a dymchwel cafodd y deunyddiau hyn eu cyfuno â charreg a chraig naturiol, ac o ganlyniad fe'u modelwyd fel deunyddiau naturiol yn yr ymarfer Ôl troed Ecolegol. Fodd bynnag mae'r rhain yn ddeunyddiau effaith uchel y dylid eu hystyried ar gyfer mesurau atal gwastraff.

4.1.2 Manteision Atal Gwastraff

Amcangyfrifodd un o astudiaethau Envirowise o wastraff adeiladu mai gwir gost un sgip o wastraff adeiladu cymysg yw tua £1,300²⁶. Priodolwyd yr elfen gost fwyaf sylweddol i ddeunyddiau heb eu defnyddio, sy'n cynnwys cynnyrch a dorrwyd wrth eu cludo a'u storio, ac archebu gormod o gynnyrch. Mae WRAP yn amcangyfrif mai gwerth ariannol cynnyrch adeiladu a wastraffwyd wrth eu cynhyrchu a'u cyflenwi yw tua £250 fesul tonnell, a'r gost i adeiladwyr yn y safle adeiladu yw tua £400 fesul tonnell.

Canfu adroddiad gan Dîm Arloesi a Thyfu Adeiladu Carbon Isel Adran Busnes, Arloesedd a Sgiliau (BIS) y DU²⁷ fod 10-15 y cant o'r deunyddiau a anfonwyd i safle adeiladu yn wastraff yn y pen draw, felly mae cryn gyfle am arbedion ariannol yn y maes hwn.

4.1.3 Polisiâu a thargedau ar gyfer atal gwastraff adeiladu a dymchwel

Y targed ar gyfer gwastraff adeiladu a dymchwel a gynigiwyd yn Tuag at Ddyfodol Diwastraff a'i gadarnhau yn y Cynllun Sector Adeiladu a Dymchwel yw lleihad o 1.4 y cant bob blwyddyn tan 2050 o wastraff a drinnir oddi ar y safle yn seiliedig ar linell sylfaen 2006/7.

I gynorthwyo cyflawni Tuag at Ddyfodol Diwastraff, datblygwyd y Cynllun Sector Adeiladu a Dymchwel i helpu i lywio camau gweithredu yn y sector a'r sefydliadau sy'n ei gefnogi. Bydd y Rhaglen Atal Gwastraff ar gyfer y sector adeiladu a dymchwel yn cael ei gweithredu ochr yn ochr â'r cynllun sector.

4.1.4 Mentrau presennol ar atal gwastraff

Caiff camau penodol mewn perthynas ag atal gwastraff eu hariannu gan Adran Cyfoeth Naturiol a Bwyd Llywodraeth Cymru. Mae Adran yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth hefyd yn cynorthwyo busnesau ar effeithlonrwydd adnoddau, materion amgylcheddol ac arferion busnes cynaliadwy.

I ategu cyflawni Tuag at Ddyfodol Diwastraff a'r cynlluniau sector cysylltiedig, mae grant Llywodraeth Cymru yn cyllido nifer o sefydliadau i gyflawni mentrau atal gwastraff penodol ar ei rhan.

²⁶ <http://www.wrap.org.uk/content/estimating-waste>

²⁷ Tîm Arloesi a Thyfu Adeiladu Carbon Isel – Adroddiad Terfynol (Tachwedd 2010)

<http://www.bis.gov.uk/assets/biscore/business-sectors/docs/10-1266-low-carbon-construction-igt-final-report.pdf>

Y prif sefydliad cyflawni presennol ar gyfer gwastraff adeiladu a dymchwel yw Adeiladu Arbenigrwydd yng Nghymru (CEW), a disgrifir eu gwaith ar atal gwastraff yn y sector isod. Mae Llywodraeth Cymru yn ategu mentrau cymdeithasol sydd â'r potensial i aildddefnyddio neu drwsio eitemau o'r sector. Ceir hefyd gydweithio â sefydliadau eraill megis Canolfan Ecoddylunio Cymru lle y bo'n briodol.

Adeiladu Arbenigrwydd yng Nghymru

Yn ystod 2012/13, canolbwyntiodd gweithredoedd Adeiladu Arbenigrwydd yng Nghymru o safbwynt atal gwastraff ac effeithlonrwydd adnoddau ar²⁸:

- Cysoni gweithgarwch lleihau carbon ac atal/leihau gwastraff yn y sector.
- Cynyddu'r defnydd o ddeunydd gwarged ym maes adeiladu.
- Cynyddu caffael a defnyddio cynnyrch adeiladu effeithlon yng Nghymru.

Cysoni gweithgarwch lleihau carbon ac atal / lleihau gwastraff

Mae Adeiladu Arbenigrwydd yng Nghymru hefyd yn gyfrifol am gynnal Grŵp Cymru Ddigarbon ar ran Llywodraeth Cymru. Diben y Grŵp yw gweithredu fel dull lledaenu ac ymgysylltu i randdeiliaid a ffynhonnell o gyngor i Weinidogion Cymru ynglŷn â gweithgarwch a chymau gweithredu sydd eu hangen i gyflawni'r nod o gael adeiladau newydd di-garbon a'r cyfraniad i'w wneud gan yr amgylchedd adeiledig a fydd yn helpu i gyflawni'r targed blynyddol o dri y cant i dorri allyriadau nwyon tŷ gwydr.

Dyma amcanion y grŵp:

- Cyngori Gweinidogion Cymru ar y ffordd fwyaf effeithiol o gyflawni ymrwymadau perthnasol y strategaeth Newid yn yr Hinsawdd o ran yr amgylchedd adeiledig, a chyfrannu at adolygu, datblygu a gweithredu'r polisi cysylltiedig.
- Codi ymwybyddiaeth ymhlith y rhanddeiliaid am atebion sy'n anelu at leihau allyriadau mewn adeiladau newydd a phresennol. Lledaenu arfer gorau sy'n datblygu a gweithredu fel canolbwynt ar gyfer casglu barn y diwydiant a rhanddeiliaid ehangach.
- Gweithio gyda rhwydweithiau a sefydliadau gwybodaeth presennol sy'n gweithio yn y maes.
- Nodi, cynnig a hyrwyddo camau gweithredu ymarferol a dewisiadau polisi, gan gynnwys defnyddio canfyddiadau ymchwil.
- Nodi unrhyw fylchau mewn polisiâu presennol (gan ystyried cyfyngiadau cyfrifoldebau datganoledig Llywodraeth Cymru) a fyddai'n cyfrannu at gyflawni amcanion polisi.

Mae tîm rhaglen wastraff adeiladu a dymchwel Adeiladu Arbenigrwydd yng Nghymru yn gweithio gyda Grŵp Cymru Ddigarbon i ddileu'r gwrthdaro posibl rhwng yr agenda lleihau carbon a'r rhaglen atal gwastraff, gyda phwyslais penodol ar faterion sy'n ymwneud â gwastraff anodd a ddaw'n etifeddiaeth ar gyfer y dyfodol.

²⁸ Mae'r amgylchedd adeiledig yn cynnwys adeiladu a dymchwel, peirianeg sifil, gweithgarwch adeiladu eraill gan gynnwys gweithgarwch adnewyddu ac ati.

Cynyddu'r defnydd o ddeunydd gwarged ym maes adeiladu

Mae'r rhaglen hon wedi datblygu dulliau i hwyluso'r broses o ddefnyddio deunyddiau gwarged o un safle ar safle arall. Mae gweithgarwch wedi canolbwyntio ar ddatblygu dau brosiect penodol: llwyfan ar y we i alluogi cyfnewid deunyddiau gwarged rhwng diwydiannau a sefydlu canolfan i ailddosbarthu deunyddiau gwarged o brosiectau adeiladu a gweithgynhyrchwyr a chyflenwyr cynnyrch adeiladu i ddefnydd cymunedol.

Cymorth gan Adran yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth

Disgrifir Adran yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth Llywodraeth Cymru, a'i chymorth i fusnesau, yn adran 3.1.4.

4.2 Blaenoriaethau a rhaglen waith

4.2.1 Meysydd blaenoriaeth ar gyfer gweithredu

Mae Llywodraeth Cymru wedi gweithio gyda rhanddeiliaid i nodi achosion effaith amgylcheddol a chynhyrchu gwastraffu yn y sector. Yn ogystal, comisiynwyd AMEC Environment and Infrastructure Ltd i gynnal gwerthusiad o fesurau amrywiol y gellid eu defnyddio i fynd i'r afael ag atal gwastraff²⁹. Roedd hwn yn ddarn o waith lefel uchel gan ddefnyddio'r dystiolaeth bresennol a gasglwyd i adeiladu ar y camau a nodwyd yn y cynllun sector gwastraff adeiladu a dymchwel a llywio datblygu'r rhaglen atal gwastraff ar gyfer y sector hwn a'i gweithredu. Argymhellodd yr adroddiad y byddai'r mesurau canlynol yn arwain yn uniongyrchol at atal gwastraff:

- Ecoddylunio.
- Caffael Preifat Gwyrdd a dylanwad ar y gadwyn gyflenwi.
- Caffael Cyhoeddus Gwyrdd.
- Cyfnewid Adnoddau.

Yn ogystal, nododd yr adroddiad nifer o fesurau ategol eraill a allai hwyluso atal gwastraff ar y cyd â'r brif raglen waith.

Mewn ymateb i'r adroddiad hwn ac ar ôl ymgynghori ag amrywiaeth o gynrychiolwyr y diwydiant a phartïon eraill â diddordeb, mae chwe maes allweddol o waith wedi'u nodi fel y rhai sydd â'r potensial mwyaf ar gyfer atal gwastraff yn y sector:

- Dylunio adeiladau a phrosiectau adeiladu.
- Dylunio cynnyrch adeiladu.
- Difrod i gynnyrch adeiladu sy'n cael eu cludo.
- Adeiladwyr yn archebu gormod.
- Defnyddio cynnyrch dros ben a gynhyrchwyd ar y safle.
- Dymchwel ac adnewyddu adeiladau.

29 Evaluation of a range of Waste Prevention initiatives for Construction and Demolition waste produced in Wales to support the Waste Prevention Programme – AMEC Environment & Infrastructure UK Limited, Mawrth 2013

4.2.2 Rhaglen waith

Disgrifir rhaglen amlinellol o waith ar gyfer pob maes allweddol yn yr adrannau isod, a rhoddir amserlen ddangosol yn Tabl 6. Mae hyn yn seiliedig ar gamau a nodwyd eisoes yng Nghynllun y Sector Adeiladu a Dymchwel (a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2012) ac awgrymwyd mesurau a nodwyd yn y sail dystiolaeth.

Yn ystod y cyfnod ymgynghori, cynhaliwyd gweithdy gyda chynrychiolwyr o bob rhan o'r sector. Awgrymwyd amrywiaeth o fentrau i fynd i'r afael â chwe maes gwaith, a chaiff y rhain eu harfarnu a'u dwyn ymlaen fel prosiectau gweithredu fel y bo'n briodol.

Tabl 6 Mesurau amlinellol ac amserlen ddangosol ar gyfer y rhaglen

	2013	2014	2015	2016	2017	2018 - 2025
Ymgysylltu						
Dylunio sy'n atal gwastraff						
Addysg a chyfarwyddyd		A	A			
Dylunio ar gyfer Dadadeiladu (D4D)		A	A	A		
Galluogi						
Ecoddylunio o fewn prosiectau adeiladu	D	D				
Atebion dylunio ar gyfer cynnyrch adeiladu	D	D	D			
Cymorth Llywodraeth Cymru i fusnesau bach a chanolig ailddefnyddio deunyddiau dros ben						
Seilwaith i gynorthwyo ailddefnyddio deunyddiau dros ben er budd y gymuned						
Annog						
Y defnydd o beirianeg gwerth ar brosiectau adeiladu mawr						
Prosiectau adeiladu cynaliadwy	D	D				

	2013	2014	2015	2016	2017	2018 - 2025
Enghreifftio						
Lleihau'r 'ffactor gwastraff'		D				
Gwneud caffael sy'n ymwneud ag adeiladu yn fwy gwyrdd						

Allwedd

Gweithredu		Adolygu	A
Dichonoldeb	D	Peilot	

4.2.2.1 Dylunio adeiladau a phrosiectau adeiladu

Mae dylunio adeiladau a seilwaith yn effeithio'n drwm ar gynaliadwyedd amgylcheddol prosiectau adeiladu. Bydd y maes gwaith hwn yn canolbwyntio ar annog defnydd ehangach o amrywiaeth o egwyddorion dylunio cynaliadwy:

- Dylunio ar gyfer ailddefnyddio ac adfer.
- Dylunio ar gyfer adeiladu oddi ar y safle.
- Dylunio ar gyfer sicrhau'r deunyddiau gorau posibl.
- Dylunio ar gyfer caffael sy'n effeithlon o ran gwastraff.
- Peirianeg gwerth (ar gyfer prosiectau mawr).
- Dylunio ar gyfer dadadeiladu a hyblygrwydd.

Ecoddylunio o fewn prosiectau adeiladu

Ceir 5 ymagwedd ecoddylunio gydnabyddedig, a gellir defnyddio'r pedair ganlynol gyda deunyddiau a phrosiectau adeiladu i gynorthwyo gydag atal gwastraff:

- **Meddwl Cylch bywyd** - ystyried effeithiau llawn cylch bywyd cynnyrch, deunydd pacio neu wasanaeth. Mae hyn yn cynnwys echdynnu deunydd, gweithgynhyrchu, dosbarthu, manwerthu, defnyddio a diwedd bywyd. Gall Cwblhau Asesiad Cylch Bywyd wneud cymhariaeth rhwng opsiynau dylunio gwahanol gan alluogi dewis yr opsiwn lleiaf niweidiol.
- **Dylunio ar gyfer Datgymalu** – ystyried ffordd hawdd o wahanu'r gwahanol fathau o ddeunydd oddi wrth gynnyrch pan fydd ei fywyd defnyddiol wedi dod i ben, i alluogi ailgylchu effeithiol.
- **Lleihau** effaith negyddol cynnyrch ar yr amgylchedd, er enghraifft drwy gael gwared ar gemegion neu ddeunyddiau peryglus, heb effeithio ar y dyluniad.
- **Ailddylunio** y cynnyrch neu system y cynnyrch, er enghraifft drwy ailddylunio'r cynnyrch i fanteisio ar ddeunyddiau mwy cynaliadwy a dulliau cynhyrchu glanach.

Yn ddelfrydol byddai ecoddylunio'n dod yn llinyn sy'n rhedeg drwy waith dylunio, cynllunio a datblygu pob gweithgarwch adeiladu. Gall sicrhau nad yw adeiladu yn digwydd ar ei ben ei hun, ond bod safbwynt cyfannol, cylch bywyd gyda phroses ragorol o reoli adnoddau yn cael ei defnyddio. Bydd Llywodraeth Cymru yn cynorthwyo'r defnydd o ymagweddau ecoddylunio yn y sector yng Nghymru.

Atebion dylunio ar gyfer cynnyrch adeiladu

Bydd Llywodraeth Cymru yn ceisio gweithio gyda gweithgynhyrchwyr cynnyrch adeiladu i nodi atebion ecoddylunio i broblemau aneffeithlonrwydd cynhyrchu, cynhyrchu gwastraff etifeddol ac ailgylchadwyedd. Gallai hyn gynnwys (ymhlith pethau eraill) canolbwyntio ar hyrwyddo a datblygu Dulliau Modern o Adeiladu yn ogystal ag atebion symlach megis defnyddio meintiau safonol ar gyfer deunyddiau i helpu i leihau swm yr alldoriadau a gynhyrchir ar y safle.

Annog y defnydd o beirianeg gwerth ar gyfer prosiectau adeiladu mawr

Bydd Llywodraeth Cymru yn annog trosglwyddo dysgu ac arfer gorau o sector y peirianwyr sifil i'r sector adeiladu drwy godi ymwybyddiaeth o ddull peirianeg gwerth a dulliau cysylltiedig a hyrwyddo'r defnydd o hyn.

Dylunio sy'n atal gwastraff

Bydd Llywodraeth Cymru yn ceisio codi ymwybyddiaeth o 'ddylunio sy'n atal gwastraff' ymhlith cleientiaid, dylunwyr a phenseiri a'u hannog i ddefnyddio'r egwyddorion hyn ar ddechrau prosiect adeiladu.

Gwneud caffael sy'n ymwneud ag adeiladu yn fwy gwyrdd

Sefydlwyd Strategaeth Gaffael Gwaith Adeiladu Llywodraeth Cymru gan y Gweinidog Cyllid, Jane Hutt, mewn ymateb i adroddiad 2010 Adeiladu Arbenigrwydd yng Nghymru "No Turning Back"³⁰. Lanswyd y strategaeth yn ffurfiol gan y Gweinidog ar 15 Gorffennaf 2013. Er ei bod wedi'i hanelu'n bennaf at y sector cyhoeddus fel y cleient adeiladu mwyaf yng Nghymru, bydd y strategaeth yn amlygu enghreifftiau o arfer gorau a fydd yn berthnasol i gleientiaid y sector preifat hefyd. Ceir cysylltiadau clir rhwng y strategaeth a chyfluoedd i atal gwastraff, a bydd y rhain yn cael eu cyfathrebu i'r diwydiant.

Yn ogystal, bydd adolygiad o'r amrywiaeth o ganllawiau a dulliau sydd ar gael i gynorthwyo busnesau ym maes caffael.

Cynlluniau Rheoli Gwastraff ar Safleoedd

Diben cynlluniau rheoli gwastraff ar safleoedd yw helpu cwmnïau yn y sector adeiladu a dymchwel i feddwl am wastraff a chynllunio i'w atal, lleihau ac ailgylchu'r gwastraff sy'n cael ei gynhyrchu a dargyfeirio gwastraff i ffwrdd o safleoedd tirlenwi. Maent yn ddull pwysig, sy'n darparu fframwaith sy'n annog effeithlonrwydd adnoddau a lleihau gwastraff, ailgylchu ac ailddefnyddio ar y safle ac oddi ar y safle. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymgynghori ar gyflwyno

30 Nac oedd Troi Nôl: The Case for a Renewed Emphasis on Best Value and Collaborative Working in Public Sector Construction Procurement – Adeiladu Arbenigrwydd yng Nghymru, 2010

Rheoliadau Cynllun Rheoli Gwastraff Safle ac ar hyn o bryd mae'n ystyried opsiynau o ran y ffordd orau o gynyddu eu defnydd yng Nghymru.

4.2.2.2 Dylunio cynnyrch adeiladu

Yn yr un modd â dylunio adeiladau a phrosiectau, mae dylunio cynnyrch adeiladu'n effeithio'n drwm ar gynaliadwyedd amgylcheddol prosiect adeiladu.

Cynnyrch adeiladu cynaliadwy

Mae dwy restr o ddeunyddiau adeiladu, wedi'u nodweddu mewn perthynas â'u heffaith amgylcheddol, wedi'u llunio gan Ganolfan Ecoddylunio Cymru ar ran Llywodraeth Cymru. Y cam nesaf yw archwilio systemau presennol, yn enwedig system BASTA³¹ (Arweiniad ar Ddeunyddiau Adeiladu Cynaliadwy) a ddatblygwyd yn Sweden, gyda'r posibilrwydd o ddatblygu system debyg i'w defnyddio yng Nghymru. Yn ogystal, bydd cyfleoedd i gael mwy o ddylanwad ar weithgynhyrchwyr cynnyrch adeiladu drwy Reoliadau Cynhyrchion Adeiladu yr UE, a ddaeth i rym ar 1 Gorffennaf 2013.

Atebion dylunio ar gyfer cynnyrch adeiladu

Bydd Llywodraeth Cymru yn ymchwilio i opsiynau ar gyfer gweithio gyda gweithgynhyrchwyr cynnyrch adeiladu i nodi atebion ecoddylunio i broblemau aneffeithlonrwydd cynhyrchu, cynhyrchu gwastraff etifeddol ac ailgylchadwyedd. Gallai hyn gynnwys (ymhlith pethau eraill) canolbwyntio ar hyrwyddo a datblygu Dulliau Modern o Adeiladu yn ogystal ag atebion symlach megis defnyddio meintiau safonol ar gyfer deunyddiau i helpu i leihau swm yr alldoriadau a gynhyrchir ar y safle.

4.2.2.3 Difrod i gynnyrch adeiladu sy'n cael eu cludo

Amcangyfrifir ar gyfartaledd y bydd rhwng 5 a 15 y cant o ddeunyddiau a archebir ar gyfer prosiect adeiladu yn cael ei 'wastraffu' yn sgil difrod wrth eu cludo neu eu storio'n anghywir ac ati. Mae hyn yn arwain at y cwmni adeiladu yn archebu gormod. Bydd ymdrech i ddod o hyd i atebion deunydd pacio a thrafnidiaeth sy'n sicrhau cyn lleied o ddifrod â phosibl, ac anogir y diwydiant adeiladu a rhoddir canllawiau clir iddynt gan Adeiladu Arbenigrwydd yng Nghymru ynghylch y ffordd gywir o storio deunyddiau ar y safle.

Addysg a chyfarwyddyd

Mae cynyddu ymwybyddiaeth am atal gwastraff yn y sector yn gam hollbwysig o ran cynorthwyo i gyflawni targedau atal gwastraff. Rydym yn gwella ymwybyddiaeth drwy ddatblygu, gyda phartneriaid, nifer o ddogfennau arweiniad, gan gynnwys ond heb eu cyfyngu i arweiniad i weithgynhyrchwyr i sicrhau bod eu cynnyrch yn cael ei drin yn briodol i leihau'r risg o ddifrod/gwastraff.

³¹<http://www.bastaonline.se/english/bastaonline/aboutbasta.4.386979f513a1a34373978f.html>

4.2.2.4 Adeiladwyr yn archebu gormod

Gellir datrys y mater hwn yn rhannol drwy fynd i'r afael â materion difrod, ond dylid hefyd edrych o'r newydd ar archebu. Ceir dulliau archebu sy'n sicrhau'r cynhyrchiant mwyaf posibl ac osgoi gwastraff ar yr un pryd. Bydd y rhain yn cael eu hyrwyddo i'w defnyddio gan gwmnïau adeiladu. Mae pwysau amser yn aml yn cael ei ddyfynnu fel rheswm dros archebu gormod; yn aml does dim amser yn yr amserlen i aros i ddeunyddiau ychwanegol gyrraedd y safle, felly er mwyn osgoi cosbau am or-redeg o ran amser bydd y cwmni adeiladu'n archebu symiau gormodol o ddeunyddiau ar ddechrau'r prosiect.

Bydd angen i'r sector cyhoeddus roi mwy o bwyslais ar effeithlonrwydd adnoddau ac atal gwastraff wrth gaffael prosiectau adeiladu, a rhoi llai o bwysau amser ar brosiectau adeiladu. Lansiodd Llywodraeth Cymru ei Strategaeth Caffael Adeiladu ym mis Gorffennaf 2013 ac mae'n cynnwys "ymrwymiad a rennir" y bydd "Prosiectau yn ymgorffori ymagweddau arfer gorau at y defnydd o adnoddau, lleihau gwastraff, perfformiad carbon isel, cyflogaeth, hyfforddi ac ymgysylltu â'r gymuned".

Lleihau'r 'ffactor gwastraff'

Bydd Llywodraeth Cymru yn gofyn i Adeiladu Arbenigrwydd yng Nghymru ymchwilio i ymarferoldeb cyflwyno cynllun archebu 80:20 y cant yng Nghymru er mwyn lleihau gwastraff drwy archebu gormod. Mae cynllun tebyg yn mynd rhagddo ar hyn o bryd yn Ne-ddwyrain Lloegr a gellid defnyddio'r canlyniadau i asesu manteision posibl cynllun o'r fath yng Nghymru. Bydd yr astudiaeth ymarferoldeb yn cynnwys adolygiad o arfer presennol ac adolygiad/barn/adborth y diwydiant.

4.2.2.5 Defnyddio cynnyrch dros ben a gynhyrchwyd ar y safle

Mae'n anochel y bydd rhai prosiectau na fyddant yn defnyddio'r cyfan o'r deunyddiau a archebwyr ganddynt, ac ar gyfer yr achosion hyn dylid sicrhau bod cyfleusterau ar gael i gwmnïau ddyddodi deunyddiau dros ben i'w defnyddio gan eraill. Ceir nifer o opsiynau ar gyfer y deunydd hwn gan gynnwys y masnachwr gwreiddiol yn ei gymryd yn ôl a'i werthu, safleoedd dod â gwastraff a gynhelir gan fusnesau neu fentrau cymdeithasol (gyda gwefannau cysylltiedig i roi cyhoeddusrwydd i'r stoc sydd ar gael), a chanolfannau casglu i'w defnyddio gan elusennau, landlordiaid tai cymdeithasol a'r rhai ar incwm isel. Mae heriau gyda'r model hwn o ran bod yn rhaid iddo sicrhau bod y deunydd yn cyd-fynd â'r galw, ond mae'n addawol a gallai olygu manteision eang o ran cynaliadwyedd.

Cymorth Llywodraeth Cymru i fusnesau bach a chanolig aildefnyddio deunyddiau dros ben

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyllido datblygu llwyfan ar y rhyngwrdd i alluogi'r diwydiant adeiladu, yn enwedig busnesau bach a chanolig, i wneud deunyddiau gwared sy'n addas i'w haildefnyddio yn weladwy i ddarpar ddefnyddwyr. Wedi'i lansio yn wreiddiol fel Builderscrap a'i ail-frandio fel Recipro Wales, lansiwyd y safle yng Nghymru yng Nghynhadledd Ffederasiwn y Meistr Adeiladwyr yn Abertawe ar 13 Tachwedd 2010. Mae'n galluogi adeiladwyr i lanlwytho manylion unrhyw ddeunyddiau adeiladu dros ben a'u hysbysebu i eraill yn y diwydiant er mwyn eu haildefnyddio.

Mae'r cysyniad wedi'i dreialu'n helaeth a'i ddatblygu dros gyfnod o dair blynedd. Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i ddarparu, datblygu a chodi ymwybyddiaeth o'r dull hwn i alluogi'r diwydiant adeiladu, ac yn enwedig busnesau bach a chanolig, i aildddefnyddio ei deunyddiau gwarged.

Seilwaith i gynorthwyo aildddefnyddio deunyddiau dros ben er budd y gymuned
Gofynnodd Llywodraeth Cymru i Adeiladu Arbenigrwydd yng Nghymru, gan weithio gyda Cylch, bennu ymarferoldeb sefydlu rhwydwaith o ganolfannau deunyddiau dros ben i ailddosbarthu deunyddiau adeiladu a chynnyrch dros ben yng Nghymru. Ym mis Gorffennaf 2012, agorodd Gweinidog yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy y ganolfan deunydd dros ben gyntaf, Reciprocity Cardiff, sydd wedi'i sefydlu i dderbyn deunyddiau adeiladu dros ben a'u hailddosbarthu i brosiectau a chynlluniau cymunedol, i'w haildddefnyddio.

4.2.2.6 Dymchwel ac adnewyddu adeiladau

Ceir cryn le i gynyddu aildddefnyddio a pharatoi ar gyfer aildddefnyddio deunyddiau a chydrannau adeiladu sy'n codi yn ystod gwaith adnewyddu a dymchwel adeiladau. Mae yna hefyd gyfleoedd o ran arbed eitemau pensaernïol. Bydd pwyslais ar godi ymwybyddiaeth o'r cyfleoedd hyn yn y sector ac yn ehangach i'w sylfaen cleientiaid. Oherwydd bod atal ar frig yr hierarchaeth gwastraff, dylai asesu'r potensial i aildddefnyddio fod yn gam cyntaf wrth ddymchwel neu adnewyddu adeilad. Mae'r meddylfryd hwn yn debygol o gael effaith ddilynol ar wella cynaliadwyedd amgylcheddol unrhyw opsiynau rheoli gwastraff o ganlyniad i hyn.

Gallai caffael cyhoeddus unwaith eto chwarae rhan i annog adnewyddu a dymchwel cynaliadwy, a chynhyrchu astudiaethau achos i'w lledaenu. Bydd hyn yn cael ei drafod yng Nghynllun y Sector Cyhoeddus.

Dylunio ar gyfer Dadadeiladu (D4D)

Bydd Llywodraeth Cymru yn annog dylunwyr/penseiri i ddylunio ar gyfer diwedd bywyd yr adeilad. Bydd hyn yn sicrhau bod y deunyddiau a ddefnyddiwyd wrth adeiladu'r datblygiad yn cynnwys canran uchel o gynnwys wedi'i ailgylchu (gan helpu i greu marchnad ar gyfer deunyddiau a chynnyrch wedi'u hailgylchu) ac y gellir naill ai aildddefnyddio neu ailgylchu'r deunyddiau drwy gydol bywyd yr adeilad. Byddwn yn gweithio i gynyddu ymwybyddiaeth o bwysigrwydd dylunio ar gyfer diwedd bywyd. Bydd hyn yn cynnwys: Datblygu cyfres o safonau dylunio ar gyfer mathau o adeiladau cyffredin; gweithio gydag eraill i hyrwyddo egwyddorion dylunio ar gyfer dadadeiladu o fewn systemau/safonau presennol; gweithio gyda phartneriaid i ddatblygu canllawiau i'w defnyddio; a lledaenu deunydd hyfforddi/arwain drwy ddigwyddiadau/gweminarau /gwefannau.

4.2.2.7 Adolygiad o fesurau ychwanegol a awgrymir yn ystod yr ymgynghoriad

Yn ystod y cyfnod ymgynghori, cynhaliwyd gweithdy gyda nifer o gynrychiolwyr o bob rhan o'r sector. Awgrymwyd amrywiaeth o fentrau i fynd i'r afael â chwe maes gwaith allweddol ac fe'u rhestrir isod. Bydd y rhain yn cael eu hadolygu'n fanylach, a lle y bo'n briodol eu datblygu drwy brosiectau gweithredu adeiladu a dymchwel:

Dylunio prosiectau adeiladu a chynnyrch adeiladu

- Canllawiau cynllunio i annog deunyddiau o faint safonol; defnyddio penseiri a gweithwyr proffesiynol cymwys i sicrhau bod prosiectau'n cael eu rheoli; mae angen cydgysylltu o ran Dylunio a Rheoli Adeiladu.
- Cyflwyno llawlyfrau tŷ - cofnodi pwy a wnaeth ei adeiladu, beth/sut/pryd (at ddibenion cynnal a chadw).
- Annog dylunio 'cartrefi' nid tai h.y. adeiladu ar gyfer hirhoedledd. Gellid annog awdurdodau lleol i gynnig plotiau hunanadeiladu yn hytrach na phlotiau mwy ar gyfer datblygiadau tai mawr.
- Annog adnewyddu yn hytrach na dymchwel ac adeiladau newydd. Ar hyn o bryd mae cymhelliant TAW ar gyfer adeiladau newydd ond nid ar gyfer ailfodelu eiddo.

Difrod i gynnyrch adeiladu wrth eu cludo a'u storio

- Annog fforymau cadwyni cyflenwi ar gyfer prosiectau ar raddfa fawr i alluogi cynllunio defnydd effeithlon o ddeunyddiau a meithrin ethos gwell yn ymwneud â 'pherchenogaeth' gwastraff a rheoli safle.
- Ystyried siarter / cytundeb / safon (yn seiliedig ar ganran y difrod) ar draws y sector ar gyfer: y sector trafndiaeth i annog arfer gorau (deunydd pacio a ddefnyddir i gludo; trefnu llwythi i leihau symud wrth gludo ac ailddefnyddio paledi / eu derbyn yn ôl).

Adeiladwyr yn archebu gormod a defnyddio cynnyrch gormodol a gynhyrchir ar y safle

- Contractau safonol oddi ar y silff gyda chyfraith achosion wedi'i hadeiladu o'i hamgylch a chymalau perthnasol.
- Cynllun gwastraff safonol fel rhan o'r contract ond gyda hyblygrwydd i'r contractwr ei newid h.y. cynnig y gellir ei drafod.
- Datganiad cenhadaeth strategol gan Lywodraeth Cymru yn ystyried blaenoriaethau sy'n cystadlu e.e. manteision cymunedol - llafur lleol - dewis.
- Ystyried deddfwriaeth bosibl - caffael ar gyfer gwerth gorau nid y rhataf; targedau i annog e.e. uchafswm gwastraff o 10 y cant.

Dymchwel ac adnewyddu adeiladau

- Mae angen rhoi mwy o addysg i gleientiaid o ran adnewyddu neu ddadadeiladu i ailddefnyddio/aigylchu yn lle dymchwel.
- Annog cyfleoedd i gleientiaid, cwmnïau dymchwel a chwmnïau arbed eitemau pensaernïol gydweithio'n agosach i neilltuo amser mewn contractau er mwyn adfer nodweddion pensaernïol a deunyddiau adeiladu cyn dymchwel.

4.3 Monitro Cynnydd

4.3.1 Cynnydd yn erbyn y targed cenedlaethol

Y targed atal gwastraff ar gyfer gwastraff adeiladu a dymchwel yw lleihad absoliwt o 1.4 y cant bob blwyddyn tan 2050 ar gyfer gwastraff a drinnir oddi ar y safle yn seiliedig ar linell sylfaen 2006/7.

Nid yw'r targed hwn yn un statudol, ond mae'n darged dangosol i ni gyd weithio gyda'n gilydd i sicrhau sector mwy cynaliadwy yn y dyfodol.

Ar hyn o bryd, mae data ar gyfer y targedau hyn yn cael eu casglu drwy arolygon cynhyrchu gwastraff achlysurol, ac adroddodd y diweddaraf ohonynt ar wastraff a gynhyrchwyd yn 2005/06. Mae strategaeth ddata'n cael ei datblygu sy'n asesu'r ffordd o gasglu data gwastraff yn y tymor byr, y tymor canolig a'r hirdymor. Mae arolwg o fusnesau adeiladu a dymchwel sy'n nodi gwastraff a gynhyrchwyd yn 2012 yn mynd rhagddo, a bydd yn cyflwyno adroddiad ar ddechrau 2014.

4.3.2 Dangosyddion cynnydd strategol

Defnyddir y dangosydd canlynol i fonitro cynnydd yn strategol, yn enwedig yn erbyn yr amcan o ddatgysylltu cynhyrchu gwastraff oddi wrth dwf economaidd.

- Gwastraff Adeiladu a Dymchwel a gynhyrchir fesul uned Gwerth Ychwanegol Crynswth (GYC).

Nid yw'r data a gasglwyd yn ystod arolygon blaenorol o wastraff Adeiladu a Dymchwel a gynhyrchwyd yn ddigon manwl i ganfod tueddiadau hanesyddol o ran datgysylltu. Bydd arolwg 2013 ac arolygon yn y dyfodol (neu ddulliau eraill o gasglu data) yn ceisio lleihau'r lefelau ansicrwydd er mwyn gallu olrhain y dangosydd.

4.3.3 Monitro cynnydd prosiectau gweithredu unigol

Ar hyn o bryd mae diffyg tystiolaeth gynhwysfawr ar effeithiolrwydd mesurau atal gwastraff, felly drwy fonitro ein prosiectau gweithredu, byddwn yn gallu asesu cynnydd yn fewnol a hefyd yn gallu cyfrannu at y sail dystiolaeth sy'n eiddo i'r cyhoedd.

Mae prosiectau gweithredu yn cael eu datblygu ar hyn o bryd, a byddant yn cael eu hategu gan gynlluniau monitro, targedau neu ddangosyddion cysylltiedig fel y bo'n briodol. Bydd Llywodraeth Cymru yn coladu allbynnau o'r cynlluniau monitro ac yn adrodd ar gynnydd yn ei hadroddiad cynnydd blynyddol ar Tuag at Ddyfodol Diwastraff.

5 Ailddefnyddio

5.1 Cefndir

Mae Erthygl 11 o'r Gyfarwydddeb Fframwaith Gwastraff ddiwygiedig yn ei gwneud yn ofynnol bod Aelod-wladwriaethau yn cymryd camau, fel y bo'n briodol, i hyrwyddo ailddefnyddio cynnyrch a pharatoi ar gyfer gweithgarwch ailddefnyddio, yn enwedig drwy annog sefydlu a chynorthwyo rhwydweithiau ailddefnyddio a thrwsio, y defnydd o offerynnau economaidd, meini prawf caffael, amcanion meintiol neu fesurau eraill.

Mae Llywodraeth Cymru wedi asesu opsiynau i gynyddu ailddefnyddio, paratoi ar gyfer ailddefnyddio a thrwsio cynnyrch cartref, busnes ac adeiladu a dymchwel sy'n mynd i'r system wastraff ar hyn o bryd.

Ystyriwyd tri dewis tan 2025:

- Mae **Busnes fel arfer** yn ystyried yr hyn y gellid ei gyflawni os bydd y gweithgarwch presennol yn parhau.
- Mae **Gwireddu Potensial Presennol y Farchnad** yn ystyried effaith cynyddu ailddefnyddio i fodloni lefelau presennol y galw am nwyddau wedi'u hailddefnyddio.
- Mae **Potensial Ymarferol a Wireddwyd** yn ystyried sut y gallai potensial technegol ymarferol ar gyfer ailddefnyddio gael ei wireddu, gan gynnwys trwsio lle y mae'n economaidd ymarferol.

Mae'r wybodaeth sydd ar gael yn nodi:

- Ar hyn o bryd, mae tua 50,000 tonnall o eitemau'r cartref yn cael eu hailddefnyddio neu eu hanfon i'w hailddefnyddio gan gartrefi Cymru, sy'n cyfateb i 3 y cant o wastraff solet trefol.
- Yn 2011, gwnaeth cartrefi yng Nghymru waredu cynnyrch â gwerth ailwerthu posibl o £140 miliwn.
- Mae ailddefnyddio dodrefn swyddfa ac eitemau trydanol yn cyfrif am 0.1 y cant o wastraff diwydiannol a masnachol. Yn 2011, gwnaeth busnesau waredu cynnyrch â gwerth ailwerthu o £14 miliwn.

Ar gyfer yr holl eitemau, amcangyfrifir bod y gwerth ailwerthu dros £2,000 fesul tonnall.

Erbyn 2025, amcangyfrifir y gallai cynnydd o 20 y cant o ran ailddefnyddio eitemau'r cartref a masnachol a diwydiannol ddigwydd yn seiliedig ar weithgarwch presennol. Byddai manteisio ar hyn yn creu swyddi, cyfleoedd gwirfoddoli, lleoedd hyfforddi a lleoliadau gwaith.

Mae Tuag at Ddyfodol Diwastraff yn amlinellu targed o leihau gwastraff o gartrefi 27 y cant erbyn 2025, a hynny o linell sylfaen 2007. Gallai cynnydd o ran aildddefnyddio cynnyrch nad ydynt yn mynd i'r ffrwd wastraff ddarparu 7 y cant o'r gostyngiad gofynnol.

5.2 Rhaglen trwsio ac aildddefnyddio yng Nghymru

Mae Llywodraeth Cymru yn datblygu'r mentrau isod, a fydd gyda'i gilydd yn ffurfio rhaglen trwsio ac aildddefnyddio yng Nghymru.

5.2.1 Eitemau trydanol

Mae'r wybodaeth sydd ar gael yn awgrymu, o dan y sefyllfaoedd a fodelwyd ar gyfer 'gwerth posibl y farchnad a wireddwyd' a 'photensial mwyaf posibl ymarferol a wireddwyd', bod y galw yn fwy na'r cyflenwad ar gyfer eitemau trydanol. Felly mae cyfle i gynyddu'r cyflenwad o eitemau trydanol i'w haildddefnyddio i ateb y galw hwnnw.

Dyma'r opsiynau sy'n cael eu datblygu:

- Codi ymwybyddiaeth drwy ymgyrch gyfathrebu i gynyddu'r cynnyrch trydanol a roddir gan ddeiliaid tai i'w haildddefnyddio.
- Cytundeb gwirfoddol i annog casglu ar wahân mewn cyfleusterau casglu dynodedig a gweithio gyda chyfleusterau trin awdurdodedig a gymeradwywyd (AATF) i annog mwy o drwsio, aildddefnyddio ac ailwerthu yn eu cyfleusterau.
- Ymchwil i nodi cyfran yr eitemau trydanol gwastraff sy'n mynd i AATF sy'n addas ar gyfer ei haildddefnyddio.

5.2.2 Dodrefn

Mae'r wybodaeth sydd ar gael yn awgrymu, o ran y sefyllfaoedd a fodelwyd ar gyfer 'gwerth posibl y farchnad a wireddwyd' a 'photensial mwyaf posibl ymarferol a wireddwyd', bod y galw yn fwy na'r cyflenwad ar gyfer dodrefn. Felly mae cyfle i gynyddu'r cyflenwad o ddodrefn i'w haildddefnyddio i ateb y galw hwnnw.

Dyma'r opsiynau sy'n cael eu datblygu:

- Caffael Gwyrdd – ei gwneud yn ofynnol i gyfran o'r angen am ddodrefn ddod o ffynonellau wedi'u haildddefnyddio.
- Prosiect/arbrawf arddangos i'w ddatblygu ar gynllun cyfrifoldeb cynhyrchydd estynedig ar gyfer dodrefn.

5.2.3 Dillad

Mae'r wybodaeth sydd ar gael yn awgrymu bod yr amcangyfrifon presennol ar gyfer ailddefnyddio dillad yng Nghymru yn nodi bod galw defnyddwyr am ddillad wedi'i ailddefnyddio yn is na'r cyflenwad; felly ceir cyfle i gynyddu nifer y rhai sy'n prynu dillad wedi'i ailddefnyddio i gadw dillad a roddir i'w hailddefnyddio yng Nghymru.

Mae'r opsiwn canlynol yn cael ei ddatblygu:

- Ymgyrch gyfathrebu i gynyddu'r dillad wedi'i ailddefnyddio a brynir.

5.2.4 Mesurau cyffredinol

Mae Rhwydwaith Ailddefnyddio well hefyd yn opsiwn sy'n cael ei ystyried ar gyfer ei ddatblygu. Byddai hyn yn adeiladu ar y seilwaith presennol ar gyfer ailddefnyddio gan gynnwys o bosibl:

- Rhannu warysau.
- Sefydlu llinell ffôn.
- Cyfathrebu cyhoeddus a gweithgarwch arall.

Mae'r rhwydwaith hwn yn ategu'r opsiynau uchod.

Mae WRAP yn datblygu safon gyffredinol ar gyfer ailddefnyddio. Nod y safon yn y pen draw yw galluogi sefydliadau ailddefnyddio i gynnig cynnyrch wedi'u hailddefnyddio a fu'n destun proses sicrhau ansawdd ac felly meithrin hyder yn y sector a chynorthwyo ei ddatblygiad. Gellir defnyddio'r safon i gynorthwyo datblygu Rhwydwaith Ailddefnyddio.

6 Y Camau Nesaf

6.1 Prosiectau gweithredu

Caiff prosiectau gweithredu ac unrhyw dargedau a chynlluniau monitro cysylltiedig eu datblygu.

6.2 Cynllun Data a Thystiolaeth

Er mwyn asesu dichonoldeb ein prosiectau gweithredu, sicrhau ein bod yn gwireddu manteision, a gwerthuso ein perfformiad, mae angen i ni gael gafael ar ddata a thystiolaeth briodol. Rydym yn llunio Strategaeth Data a Thystiolaeth i amlinellu ein gofynion a nodi ffynonellau addas, a chynllun ar gyfer coladu a dadansoddi'r data a thystiolaeth arall yn brydlon ac yn effeithiol i ategu datblygu a chyflawni polisi.

6.3 Monitro Cynnydd

Bydd targedau a dangosyddion lefel uchel yn cael eu monitro ar lefel Cymru gyfan i'n helpu i fonitro a ydym ar y trywydd iawn i gyflawni ein nod o 'fyw un blaned' erbyn 2050.

Bydd gan y prosiectau gweithredu eu gofynion monitro eu hunain, a chaiff y canlyniadau eu cofnodi a'u dadansoddi i sicrhau ein bod yn cael gwerth am arian o'n gwaith.

Cyflwynir adroddiad cynnydd blynyddol ar wefan Llywodraeth Cymru.

6.4 Cyflwyno adroddiad Comisiwn Ewropeaidd

Byddwn yn cyflwyno adroddiad i'r Comisiwn Ewropeaidd i gadarnhau ein bod wedi llunio'r rhaglen atal gwastraff, fel sy'n ofynnol gan ddeddfwriaeth yr UE.

Atodiad A Effaith yr economi, gweithgarwch busnes ac ysgogwyr demograffig ar y gwastraff a gynhyrchir

A.1 Gwastraff Cartref

Comisiynodd Llywodraeth Cymru asesiad o'r duedd mewn gwastraff o gartrefi a gynhyrchir yng Nghymru, y gellir ei ganfod fel dogfen ar wahân yn y sail dystiolaeth ar gyfer y rhaglen hon³².

Dros y blynyddoedd diwethaf, ers 2006, cafwyd gostyngiad yn y gwastraff o gartrefi a gynhyrchir yng Nghymru. Fodd bynnag ar gyfer llawer o'r amser hwn mae'r wlad wedi bod mewn dirwasgiad, felly mae'n anodd penderfynu a yw hon yn duedd a fydd yn parhau yn y dyfodol.

Mae rhagolwg yr ymchwilyr ar gyfer y gwastraff a gynhyrchir yn y dyfodol yn awgrymu os bydd yr economi'n adfer, fel y mae Llywodraeth y DU yn ei ragweld, bydd y gwastraff a gynhyrchir yn gwastatu ac yna'n cynyddu eto. I leihau'r posibilrwydd o hyn yn digwydd, mae'n bwysig bod polisiâu a mentrau ar gyfer atal gwastraff yn cael eu cyflwyno cyn gynted â phosibl. Mae'r adroddiad hefyd yn trafod a yw datgysylltu yn anochel wrth i boblogaeth gwlad ddod yn fwy ffyniannus. Ceir dadl bod gwariant ymylol cartrefi, wrth iddynt ddod yn gyfoethocach, yn mynd tuag at eitemau dewisol sy'n cynhyrchu llai o wastraff. Er enghraifft, bydd y cartref yn bwyta yr un swm o fwyd ond efallai y byddant yn prynu o fanwerthwyr neu frandiau drutach. Efallai y byddant hefyd yn dewis gwario ar brofiadau megis teithio, aelodaeth campfa, digwyddiadau diwylliannol neu fwyta allan – nid yw'r rhain yn cyfrannu at wastraff o gartrefi.

A.2 Gwastraff Diwydiannol a Masnachol

Wrth reswm, bydd maint yr economi a'r mathau o fusnesau yn effeithio'n fawr ar y mathau a'r symiau o wastraff a gynhyrchir. Fodd bynnag, mae'r diffyg gwybodaeth reolaidd, gynhwysfawr am gynhyrchu gwastraff yn ei gwneud yn amhosibl cynnal asesiad o ddatgysylltu hanesyddol. Mae busnesau yn cael eu dylanwadu fwyfwy gan gynnydd yng nghost adnoddau ac mae rhai wedi ymateb gyda chamau gweithredu, gan arwain at effeithlonrwydd adnoddau ac atal gwastraff. Bydd cywirdeb ac amllder data gwastraff yn gwneud asesu datgysylltu yn anodd yn y dyfodol, ond drwy weithio tuag at dargedau atal absoliwt, gallwn fesur y rhain drwy ddata o arolygon busnes achlysurol.

³² Assessment of Trends in Household Waste arising in Wales, Eunomia (2012)


A.3 Gwastraff Adeiladu a Dymchwel

Pan gynhaliwyd yr arolwg gwastraff adeiladu a dymchwel (yn 2006), roedd gan y sector Adeiladu yng Nghymru drosiant o £7,432 miliwn³³ ac roedd yn cyflogi tua 110,000³⁴ o bobl, gan gynnwys y rhai hunangyflogedig. Roedd 40,170 o fusnesau, ac roedd 39,410 (98 y cant) ohonynt yn ficrofusnesau a gyflogai lai na 10 o weithwyr; roedd y gweddill yn adeiladwyr hunangyflogedig yn bennaf. Roedd cyfran sylweddol o'r gweithwyr adeiladu (>60 y cant) yn llafurwyr sgiliau isel³⁵.

Mae Mynegai Adeiladu Cymru³⁶ yn ddatganiad chwarterol a baratoir gan Lywodraeth Cymru. Mae'n dangos y symudiadau tymor byr yn allbwn economaidd y diwydiant adeiladu yng Nghymru, sy'n cyfrif am tua 7 y cant o economi Cymru. Mae Ffigur 11 yn dangos Mynegai Adeiladu Cymru a'r DU o Chwarter 4 1999 tan Chwarter 2 2013.

Gall tueddiadau tymor byr ym Mynegai Adeiladu Cymru fod yn gyfnewidiol. Ers 2008 (ar ddechrau dirwasgiad 2008-09) mae Cymru wedi wynebu gostyngiadau mwy o ran allbwn na'r DU. Rhwng ail chwarter 2010 a diwedd 2011 roedd Cymru wedi dilyn trywydd symudiadau'r DU yn fras. Ers hynny cynyddodd yr allbwn yng Nghymru yng nghanol 2012 gan adfer i lefelau yn uwch na'r DU cyn disgyn yn y ddau chwarter diweddaraf.

Ffigur 11 Mynegai adeiladu ar gyfer y DU a Chymru



Ffynhonnell: Ystadegau Cymru

33 Ystadegau Strwythur Busnes, ar gael o wefan StatsCymru.

34 ONS. Swyddi gweithleoedd yn ôl diwydiant (SIC 2007) - wedi'i addasu'n dymhorol.

35 LEK Consulting. Construction in the UK Economy: The Benefits of Investment. London: UK Contractors Group, 2009.

36 Ystadegau ar gyfer Cymru. Mynegai cynhyrchu Cymru a mynegai adeiladu Cymru Chwarter 2, 2013.

Atodiad B Gwerthuso mesurau ar gyfer y Rhaglen Atal Gwastraff

B.1 Mesurau ar gyfer Gwastraff o Gartrefi

Comisiynodd Llywodraeth Cymru waith i werthuso mesurau addas i leihau gwastraff o gartrefi³⁷. Mae'r adran hon yn crynhoi'r gwaith, y gellir ei weld yn y sail dystiolaeth ategol sy'n ategu'r rhaglen hon.

Roedd y gwaith yn cynnwys mapio gweithgarwch a pholisi presennol yn erbyn:

- Ei effaith o ran atal gwastraff.
- Y mesurau a restrir yn Atodiad IV o'r Gyfarwydddeb Fframwaith Gwastraff ddiwygiedig.
- Canlyniadau Datblygu Cynaliadwy.

Lluniwyd rhaglen amlinellol o weithgarwch i gyflawni'r targed atal gwastraff o - 1.2 y cant (o linell sylfaen 2007) y flwyddyn.

Pwysleisiodd y gwerthusiad hwn o weithgarwch presennol mai'r her ar gyfer y Rhaglen Atal Gwastraff hon yw nodi ffyrdd o sicrhau effeithiolrwydd mwyaf posibl mesurau sydd eisoes ar waith, yn hytrach na dod o hyd i fesurau ychwanegol newydd.

B.2 Mesurau ar gyfer Gwastraff Diwydiannol a Masnachol

Wrth baratoi'r rhaglen hon, comisiynodd Llywodraeth Cymru AMEC Environment and Infrastructure Ltd³⁸ i werthuso amrywiaeth o fesurau y gellid eu defnyddio i fynd i'r afael ag atal gwastraff mewn perthynas â gwastraff diwydiannol a masnachol.

Nododd y gwerthusiad y mesurau canlynol sy'n arwain yn uniongyrchol at atal gwastraff:

Ecoddylunio

Mae ecoddylunio yn ffordd strategol o feddwl am y broses ddylunio, gan ymgorffori ystyriaethau'n ymwneud ag effeithiau cynaliadwyedd cynnyrch, prosesau a deunydd pacio ar draws cylch bywyd cyfan y cynnyrch, o echdynnu deunyddiau crai i waredu ar ddiwedd bywyd. Mae ei ethos eang yn sicrhau bod atal gwastraff a defnyddio adnoddau yn cael eu hystyried ymhlith amrywiaeth eang o feini prawf ac ar draws y cylch bywyd, gan sicrhau'r canlyniadau cynaliadwyedd gorau ac osgoi canlyniadau negyddol anfwriadol.

³⁷ Evaluation of current activity and outline options for a waste prevention plan (adroddiad Cam 2), Brook Lyndhurst (2012)

³⁸ Evaluation of a range of Waste Prevention Initiatives for Industrial and Commercial wastes produced in Wales to support the Waste Prevention Programme, AMEC (2013)

Gellir defnyddio ecoddyllunio i atal gwastraff drwy newid y ffordd y mae cynnyrch yn cael eu dylunio i leihau swm a math y deunydd mewn cynnyrch (gan gynnwys natur beryglus); gwella hirhoedledd; dylunio ar gyfer ailddefnyddio, ail-weithgynhyrchu, gwahanu ac ailgylchu.

Modelau Busnes sy'n Effeithlon o ran Adnoddau

Gall modelau busnes sy'n effeithlon o ran adnoddau arwain at fanteision amgylcheddol ac economaidd sylweddol, a gallant fod ar sawl ffurf gan gynnwys systemau gwasanaeth, llogi a phrydlesu a systemau dychwelyd â chymhelliant. Mae modelau busnes newydd yn aml yn galw am arweinyddiaeth arloesol gref o fewn y busnes, am eu bod yn gwyro oddi wrth y model traddodiadol o weithgynhyrchu a gwerthu cynnyrch. Mae'r cynnydd yng ngwerth ariannol adnoddau yn gysylltiedig ag ymwybyddiaeth o faterion cynaliadwyedd wedi arwain at arloesedd ymhlith nifer cyfyngedig o fusnesau, ond mae angen ysgogi mwy o arloesedd er mwyn gwireddu manteision llawn datblygu cynaliadwy.

Mae gan gynnyrch ag effaith amgylcheddol uchel, gan gynnwys dillad a thecstilau eraill, dodrefn cartrefi a gweithleoedd, cemegion, a chyfarpar trydanol ac electronig, botensial yng nghyd-destun modelau busnes sy'n effeithlon o ran adnoddau.

Caffael gwyrdd a chadwyni cyflenwi

Mae mesurau cadwyn gyflenwi a chaffael gwyrdd yn ysgogydd pwysig o ran newid yn y sector diwydiannol a masnachol, lle mae busnesau'n aml yn cael eu llywio gan anghenion a dymuniadau'r rhai ymhellach i fyny'r gadwyn gyflenwi. Mae gallu busnesau mawr a'r sector cyhoeddus i weithredu ymagweddau o'r brig i lawr a dylanwadu ar fusnesau yn eu cadwyn gyflenwi yn bwysig o ran annog atal gwastraff.

Gall prosesau caffael sefydliad ddylanwadu ar wastraff mewn dwy ffordd: fel dull ar gyfer newid mewnol - lle mae'r cynnyrch y maent yn dewis eu prynu yn cael eu newid (megis gostyngiadau mewn papur swyddfa neu ddefnyddio deunydd pacio y gellir ei ailddefnyddio); neu fel dull ar gyfer newid allanol lle maent yn dylanwadu ar gyflenwyr a rhanddeiliaid³⁹.

39 Oakdene Hollins (2011) 'Business Waste Prevention Evidence Review'. Ar gael o

<http://randd.defra.gov.uk/Default.aspx?Menu=Menu&Module=More&Location=None&Completed=0&ProjectID=17499>

Mesurau Ategol

Gwnaeth adroddiad AMEC hefyd nodi'r mesurau canlynol y gellid eu defnyddio er mwyn gweithredu'r prif fesurau uchod, naill ai ar eu pen eu hunain neu fel casgliad o fesurau:

Mesurau Galluogi - mae'r rhain yn ategu'r prif fesurau:

- Dogfennau Ymwybyddiaeth ac Arweiniad.
- Grantiau a Benthyciadau.
- Hyrwyddo a datblygu ymchwil a datblygu.
- Defnyddio Rhwydweithiau.
- Trethi.
- Deddfwriaeth.
- Rhaglenni hyfforddi.
- Cytundebau Gwirfoddol.
- Rhaglenni busnes wedi'u hariannu.
- Adnoddau a Dulliau Integredig.

Mesurau sy'n dangos llai o addewid o ran atal gwastraff:

(Ni ddylid dibynnu ar y mesurau hyn ar eu pennau eu hunain i sicrhau newid, ond gellid eu defnyddio fel mesurau ategol (e.e. ecolabelu i gyfeirio busnesau pan fyddant yn prynu) neu eu defnyddio i roi cyhoeddusrwydd i lwyddiant (e.e. gwobrau)):

- Gwobrau.
- Eco-labelu.
- Systemau Rheoli Amgylcheddol.

B.3 Mesurau ar gyfer Gwastraff Adeiladu a Dymchwel

Mae darn o waith wedi'i gynnal gan AMECA Environment and Infrastructure Ltd (gweler yr adroddiad a gyhoeddwyd fel rhan o'r sail dystiolaeth), i werthuso amrywiaeth o fesurau y gellid eu defnyddio i fynd i'r afael ag atal gwastraff yn y sector adeiladu a dymchwel. Roedd hwn yn ddarn o waith lefel uchel, gan ddefnyddio tystiolaeth bresennol, ac nid oedd wedi'i gynllunio i baratoi ein rhaglen o waith yn y maes hwn ond yn hytrach i gyfeirio'r broses o ddatblygu'r rhaglen a'i gweithredu.

Argymhellodd yr adroddiad y byddai'r mesurau canlynol yn arwain yn uniongyrchol at atal gwastraff:

- Eco-ddylunio.
- Caffael Preifat Gwyrdd a dylanwad ar y gadwyn gyflenwi.
- Caffael Cyhoeddus Gwyrdd.
- Cyfnewid Adnoddau.

Mesurau Galluogi - mae'r rhain yn ategu'r prif fesurau:

- Grantiau a Benthyciadau.
- Talebau Arloesedd.
- Rhwydweithiau.
- Pecynnau Cymorth.
- Cofrestr Cynnyrch Adeiladu.
- Eco-labelu.
- Dogfennau canllaw.
- Rheoleiddio.
- Cynlluniau Rheoli Gwastraff ar Safleoedd.
- Safonau.
- Rhaglenni busnes wedi'u hariannu.

Mesurau na ddylid dibynnu arnynt ar eu pennau eu hunain i sicrhau newid, ond gellid eu defnyddio fel mesurau ategol (e.e. ymgyrchoedd gwybodaeth) neu gael eu defnyddio i roi cyhoeddusrwydd i lwyddiant (e.e. gwobrau):

- Gwobrau.
- Ardystio.
- Ymgyrchoedd gwybodaeth.

Atodiad C Fframwaith Polisi a Mentrau ar Lefel Ewropeaidd

Mae'r detholiad canlynol o ganllawiau'r Comisiwn Ewropeaidd ar raglenni atal gwastraff yn disgrifio mentrau perthnasol ar y lefel Ewropeaidd.

Strategaeth Datblygu Cynaliadwy yr UE

Un o'r heriau allweddol a amlygwyd yn Strategaeth Datblygu Cynaliadwy ddiwygiedig yr EU ar gyfer 2006 yw gwella'r broses o reoli adnoddau naturiol ac osgoi eu gorddefnyddio. Ei brif dargedau yw osgoi cynhyrchu gwastraff a gwella'r defnydd effeithlon o adnoddau naturiol.

Y Strategaeth Thematig ar Atal Gwastraff ac Ailgylchu

Mae'r Strategaeth Thematig ar Atal ac Ailgylchu Gwastraff a fabwysiadwyd yn 2005 yn nodi fel nod hirdymor i'r UE ddod yn gymdeithas sy'n ailgylchu, sy'n ceisio osgoi gwastraff ac sy'n defnyddio gwastraff fel adnodd. I'r perwyl hwn, mae'r Strategaeth yn nodi camau gweithredu allweddol i foderneiddio'r fframwaith cyfreithiol presennol a hyrwyddo atal gwastraff, ailddefnyddio ac ailgylchu, gyda gwaredu gwastraff yn ddewis olaf yn unig. Cyhoeddodd y Comisiwn adroddiad ym mis Ionawr 2010 ar weithredu'r Strategaeth gan amlygu'r cynnydd a sicrhawyd a'r heriau sy'n weddill, yn enwedig o ran atal gwastraff. Mae'r adroddiad hwn yn amlygu pwysigrwydd defnyddio offerynnau economaidd, yn enwedig i ffafrio atal a gwella rheoli gwastraff yn unol â'r hierarchaeth gwastraff.

Y Seithfed Rhaglen Gweithredu Amgylcheddol (7EAP)

Mae'r Comisiwn Ewropeaidd wedi cyhoeddi cynnig ar gyfer y 7^{fed} Rhaglen Gweithredu Amgylcheddol (2013-2020). Mae hon yn nodi amcanion amgylcheddol allweddol yr UE. Y nod yw cynyddu cyfraniad polisi amgylcheddol i'r newid tuag at economi garbon isel sy'n effeithlon o ran adnoddau, lle mae cyfalaf naturiol yn cael ei ddiogelu a'i wella, a lle mae iechyd a lles dinasyddion yn cael ei ddiogelu. Mae'r rhaglen yn darparu fframwaith cyffredinol ar gyfer polisi amgylcheddol hyd at 2020, gan nodi naw amcan blaenoriaeth i'r UE a'i Aelod-wladwriaethau eu cyflawni. Eir i'r afael ag atal gwastraff yn Amcan Blaenoriaeth 2: Troi'r UE yn economi garbon isel sy'n effeithlon o ran adnoddau, yn wyrdd ac yn gystadleuol.

Mae rhaglen arfaethedig y Comisiwn yn ei gwneud yn ofynnol (inter alia) erbyn 2020 bod:

- i) Effaith amgylcheddol gyffredinol cynhyrchu a defnyddio yn cael ei lleihau, yn enwedig yn y sectorau bwyd, tai a symudedd.
- ii) Gwastraff yn cael ei reoli'n ddiogel fel adnodd, bod y gwastraff a gynhyrchir y pen yn dirywio'n absoliwt, adfer ynni wedi'i gyfyngu i ddeunyddiau na ellir eu hailgylchu a bod yr arfer o anfon deunyddiau y gellir eu hailgylchu a deunyddiau y gellir eu compostio i safleoedd tirlenwi yn dod i ben i bob pwrpas.

Mae cynnig y Comisiwn yn nodi bod angen y canlynol, yn arbennig:

- i) Sefydlu fframwaith mwy cydlynol ar gyfer cynhyrchu a defnyddio cynaliadwy. Adolygu deddfwriaeth cynnyrch gyda'r bwriad o wella perfformiad amgylcheddol ac effeithlonrwydd adnoddau cynnyrch drwy gydol eu cylch bywyd. Pennu targedau i leihau effaith gyffredinol defnydd.
- ii) Gweithredu deddfwriaeth yr UE ynghylch gwastraff yn llawn. Bydd hyn yn cynnwys defnyddio'r hierarchaeth gwastraff a'r defnydd effeithiol o offerynnau seiliedig ar y farchnad a mesurau i sicrhau bod yr arfer o anfon gwastraff i safleoedd tirlenwi yn cael ei ddirwyn i ben i bob pwrpas, adennill ynni wedi'i gyfyngu i ddeunyddiau na ellir eu hailgylchu, gwastraff wedi'i ailgylchu yn cael ei ddefnyddio fel prif ffynhonnell ddibynadwy o ddeunydd crai ar gyfer yr UE, gwastraff peryglus yn cael ei reoli'n ddiogel a chynhyrchu llai ohono, dileu cludo gwastraff anghyfreithlon a dileu rhwystrau marchnad mewnol i weithgarwch ailgylchu amgylcheddol gadarn yn yr UE.

Cynllun Gweithredu ar Bolisi Diwydiannol Cynaliadwy – Defnyddio a Chynhyrchu Cynaliadwy

Mae Defnyddio a Chynhyrchu Cynaliadwy yn ymwneud â chyflawni mwy drwy ddefnyddio llai. Ym mis Gorffennaf 2008, mabwysiadodd y Comisiwn Ewropeaidd, drwy ymdrechion ar y cyd DG ENV, DG ENTR, a DG TREN, Gynllun Gweithredu ar Bolisi Diwydiannol Cynaliadwy a Defnyddio a Chynhyrchu Cynaliadwy i gynorthwyo cystadleurwydd economaidd diwydiant yr UE drwy well effeithlonrwydd ynni ac adnoddau, yn ogystal â gwell gallu ac adnoddau i ddatblygu atebion technolegol priodol.

Rhaglen Mapio ar gyfer Ewrop sy'n Effeithlon o ran Adnoddau

Mae'r Comisiwn Ewropeaidd wedi nodi rhaglen mapio i drawsnewid economi Ewrop yn un gynaliadwy erbyn 2050. Mae'r Rhaglen Mapio ar gyfer Ewrop sy'n effeithlon o ran adnoddau a fabwysiadwyd ym mis Medi 2011, yn amlinellu sut y gellir cyflawni twf sy'n effeithlon o ran adnoddau, gan nodi'r sectorau economaidd sy'n defnyddio'r swm mwyaf o adnoddau ac yn awgrymu dulliau a dangosyddion i helpu i gyfeirio gweithredu yn yr UE ac yn rhyngwladol. Yn arbennig, mae'r rhaglen mapio yn nodi bod yn rhaid gweld gwastraff fel adnodd i'w fwydo yn ôl i'r economi a bod angen rhoi mwy o flaenoriaeth i ailddefnyddio ac ailgylchu a bod yn rhaid creu cymhellion o safbwynt atal gwastraff ac ailgylchu. Yn arbennig, mae'r rhaglen mapio yn cynnwys y targedau canlynol "i ymgynhyrchu atynt" ar gyfer rheoli gwastraff, i'w cyflawni erbyn 2020: dylai gwastraff a gynhyrchir gael ei leihau mewn termau absoliwt, dylai ailddefnyddio ac ailgylchu gyrraedd y lefel 'uchaf sy'n ymarferol' a bod yn economaidd ddeniadol, dylai adennill ynni gael ei gyfyngu i beidio ag ailgylchu gwastraff a dylid dileu'r arfer o anfon gwastraff i'w dirllenwi i bob pwrpas.

Marchnad Sengl ar gyfer y Fenter Cynnyrch Gwyrdd

Mae cwmni sy'n dymuno marchnata ei gynnyrch fel un gwyrdd mewn marchnadoedd sawl Aelod-wladwriaeth yn wynebu amrywiaeth dryslyd o ddulliau a mentrau, ac efallai y bydd angen iddo ddefnyddio sawl un ohonynt er mwyn profi rhinweddau gwyrdd y cynnyrch. Mae hyn yn troi'n rhwystr i ddosbarthu cynnyrch gwyrdd yn y Farchnad Sengl.

Mae defnyddwyr hefyd wedi'u drysu gan y llif o wybodaeth amgylcheddol amrywiol na ellir ei chymharu: yn ôl Ewrobaromedr diweddar, mae 48 y cant o ddefnyddwyr Ewropeaidd wedi'u drysu gan y ffrwd o wybodaeth amgylcheddol y maent yn ei derbyn. Mae hyn hefyd yn effeithio ar eu parodrwydd i wneud pryniadau gwyrdd.

Mae'r fenter Marchnad Sengl ar gyfer y Fenter Cynnyrch Gwyrdd yn cynnig cyfres o gamau i oresgyn y problemau hyn:

- Mae'n sefydlu dau ddull o fesur perfformiad amgylcheddol drwy gydol y cylch bywyd, sef Ôl troed Amgylcheddol y Cynnyrch a'r Ôl troed Sefydliadol;
- Mae'n argymhell bod Aelod-wladwriaethau, cwmnïau, sefydliadau preifat a'r gymuned ariannol yn defnyddio'r dulliau hyn drwy Argymhelliad gan y Comisiwn;
- Mae'n cyhoeddi cyfnod profi tair blynedd i ddatblygu rheolau cynnyrch a phenodol i sector drwy broses aml-randdeiliad;
- Mae'n darparu egwyddorion ar gyfer cyfathrebu perfformiad amgylcheddol, megis tryloywder, dibynadwyedd, cyflawnrwydd, cymaroldeb ac eglurder;
- Mae'n cynorthwyo ymdrechion rhyngwladol tuag at fwy o gydgyssylltu o ran datblygu methodolegol ac argaeledd data.

Ecolabel yr UE

Mae Ecolabel yr UE yn helpu defnyddwyr i nodi cynhyrchion a gwasanaethau sy'n cael effaith amgylcheddol lai drwy gydol eu cylch bywyd, o echdynnu deunydd crai hyd at gynhyrchu, defnyddio a gwaredu. Wedi'i gydnabod ledled Ewrop, mae Ecolabel yr UE yn label gwirfoddol sy'n hyrwyddo rhagoriaeth amgylcheddol y gellir ymddiried ynddo.

Mae cynllun Ecolabel yr UE yn ymrwymiad i gynaliadwyedd amgylcheddol. Datblygwyd y meini prawf a chytunwyd arnynt gan wyddonwyr, cyrff anllywodraethol a rhanddeiliaid i greu ffordd gredadwy a dibynadwy o wneud dewisiadau amgylcheddol gyfrifol.

O'r deunyddiau crai i weithgynhyrchu, deunydd pacio, dosbarthu a gwaredu, mae cynnyrch Ecolabel yr UE yn cael eu gwerthuso gan arbenigwyr annibynnol i sicrhau eu bod yn bodloni meini prawf sy'n lleihau eu heffaith amgylcheddol. Mae Ecolabel yr UE yn ffordd hawdd o wneud dewis gwybodus am y cynnyrch rydych yn eu prynu.

Gellir dod o hyd i'r cynhyrchion a'r gwasanaethau hyn ym mhob un o Aelod-wladwriaethau'r UE yn ogystal ag mewn amrywiaeth eang o wledydd ledled y byd, gan gynnwys India, Seland Newydd, Canada a Tsieina.

Mae'r holl gynnyrch ag Ecolabel yr UE wedi'u gwirio gan gyrff annibynnol ar gyfer cydymffurfio â meini prawf ecolegol a pherfformiad llym. Mae'r label yn ystyried prif effeithiau amgylcheddol cynnyrch yn ogystal â pherfformiad amgylcheddol drwy gydol ei gylch bywyd. Mae awdurdodau ym mhob un o Aelod-wladwriaethau'r UE, yn ogystal â Gwlad yr Iâ, Norwy a Liechtenstein, yn gyfrifol am reoli Ecolabel yr UE.

Mae'r cynllun yn wirfoddol, ond mae cannoedd o gwmnïau ledled Ewrop wedi ymuno oherwydd mantais gystadleuol Ecolabel yr UE a'i ymrwymiad i'r amgylchedd. Gall cwsmeriaid ddibynnu ar y logo oherwydd bod pob cynnyrch yn cael ei wirio gan arbenigwyr annibynnol.

Cofrestru, Gwerthuso ac Awdurdodi Cemegion a Chyfyngu arnynt (REACH)

Mae REACH yn un o reoliadau'r Undeb Ewropeaidd sy'n ymwneud â Chofrestru, Gwerthuso ac Awdurdodi Cemegion a Chyfyngu arnynt. Daeth i rym ar 1 Mehefin 2007 gan gyflwyno system sengl yn lle nifer o Gyfarwydddebau a Rheoliadau Ewropeaidd.

Rhan fawr o REACH yw'r gofyniad i weithgynhyrchwyr neu fewnforwyr sylweddau eu cofrestru ag Asiantaeth Gemegion Ewropeaidd ganolog (ECHA). Caiff pecyn cofrestru ei ategu gan set safonol o ddata ar y sylwedd hwnnw. Mae swm y data sy'n ofynnol yn gymesur â swm y sylwedd a weithgynhyrchir neu a gyflenwir.

Mae gan REACH sawl nod:

- Darparu lefel uchel o ddiogelwch i iechyd pobl a'r amgylchedd rhag y defnydd o gemegion.
- Sicrhau bod y rhai sy'n rhoi cemegion ar y farchnad (gwneuthurwyr a mewnforwyr) yn gyfrifol am ddeall a rheoli'r risgiau sy'n gysylltiedig â'u defnyddio.)
- Caniatáu i sylweddau symud yn rhydd ym marchnad yr UE.
- Gwellu arloesedd yn niwydiant cemegion yr UE a'i natur gystadleuol.
- Hyrwyddo'r defnydd o ddulliau amgen o asesu nodweddion peryglus sylweddau e.e. perthnasoedd strwythur-gweithgarwch meintiol (QSAR) a darllen ar draws.

Atodiad Ch Rhestr termau

Cyfleusterau trin awdurdodedig cymeradwy (ATTF): Mae'r rhain yn gyfleusterau rheoli gwastraff sy'n ailddefnyddio neu'n trin gwastraff penodol fel sy'n ofynnol gan Gyfarwydddebau'r UE, a chyhoeddi nodiadau tystiolaeth i'r cynhyrchwyr bod triniaeth briodol wedi digwydd. Un enghraifft yw cyfleusterau trin WEEE sy'n gyfrifol am ailddefnyddio a thrin WEEE a sicrhau ei fod yn cael ei ailgylchu a'i adfer.

Gwastraff bioddiraddadwy: unrhyw wastraff a all ddadelfennu'n anerobig neu'n aerobeg, megis gwastraff bwyd a gardd, a phapur a bwrdd papur.

Safle dod â gwastraff: man ailgylchu lle gall y cyhoedd ddod â deunydd i'w ailgylchu, er enghraifft banciau poteli a chaniau. Maent yn cael eu lleoli fel arfer mewn meysydd parcio archfarchnadoedd, meysydd parcio cynghorau a lleoliadau tebyg.

Gwastraff masnachol a diwydiannol: mae gwastraff masnachol yn wastraff sy'n codi o unrhyw eiddo sy'n cael ei ddefnyddio'n gyfan gwbl neu'n bennaf ar gyfer masnach, busnes, chwaraeon, hamdden neu adloniant, ac eithrio gwastraff cartrefi a diwydiannol. Mae gwastraff diwydiannol yn wastraff o unrhyw ffatri ac o unrhyw eiddo a feddiannir gan ddiwydiant (ac eithrio mwynloddiau a chwareli).

Compostio: proses aerobeg, fiolegol lle mae biowastraff, megis gwastraff gardd a chegin yn cael eu troi'n ddeunydd gronynnog sefydlog y gellir ei ddefnyddio ar dir i wella strwythur y pridd a chyfoethogi cynnwys maethol y pridd.

Gwastraff adeiladu a dymchwel: gwastraff sy'n codi o weithgarwch a gynhelir gan gwmnïau adeiladu, cwmnïau dymchwel, cwmnïau peirianeg sifil ac adeiladwyr cyffredinol. Mae'n ymwneud gan amlaf â mathau o wastraff a restrir ym Mhennod 17 o Reoliadau'r Rhestr Wastraffoedd (Cymru) 2005, er ei fod hefyd yn cynnwys gwastraff arall a gynhyrchir gan y sefydliadau hyn sy'n codi o'u gweithgarwch adeiladu a dymchwel.

Ecoddylunio: proses rheoli dylunio strategol sy'n ymwneud â lleihau effaith cylch bywyd cynnyrch a gwasanaethau. Mae ymagweddau'n cynnwys dadansoddiad cylch bywyd, dylunio ar gyfer datgymalu a lleihau effaith negyddol cynnyrch ar yr amgylchedd (er enghraifft drwy gael gwared ar gemegion neu ddeunyddiau peryglus heb gyfaddawdu o safbwynt y dyluniad).

Ôl troed Ecolegol: mae'r fethodoleg ôl troed ecolegol yn cyfrifo arwynebedd y tir sydd ei angen i fwydo, darparu adnoddau, cynhyrchu ynni ac amsugno'r llygredd (a'r gwastraff) a gynhyrchir gan ein cadwyni cyflenwi.

Ynni o wastraff: mae'r technolegau'n cynnwys treulio anaerobig, hylosgi uniongyrchol (llosgi gan adfer ynni); defnyddio tanwydd deillio sydd wedi'i adfer neu danwydd sy'n deillio o sbwriel (allbwn o brosesau trin mecanyddol a biolegol), pyrolysis a nwyeddio (gan gynnwys nwyeddio plasma). Mae unrhyw dechnoleg benodol yn fwy buddiol os gellir adfer gwres a thrydan. Lle mae gwastraff yn cael ei ddefnyddio'n bennaf fel tanwydd neu ffordd arall o gynhyrchu trydan mae'r Gyfarwydddeb Fframwaith Gwastraff o'r farn ei fod yn weithgarwch adfer ar yr amod ei fod yn cydymffurfio â meini prawf penodol, sy'n cynnwys mynd y tu hwnt i drothwy effeithlonrwydd ynni.

Gwastraff peryglus: mae hwn yn wastraff a all fod yn niweidiol i iechyd pobl neu'r amgylchedd. Mae enghreifftiau o wastraff peryglus yn cynnwys asbestos, rhai mathau o wastraff cemegol, rhai mathau o wastraff gofal iechyd, offer trydanol sy'n cynnwys cydrannau peryglus megis tiwbiau pelydrau cathod neu sodr plwm, tiwbiau golau fflworoleuol, batris plwm-asid a lleidiau olewog.

Safleoedd tirlenwi: unrhyw arwynebedd o dir lle dyddodir gwastraff. Mae safleoedd tirlenwi yn aml wedi'u lleoli mewn mwngloddiau neu chwareli segur.

Byw Un Blaned: mae Byw Un Blaned yn weledigaeth o fyd cynaliadwy, lle gall pobl ym mhob man fwynhau ansawdd bywyd uchel o fewn gallu ac adnoddau cynhyrchiol y blaned, gyda lle i fywyd gwyllt a thir gwyllt. Mae sefydliadau ledled y byd yn defnyddio'r ymagwedd byw un blaned i gymryd camau mesuradwy tuag at gynaliadwyedd gwirioneddol.

Paratoi ar gyfer aildefnyddio: mae hyn yn golygu gweithrediadau adfer i wirio, glanhau neu drwsio, lle mae cynnyrch neu gydrannau cynnyrch gwastraff yn cael eu paratoi er mwyn iddynt allu cael eu haildefnyddio heb unrhyw ragbrosesu arall.

Caffael: Y weithred o gael gafael ar nwyddau neu wasanaethau neu eu prynu.

Cyfrifoldeb y cynhyrchydd: nod ymagwedd 'cyfrifoldeb y cynhyrchydd' yw ei gwneud yn ofynnol i gynhyrchwyr sy'n rhoi nwyddau neu ddeunyddiau ar y farchnad fod yn fwy cyfrifol am y cynnyrch neu'r deunyddiau hyn pan fyddant yn troi'n wastraff. Mewn rhai achosion, gofynnir i gynhyrchwyr hefyd leihau lefel y sylweddau peryglus yn eu cynnyrch a chynyddu'r defnydd o ddeunyddiau wedi'u hailgylchu a dylunio cynnyrch i'w ailgylchu.

Deunyddiau ailgylchu: dyma ddeunydd sy'n cael ei wahanu (naill ai yn y ffynhonnell neu'n dilyn triniaeth interim) at ddibenion ailgylchu.

Ailgylchu: mae hyn yn golygu unrhyw weithgarwch adfer lle mae deunyddiau gwastraff yn cael eu hailbrosesu'n gynnyrch, deunyddiau neu sylweddau boed hynny ar gyfer y dibenion gwreiddiol neu ddibenion eraill. Mae'n cynnwys ailbrosesu deunydd organig ond nid yw'n cynnwys adfer ynni ac ailbrosesu yn ddeunyddiau i'w defnyddio fel tanwydd neu ar gyfer gweithrediadau ôl lenwi.

Lleihau: cyflawni cymaint o leihad gwastraff fel cam gwastraff â blaenoriaeth. Gellir ei gyflawni o fewn proses weithgynhyrchu sy'n cynnwys adolygu prosesau cynhyrchu i sicrhau'r defnydd gorau posibl o ddeunyddiau crai (ac eilaidd) a phrosesau ailgylchredeg. Gall fod yn gost effeithiol, o ran costau gwaredu is, llai o alw am ddeunyddiau crai a chostau ynni. Gellir ei gynnal gan ddeiliaid tai drwy weithredoedd megis compostio gartref, ailddefnyddio cynnyrch a phrynu nwyddau â llai o ddeunydd pacio.

Gwastraff gweddilliol: term a ddefnyddir ar gyfer gwastraff sy'n weddill ar ôl i ddeunydd ailgylchu neu gompostio gael ei waredu o'r ffrwd wastraff.

Effeithlonrwydd adnoddau: rheoli deunyddiau crai, ynni a dŵr er mwyn lleihau gwastraff ac felly lleihau costau.

Ailddefnyddio: ailddefnyddio cynnyrch nad yw'n wastraff ar gyfer yr un diben.

Cynllun rheoli gwastraff safle (SWMP): offeryn i helpu'r sector adeiladu a dymchwel i wella'u proses o reoli gwastraff yn eu gweithle. Mae'n gynllun sy'n nodi swm a math y gwastraff a gynhyrchir ar safle adeiladu a sut y caiff ei ailddefnyddio, ei ailgylchu a'i waredu, a drwy wneud hynny bydd yn helpu i wella effeithlonrwydd adnoddau yn y diwydiant. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymgynghori ar Reoliadau Cynllun Rheoli Gwastraff Safle.

Arfarniad cynaliadwyedd: offeryn arfarnu sengl sy'n darparu ar gyfer proses systematig o nodi a gwerthuso effeithiau economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol cynnig.

Menter gymdeithasol: ystyr menter gymdeithasol yw busnes sydd ag amcanion cymdeithasol yn bennaf y caiff ei wagedau eu hailfuddsoddi'n bennaf at y diben hwnnw yn y busnes neu yn y gymuned, yn hytrach na chael ei lywio gan yr angen i sicrhau'r elw mwyaf i randdeiliaid a pherchenogion.

Triniaeth: prosesau ffisegol, thermol, cemegol neu fiolegol, gan gynnwys didoli, sy'n newid nodweddion y gwastraff er mwyn lleihau ei gyfaint neu ei natur beryglus, hwyluso'r broses o'i drin neu wella camau adfer.

Uwchgylchu: Mae uwchgylchu yn digwydd lle caiff deunyddiau crai ag ynni uchel wedi'i ymgorffori eu hamnewid am ddeunyddiau crai eilaidd â llai o ynni wedi'i ymgorffori ynddynt y gellir wedyn eu hailgylchu drwy ddolen gaeedig.

Sgil-gynhyrchion gwastraff: swm y gwastraff a gynhyrchir mewn lleoliad penodol dros gyfnod penodol o amser.

Hierarchiaeth gwastraff: yn nodi'r drefn y dylid ei defnyddio i ystyried opsiynau rheoli gwastraff yn seiliedig ar effaith amgylcheddol. Mae ganddi sail statudol yn y Gyfarwyddeb Fframwaith Gwastraff a'r rheoliadau gweithredu sy'n berthnasol i Gymru.

WEEE: Cyfarpar Trydanol ac Electronig Gwastraff. Mae Cyfarwyddeb WEEE (2002/96/EC) yn gorfodi gwneuthurwyr electronig a thrydanol i gymryd cyfrifoldeb am eu WEEE.

Diwastraff: Mae Diwastraff yn nod sy'n foesebol, yn ddarbodus, yn effeithlon ac yn weledigaethol, i arwain pobl i newid eu ffyrdd o fyw a'u harferion i efelychu cylchoedd cynaliadwy naturiol, lle mae'r holl ddeunyddiau a waredir wedi'u dylunio i ddod yn adnoddau i eraill allu eu defnyddio. Mae Diwastraff yn golygu dylunio a rheoli cynnyrch a phrosesau i osgoi a gwaredu swm a gwenwyndra gwastraff a deunyddiau, cadw ac adfer yr holl adnoddau, a pheidio â'u llosgi na'u claddu. Bydd Gweithredu Diwastraff yn dileu'r holl ollyngiadau i dir, dŵr neu aer sy'n fygythiad i iechyd y blaned, iechyd pobl, iechyd anifeiliaid neu iechyd planhigion. (Zero Waste International Alliance www.zwia.org).